Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 7 – Canllawiau Statudol: diogelu plant rhag camfanteisio rhywiol

Rhan 7

Diogelu Plant rhag Camfanteisio Rhywiol

Pennod / Cynnwys

Cyflwyniad 2

Pennod 1: 8
Deall camfanteisio'n rhywiol ar blant fel ffurf o gam-drin plant

Pennod 2: 22
Atal camfanteisio'n rhywiol ar blant

Pennod 3: 38
Ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant – gweithdrefnau diogelu

Pennod 4: 42
Ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant – rhoi'r plentyn yn y canol er mwyn diwallu anghenion gofal a chymorth

Pennod 5: 61
Ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant – atal troseddwyr a'u herlyn a rhoi 1 cymorth i'r plant sydd wedi dioddef, wrth iddynt fynd drwy'r broses gyfiawnder

OGL ISBN digidol 978-1-80082-956-5 © Hawlfraint y Goron 2021 WG41905

Cyflwyniad

1. Mae'r canllawiau hyn ar gyfer partneriaid byrddau diogelu datganoledig ac annatganoledig yng Nghymru ac fe'u cyhoeddir ar y cyd gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol.

2. Cyhoeddir y canllawiau hyn o dan adran 28 o Ddeddf Plant 2004 (y cyfeirir ati fel Deddf 2004) ac adran 139 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y cyfeirir ati fel Deddf 2014).

3. Mae adran 28 (2) o Ddeddf 2004 yn rhoi dyletswydd ar y personau a'r cyrff hynny y mae adran 28 yn berthnasol iddynt i wneud trefniadau ar gyfer sicrhau eu bod yn ystyried yr angen i ddiogelu a hybu lles plant wrth gyflawni eu swyddogaethau. Rhestrir y personau a'r cyrff y mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol iddynt yn adran 28(1).

4. I'r graddau y mae'r canllawiau'n berthnasol i awdurdodau lleol yng Nghymru, Bwrdd Iechyd Lleol, rhai o Ymddiriedolaethau'r GIG a gwasanaethau cymorth ieuenctid, cyhoeddir y canllawiau gan Weinidogion Cymru a rhaid i'r personau a'r cyrff hynny ystyried y canllawiau wrth gyflawni eu dyletswydd o dan adran 28(2).

5. I'r graddau y mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i wasanaethau prawf yng Nghymru, timau troseddwyr ifanc yng Nghymru, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Phrif Swyddog yr Heddlu mewn ardal heddlu yng Nghymru, Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, llywodraethwr carchar neu ganolfan hyfforddi ddiogel yng Nghymru a phennaeth coleg diogel yng Nghymru, cyhoeddir y canllawiau hyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol a rhaid i'r personau neu'r cyrff hynny ystyried y canllawiau wrth gyflawni eu dyletswydd o dan adran 28(2).

6. Mae adran 139 o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i bartner bwrdd diogelu, wrth gyflawni ei swyddogaethau fel bwrdd diogelu, ystyried unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru. Bydd y canllawiau hyn yn cynorthwyo pob partner bwrdd diogelu i gymryd yr holl gamau rhesymol i sicrhau bod y bwrdd diogelu y caiff ei gynrychioli arno yn llwyr ddarostyngedig i'r canllawiau hyn wrth fynd i'r afael â phroblemau camfanteisio'n rhywiol ar blant.

7. Mae'r canllawiau a gyhoeddwyd o dan adran 139(3) o Ddeddf 2014 yn berthnasol i'r partneriaid byrddau diogelu canlynol:

   (a) awdurdodau lleol;

   (b) prif swyddog yr heddlu ar gyfer ardal heddlu, y mae unrhyw ran ohoni mewn ardal Bwrdd Diogelu;

   (c) Byrddau Iechyd Lleol;

   (d) Ymddiriedolaethau'r GIG;

(e) yr Ysgrifennydd Gwladol i'r graddau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cyflawni swyddogaethau o dan adrannau 2 a 3 o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007 mewn perthynas â Chymru;

(f) unrhyw ddarparwr gwasanaethau prawf y mae trefniadau o dan adran 3(2) o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007 yn ei gwneud yn ofynnol iddo weithredu fel partner bwrdd diogelu mewn perthynas ag ardal bwrdd diogelu.

8. **Rhaid** i bartneriaid Byrddau Diogelu ac unigolion neu sefydliadau perthnasol eraill ystyried y canllawiau statudol hyn oni fydd amgylchiadau lleol yn nodi rhesymau eithriadol sy'n cyfiawnhau amrywiad.

9. Dylid darllen y canllawiau ar y cyd â phennod 1 o gyfrol 1 *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl* a gyhoeddwyd o dan adran 131 o Ddeddf 2014, sy'n darparu canllawiau ar y ddyletswydd i roi gwybod am blant sy'n wynebu risg. Dylid eu darllen hefyd ar y cyd â chyfrol 5 1 *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl*, sy'n darparu cyngor ar yr hyn a ddylai ddigwydd os bydd gan unigolyn bryderon ynglŷn â llesiant plentyn (gan gynnwys y rheini sy'n byw oddi cartref) ac, yn enwedig, sail resymol i amau bod plentyn yn wynebu cam-drin, esgeulustod neu fathau eraill o niwed, neu ei fod mewn perygl ohonynt, a bod angen gofal a chymorth arno.

10. Er mwyn cyflawni canlyniadau llesiant da i blant, mae'n rhaid i bawb sydd â chyfrifoldeb dros asesu a darparu gwasanaethau gydweithio yn unol â chynllun gweithredu cytunedig. Er mwyn cydweithio'n effeithiol, mae'n rhaid i sefydliadau a phobl fod yn glir ynghylch y canlynol:

- sail ddeddfwriaethol y gwaith;
- eu rolau a'u cyfrifoldebau ar gyfer diogelu a hybu llesiant plant (adran 28 o Ddeddf Plant 2004);
- y protocolau a'r gweithdrefnau i'w dilyn, gan gynnwys y ffordd y rhennir gwybodaeth ar draws ffiniau'r ymarferwyr ac o fewn asiantaethau, a'r ffordd y'i cofnodir;
- pa sefydliad, tîm neu ymarferydd sydd â'r prif gyfrifoldeb, yn ogystal ag union rolau pawb arall sydd ynghlwm;
- pwysigrwydd sicrhau bod plant, oedolion, aelodau o'r teulu a gofalwyr yn cyfranogi'n llawn, ac y caiff hawliau'r plentyn eu gwarchod;
- unrhyw amserlenni a nodir mewn rheoliadau neu ganllawiau sy'n llywodraethu'r gwaith o gwblhau asesiadau, gwneud cynlluniau ac amserlennu adolygiadau;

- yr angen i sicrhau, yn unol ag adran 6 o Ddeddf 2014, fod yn rhaid i berson sy'n cyflawni swyddogaethau o dan Ddeddf 2014 mewn perthynas â pherson y mae angen, neu y gellid bod angen, gofal a chymorth arno ystyried dymuniadau a theimladau'r unigolyn, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, a bod yn rhaid iddo ystyried pwysigrwydd hybu a pharchu urddas yr unigolyn;

- yr angen i berson sy'n cyflawni swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn perthynas â phlentyn a ddaw o dan adran 6 (1) (a), (b) neu (c) o Ddeddf 2014 ystyried Rhan 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn unol â Rhan 2 o Ddeddf 2014;
- pwysigrwydd rôl sefydliadau'r trydydd sector o ran tynnu sylw at blant sy'n wynebu niwed neu sydd mewn perygl o niwed, ac o ran amddiffyn plant sy'n wynebu risg.

11. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gytundeb rhyngwladol sy'n diogelu hawliau dynol plant o dan 18 oed. Mae 54 erthygl yn y Confensiwn. Mae Erthyglau 43-45 yn ymwneud â sut y dylai oedolion a llywodraethau gydweithio i sicrhau bod gan bob plentyn hawl i'w hawliau. Mae Erthyglau 1-42 yn nodi'r hawliau y mae gan bob plentyn hawl iddynt. Ym 1991 fe'i cadarnhawyd gan Lywodraeth y DU, a gytunodd yn ffurfiol i sicrhau bod gan bob plentyn yn y DU yr holl hawliau a restrir yn y Confensiwn.

12. Mae'r Confensiwn yn cyflwyno'r egwyddor sylfaenol mai cyfrifoldeb pob unigolyn ac asiantaeth sy'n gweithio gyda phlant a'u teuluoedd yw amddiffyn plant rhag niwed, a chydag oedolion a allai fod yn risg i blant. Mae erthyglau allweddol yn cynnwys bod gan bob plentyn a pherson ifanc hawl i:

- erthygl 12 : hawl i ddweud eu barn mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
- erthygl 13 : hawl i wybodaeth;
- erthygl 19 : hawl i gael eu hamddiffyn rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod;
- erthygl 24 : hawl i'r iechyd gorau posibl;
- erthygl 28 : hawl i addysg;
- erthygl 29 : hawl i addysg sy'n datblygu personoliaeth, talentau a galluoedd meddyliol a chorfforol y plentyn;
- erthygl 33 : hawl i gael eu diogelu rhag cyffuriau peryglus;
- erthygl 34 : hawl i gael eu cadw'n ddiogel rhag cam-drin a chamfanteisio rhywiol;
- erthygl 36 : hawl i fod yn ddiogel rhag niwed i'w datblygiad;
- erthygl 39 : hawl i adferiad o drawma ac i ailintegreiddio;
- erthygl 42 : hawl i wybod beth yw eu hawliau fel maent wedi'u gwarantu gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

13. Yn 2011, Cymru oedd y weinyddiaeth gyntaf yn y DU i ymgorffori'r Confensiwn mewn cyfraith ddomestig, drwy Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae'r Mesur yn golygu bod ystyriaeth o'r Confensiwn a'r Protocolau Dewisol wedi'i ymgorffori yng nghyfraith Cymru a bod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i ofynion y Confensiwn wrth wneud eu penderfyniadau.

14. Mae'r canllawiau hyn hefyd yn cynnwys canllawiau anstatudol y bwriedir iddynt ddarparu gwybodaeth i gynorthwyo Byrddau Diogelu. Er nad oes ganddynt rym canllawiau statudol, maent yn cynnwys arferion da.

15. Ffurf o gam-drin plant yn rhywiol yw camfanteisio'n rhywiol ar blant , ac mae'n cynnwys elfen o gyfnewid rhwng y plentyn sy'n cael ei gam-drin (hyd at 18 oed) a'r unigolyn sy'n cam-drin neu neu sy'n hwyluso'r cam-drin.

16. Ers cyfnod cymharol fyr y mae camfanteisio'n rhywiol ar blant wedi'i gydnabod yn ffurf o gam-drin plant, a pharhaodd yn ffurf hynod gudd o gam-drin tan ganol y 1990au, pan agorwyd rhai o'r gwasanaethau cyntaf i blant yr effeithiwyd arnynt. Darparodd yr arfer cynnar hwn dystiolaeth o natur camfanteisio'n rhywiol ar blant fel ffurf o gam-drin ac, wrth i'r arfer ddatblygu, datblygwyd hefyd waith ymchwil ac ymgyrchu dan arweiniad y trydydd sector, a aeth ati i eiriol am ymatebion priodol ar gyfer plant a oedd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn y modd hwn.

17. Oherwydd bod profiadau plant o'r ffurf hon o o gam-drin wedi cael ei drin mewn modd mor ddifrïol yn aml – yn y cyfryngau, mewn polisïau, yn y system cyfiawnder troseddol ac mewn ymarfer – roedd hyn yn gwaethygu'r sefyllfa oedd ohoni, lle'r oedd y ffurf hon o gam-drin yn cael ei deall, ei rheoli a'i phlismona'n wael.

18. Cafodd y polisi cyntaf yn ymwneud â cham-drin plant drwy gamfanteisio rhywiol ei gyhoeddi yn 2000 ar gyfer Cymru a Lloegr o dan y teitl '*Safeguarding Children involved in Prostitution*'[1]. Nid tan 2008 y cafodd y term 'camfanteisio'n rhywiol ar blant' ei gynnwys ym *Mhrotocol Cymru Gyfan*[2] a gyhoeddwyd dan Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Dilynwyd hyn gan ganllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2011[3] a oedd yn nodi "na ddylid ystyried bod ymddygiad plant a phobl ifanc y camfanteisir yn rhywiol arnynt yn ymddygiad gwael neu droseddol".

19. Ers hynny, mae tystiolaeth ar sail ymarfer,[4] gwaith ymchwil a nifer o achosion uchel eu proffil yn y cyfryngau wedi helpu i newid y farn a'r canfyddiadau cyffredin ynghylch camfanteisio'n rhywiol ar blant.

20. Fodd bynnag, canfu'r adolygiad o bolisïau cyfredol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gyhoeddwyd yn 2017[5] fod yr ymwybyddiaeth o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn gwella ymysg gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd, ond fod tystiolaeth a oedd yn awgrymu bod ambell gamsyniad a chamddealltwriaeth o hyd ynglŷn ag ef.

21. Mae'r canllawiau hyn yn disodli'r fersiwn flaenorol o'r canllawiau statudol, *Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol – Canllawiau Atodol ar Ddiogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 (2011).*

22. Mae'r canllawiau hyn yn nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru ynghylch y ffyrdd y dylai asiantaethau ac ymarferwyr gydweithio i ddiogelu plant rhag y perygl o gamfanteisio rhywiol. Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru a Chanllawiau Ymarfer Cymru Gyfan yn ategu'r canllawiau hyn.

23. Datblygwyd y canllawiau hyn gyda chymorth Grŵp Cynghori amlasiantaeth o dan gadeiryddiaeth Dr Sophie Hallett, Prifysgol Caerdydd.

Deddfwriaeth berthnasol

Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

24. Ar 29 Ebrill 2015, cafodd y Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) y Cydsyniad Brenhinol a daeth yn Ddeddf. Nod y ddeddfwriaeth yw gwella ymateb y sector cyhoeddus yng Nghymru i gamdriniaeth a thrais o'r fath, a chraffwyd arni'n drylwyr trwy'r broses ddeddfwriaethol.

25. Nod y Ddeddf yw:
- gwella trefniadau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac i atal, gwarchod a chynorthwyo'r rheini sydd wedi eu dioddef;
- cyflwyno ymagwedd seiliedig ar angen i ddatblygu strategaethau a fydd yn sicrhau cyfeiriad strategol cryf a mwy o atebolrwydd;
- sicrhau perchenogaeth ar lefel strategol, trwy benodi Ymgynghorydd Gweinidogol, a fydd â rôl mewn cynghori Gweinidogion Cymru a gwella'r cydweithio ymysg asiantaethau ar draws y sector hwn; a
- gwella cysondeb y gwasanaethau sy'n cael eu darparu, eu hansawdd, a'r ffordd y maent yn cael eu cydgysylltu yng Nghymru.

Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015

26. Fe wnaeth Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 gydgrynhoi'r troseddau[6] caethwasiaeth a masnachu oedd yn bodoli'n barod i greu dwy drosedd:

- Masnachu pobl, a ddiffinnir fel "arranging or facilitating the travel of another person with a view to exploitation". Mae teithio yn cynnwys teithio o fewn gwlad, nid dim ond ar draws ffiniau rhyngwladol.

- Caethwasiaeth, caethiwed a gwaith dan orfod – mae'r Ddeddf yn nodi bod gan y drosedd hon yr un ystyr ag at ddibenion Erthygl 4 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

27. Mae gan staff rheng flaen penodol sy'n dod ar draws dioddefwr posibl caethwasiaeth fodern neu fasnachu pobl ddyletswydd i hysybysu'r Swyddfa Gartref o dan adran 52 o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol i'r Heddlu, Awdurdodau Lleol, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, a'r Awdurdod Meistri Gangiau a Chamddefnyddio Llafur.

Pennod 1

Deall camfanteisio'n rhywiol ar blant fel ffurf o gam-drin plant

28. Trwy gydol y canllawiau hyn, mae'r term ‘plentyn’ yn cyfeirio at blant a phobl ifanc hyd at 18 oed. Defnyddir y term hwn i atgoffa ymarferwyr bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn dweud bod *"Plentyn" yn golygu person sydd o dan 18 oed*.

29. Mae hyn yn golygu bod y dyletswyddau diogelu a nodir yn y canllawiau hyn yn ddyledus i bob plentyn a pherson ifanc hyd at 18 oed. Rydym yn cydnabod efallai nad yw pobl ifanc yn eu harddegau yn hoffi cael eu galw’n blant ac y bydd yn well ganddynt gael eu galw’n ‘berson ifanc’. Nid yw defnyddio'r term 'plentyn' yn y canllawiau hyn yn golygu y dylai ymarferwyr ddefnyddio'r term yn ymarferol gyda phawb o dan 18 oed.

Camfanteisio'n rhywiol ar blant –

Mae hwn yn ffurf ar gam-drin rhywiol	sy'n gallu cynnwys rhyw neu unrhyw fath o weithgaredd rhywiol â phlentyn, creu delweddau anweddus, a/neu unrhyw ddeunyddiau anweddus eraill sy'n ymwneud â phlant
Mae’n cynnwys plentyn	Mae'n digwydd i'r rhai hyd at 18 oed
Mae'n cynnwys rhyw fath o gyfnewid	Gall y cyfnewid gynnwys rhoi rhywbeth neu dynnu rhywbeth yn ôl, er enghraifft atal trais neu fygythiadau i gam-drin unigolyn arall. Mae’n bosibl y bydd hwylusydd hefyd a fydd yn derbyn rhywbeth, yn ogystal â’r plentyn y camfanteisir arno. Neu efallai y bydd yn derbyn rhywbeth yn hytrach na’r plentyn. Efallai na fydd plant yn cydnabod natur gamfanteisiol y berthynas neu'r cyfnewid. Efallai y bydd plant yn teimlo eu bod wedi rhoi eu caniatâd.

30. Mae'n bwysig cofio na fydd plant, o bosibl, yn adnabod nac yn deall termau fel camfanteisio'n rhywiol ar blant, paratoi *(grooming*), gorfodi *(coercion*) a thermau eraill a ddefnyddir yn y canllawiau hyn. Wrth weithio gyda phlant a siarad â hwy, mae'n bwysig bod ymarferwyr yn defnyddio geiriau y mae plant yn eu deall ac yn esbonio'n ofalus y termau y gall ymarferwyr eu defnyddio a'r hyn a olygir wrth y termau hyn. Mae hefyd yn bwysig iawn osgoi iaith sy'n beio dioddefwyr.

31. Mae cyfnewid yn rhan greiddiol o gamdriniaeth trwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Cyfnewid yw'r hyn sy'n gwneud camfanteisio'n rhywiol ar blant yn wahanol i ffurfiau eraill o gam-drin plant yn rhywiol. Yr hyn sy'n sy'n cael ei gyfnewid yw:

- Pethau a phrofiadau materol - arian, nwyddau, bwyd, alcohol, cyffuriau, llety, partïon, tripiau.

- Pethau'n ymwneud â theimladau - diwallu angen emosiynol neu angen sy'n ymwneud â hunan-barch, teimlo bod ar rywun eu heisiau, teimlo eu bod yn perthyn, teimlo bod rhywun yn eu caru, teimlo eu bod yn rheoli a/neu deimlo'n bwysig.

- Pethau'n ymwneud â'r angen i fod yn ddiogel - yr angen i fod yn rhydd rhag bygythiadau a thrais corfforol neu fygythiadau i rywun sy'n annwyl i'r plentyn.

32. Mae'n bosibl y bydd unigolyn sy'n hwyluso a/neu'n trefnu'r gweithgaredd camfanteisio ar blentyn ac yn derbyn rhywbeth yn ogystal â'r plentyn neu yn hytrach nag ef. Mae'n bosibl y bydd person hwn yn cam-drin y plentyn yn rhywiol, neu na fydd yn gwneud hynny, ond bydd yn elwa mewn rhyw ffordd ar y cam-drin.

33. Mae paratoi plentyn yn cynnwys sefyllfa pan fydd unigolyn yn cyfathrebu â phlentyn ac yn ceisio ffurfio perthynas ag ef gyda'r bwriad o'i roi mewn sefyllfa lle y bydd yn destun camdriniaeth:

- Gall hyn ddigwydd ar-lein neu all-lein a bydd yn aml yn golygu bod y cyflawnwr yn darparu perthynas i'r plentyn lle mae'n teimlo'n bwysig neu ei fod yn cael ei ddeall.

- Gall paratoi plentyn gynnwys darparu nwyddau neu brofiadau.

- Bydd cyflawnwyr yn gweithio i ddatblygu sefyllfa lle bydd y plentyn yn ymddiried ynddo a/neu'n teimlo bod modd i'r cyflawnwr roi rhywbeth iddo nad oes modd cael gafael arno gan rywun arall. Gallai hyn fod yn gyfeillgarwch; gallai hyn fod ar ffurf cyfeillgarwch, perthynas lle bydd y plentyn yn credu ei fod mewn perthynas ramantaidd, ymdeimlad o berthyn, neu ymdeimlad o bwysigrwydd lle rhoddir statws neu nwyddau iddo sy'n ei wneud yn uchel ei barch ymysg ei gyfoedion.

- Yn aml, defnyddir y dulliau hyn er mwyn rhoi'r plentyn mewn sefyllfa lle bydd modd i droseddwr neu hwylusydd camfanteisio'n rhywiol gam-drin y plentyn.

- Fodd bynnag, nid yw'r broses o baratoi yn amlwg ym mhob achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Gall plant ddod i gysylltiad â chyflawnwyr mewn sawl ffordd wahanol a gall y cyfnod rhwng y cysylltiad cyntaf a'r gamdriniaeth fod yn fyr iawn.

- Gall y broses o baratoi plentyn ddigwydd dros gyfnod byr iawn o amser.

34. Defnyddir gorfodaeth a rheolaeth yn aml gan droseddwyr a hwyluswyr camfanteisio rhywiol fel dull o sicrhau bod plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol. Gall hyn gynnwys:

- Rheoli drwy ddarparu rhywbeth y mae'r plentyn am ei gael neu sydd ei angen arno megis arian, alcohol neu gyffuriau, perthynas/hoffter, addo cadw'r plentyn yn ddiogel rhag eraill, neu lety.

- Neu gall rheolaeth gael ei sicrhau drwy'r bygythiad y caiff y pethau hyn eu tynnu'n ôl os nad yw'r plentyn yn cymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol gyda'r prif droseddwyr neu gamdrinwyr eraill y mae'r troseddwr yn ei gyfeirio atynt i gyflawni gweithgareddau rhywiol.

- Gall gorfodaeth fod ar ffurf bygythiadau o drais corfforol neu drais corfforol gwirioneddol, cam-drin emosiynol, neu fygythiadau i niweidio rhywun sy'n annwyl i'r plentyn.

- Fodd bynnag, gall camfanteisio'n rhywiol ar blant hefyd ddigwydd yn absenoldeb unrhyw arwyddion amlwg o orfodaeth neu reolaeth.

35. Bydd y ffordd y bydd plant yn deall camfanteisio yn amrywio o blentyn o blentyn:

- Mae'n bosibl y bydd plant y camfanteisir yn rhywiol arnynt yn methu â chydnabod eu bod wedi dioddef camfanteisio.

- Fodd bynnag, mae llawer o blant yn deall eu bod yn dioddef camfanteisio ond efallai'n ei chael yn anodd datgelu hynny neu geisio cymorth oherwydd stigma neu am fod y peth maent yn ei dderbyn yn gyfnewid am y cam-drin yn bwysig iddynt.

- Efallai y byd rhai plant yn deall eu bod yn dioddef camfanteisio ond yn parhau i feddwl mai'r camfanteisio yw'r opsiwn gorau sydd ar gael iddynt yng nghyd-destun dewisiadau cyfyngedig.

- Efallai y bydd rhai plant yn teimlo mai ychydig iawn o reolaeth sydd ganddynt dros y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud amdanynt

mewn rhannau eraill o'u bywydau a bod y cyfnewid sydd rhan o'r ffurf hon ar gam-drin yn rhoi ymdeimlad o reolaeth iddynt dros yr hyn sy'n digwydd iddynt.

- Mae'n bosibl y bydd rhai plant yn derbyn camdriniaeth fel rhan arferol o fywyd neu'n teimlo eu bod yn ei haeddu oherwydd eu profiadau blaenorol o gamdriniaeth neu eu teimladau o fod yn ddiwerth.

36. Yr oedran cydsyniad (yr oed cyfreithiol i gael rhyw) yn y Deyrnas Unedig yw 16 mlwydd oed.

- Mae'r deddfau yn bodoli i amddiffyn plant. Nid ydynt yn bodoli i erlyn pobl ifanc o dan 16 mlwydd oed sy'n cyflawni gweithgaredd rhywiol lle mae'r ddwy ochr yn cydsynio, ond cânt eu defnyddio os yw camdriniaeth neu gamfanteisio yn gysylltiedig â hynny.

- Er mwyn helpu i amddiffyn plant iau, mae'r gyfraith yn datgan nad oes byth fodd i unrhyw un o dan 13 mlwydd oed roi cydsyniad cyfreithiol. Golyga hyn y bydd unrhyw un sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol gyda phlentyn 12 mlwydd oed neu'n iau yn destun cosbau a amlinellir o dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003.

- Mae'r gyfraith hefyd yn rhoi gwarchodaeth ychwanegol i bobl ifanc sydd rhwng 16 ac 17 mlwydd oed. Mae'r canlynol yn anghyfreithlon:

  - tynnu, dangos neu ddosbarthu lluniau anweddus
  - talu am wasanaethau rhywiol neu eu trefnu
  - talu am wasanaethau rhywiol neu eu trefnu
  - achosi, annog neu gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol gydag unrhyw un o dan 18 mlwydd oed os ydych mewn safle o ymddiriedaeth (er enghraifft, athrawon a gweithwyr gofal).

37. Rhan o'r rheswm pam nad oedd camfanteisio'n rhywiol ar blant yn cael ei ystyried yn ffurf o gam-drin yn y gorffennol oedd yr ymddangosai fod plant yn cydsynio i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol er mwyn derbyn rhywbeth neu er mwyn i rywun arall dderbyn rhywbeth.

- Ni all plant gydsynio i'w camdriniaeth eu hunain.

- Mae'n bwysig cydnabod y gallai plant ystyried eu bod yn cydsynio neu y gallai ymddangos fel pe baent yn cydsynio.

- Gall y cysyniad o 'amodau cydsyniad' ein helpu i ddeall hyn. Mae'n bwysig cydnabod y gall cyfnewid rhyw fod yn bodloni (ac yn manteisio ar) anghenion sydd heb eu diwallu.[7]

- Mae ffactorau megis agweddau at ryw, profiadau blaenorol, perthnasoedd (neu ddiffyg perthnasoedd), ac anghenion emosiynol ac ariannol oll yn dylanwadu ar y cyd-destun ar gyfer dirnad cyfranogiad plentyn mewn gweithgareddau camfanteisio rhywiol.

38. Gall cam-drin ar-lein a cham-drin all-lein orgyffwrdd.[8] Nid yw plant yn gwahaniaethu rhwng y byd ar-lein a'r byd all-lein yn yr un ffordd y mae oedolion yn gwneud hynny ar hyn o bryd ac mae technoleg yn dod yn rhan fwyfwy allweddol o fywydau cymdeithasol a phrofiadau dysgu plant. Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan – diogelu plant rhag cael eu cam-drin ar-lein

- Gall camfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein ddigwydd trwy rwydweithio cymdeithasol, ystafelloedd sgwrsio, negeseua gwib, safleoedd i ganfod cariad, a llawer mwy o blatfformau. Yn aml, bydd gweithgareddau camfanteisio'n digwydd heb i'r plentyn sylweddoli. Gall camfanteisio a cham-drin fod ar rai o'r ffurfiau canlynol:
    - Annog, cymell neu orfodi plentyn i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol neu ei gyflawni
    - Annog, annog neu orfodi plentyn (hyd at 18 oed) i wneud delweddau anweddus ohono'i hun a'u rhannu, neu ofyn iddo wneud hynny
    - Annog plentyn i ffilmio ei hun yn cyflawni gweithgaredd rhywiol neu ofyn iddo wneud hynny
    - Paratoi plentyn (*grooming)*
    - Bwlio
    - Aflonyddu
    - Rhwydo (ffurf o seiberfwlio pan fydd dioddefwr yn cael ei gyhuddo o anfoesoldeb rhywiol)

- Nid yw camfanteisio ar-lein yn arwain at gam-drin cysylltiol bob tro (mae'n bosibl na fydd y plentyn byth yn cwrdd â'r unigolyn sy'n ei gam-drin) ond mae'n achosi cryn niwed i'r plentyn.

- Hefyd, gall technoleg hwyluso gweithgareddau camfanteisio'n rhywiol ar blant all-lein. Mae troseddwyr hefyd yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i ganfod pobl ifanc i gamfanteisio'n rhywiol arnynt. Gallant ddefnyddio bygythiadau i rannu cynnwys neu ddelweddau o'r plentyn y maent wedi'u caffael ar-lein fel modd o arfer grym dros blentyn a gallant ddefnyddio technoleg i gyfathrebu â'r plentyn er mwyn hwyluso camdriniaeth all-lein trwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

- Gall troseddwyr hefyd orfodi plant i rannu delweddau â nhw ac yna defnyddio bygythiadau sy'n ymwneud â rhannu'r delweddau hyn er mwyn rheoli'r plentyn a'i gam-drin ymhellach. Yn debyg i bob ffurf o gamfanteisio, mae'n bosibl na fydd y plentyn yn cydnabod natur orfodol y cysylltiad â'r troseddwr.

39. Gall camfanteisio'n rhywiol ar blant a phryderon diogelu eraill orgyffwrdd â'i gilydd**.** Mae gwahanol fathau o gam-drin a chamfanteisio yn gydgysylltiedig. Dyma un o'r rhesymau pam mae'n rhaid i'n hymateb ar gyfer plant ganolbwyntio ar y plentyn, ac nid ar y materion.

- Mae'n bosibl y bydd plant sy'n cael eu cam-drin trwy gamfanteisio rhywiol hefyd yn wynebu camdriniaeth rywiol nad yw'n cynnwys cyfnewid.

- Gallai plant sy'n cael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol hefyd fod yn destun esgeulustod, cam-drin emosiynol neu gorfforol neu rywiol yn eu teulu – nid yw hyn yn golygu bod pob plentyn y camfanteisir yn rhywiol arnynt yn dod o deuluoedd lle mae perygl o gael eu cam-drin. Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan – diogelu plant rhag canmfanteisio rhywiol.

- Mae cysylltiad cryf rhwng camfanteisio'n rhywiol ar blant a materion diogelu eraill megis plant yn mynd ar goll a masnachu plant. Gall mynd ar goll o'r cartref neu o wasanaethau gofal roi plant mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol neu gall fod yn arwydd bod camfanteisio rhywiol yn digwydd eisoes. Mae masnachu plant yn cynnwys symud plentyn o un lle i'r llall er mwyn camfanteisio arno. Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan – diogelu plant sy'n mynd ar goll o'r cartref neu o ofal

  Canllawi Ymarfer Cymru Gyfan – diogelu plant a all fod wedi'u masnachu

- Gall plant hefyd wynebu camfanteisio rhywiol fel rhan o gamfanteisio'n droseddol ar blant neu gallant gael eu targedu ar gyfer camfanteisio troseddol gan eu bod eisoes yn dioddef camfanteisio rhywiol ac i'r gwrthwyneb.[9] Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan – diogelu plant rhag camfanteisio troseddol.

- Gall plant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol hefyd ddioddef camdriniaeth drwy gamfanteisio rhywiol.[10] Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan - diogelu plant lle mae pryderon am ymddygiad rhywiol niweidiol

Felly, gall camfanteisio rhywiol fod yn un rhan o brofiad unigol a chymhleth o gam-drin a chamfanteisio cydgysylltiedig ar gyfer pob plentyn.

40. Dylid gwneud pob ymdrech i osgoi troseddoli plant yn ddiangen. Er na ellir osgoi ymateb cyfiawnder troseddol mewn rhai achosion, dylai asiantaethau gydweithio, pryd bynnag y bo modd, i atal plant sydd eisoes yn agored iawn i niwed rhag cael eu troseddoli.

Pa blant a allai fod mewn perygl o gamfanteisio rhywiol?

41. Wrth ystyried cam-drin plant, mae rhagdybio, cyffredinoli neu ddibynnu ar stereoteipiau bob amser yn beryglus. Er bod rhai materion a phatrymau cyffredin mewn achosion o gamfanteisio rhywiol, gall unrhyw blentyn fod yn destun camfanteisio rhywiol. Mae'r ffyrdd y caiff plant eu rhoi mewn sefyllfa lle gall cam-drin ddigwydd yn amrywiol ac mae'r rhai sy'n camfanteisio yn gweithredu mewn llawer o ffyrdd gwahanol.

- Nid oes un math o ddioddefwr, un math o gyflawnwr nac un patrwm o gam-drin.

- Fel sy'n wir am bob math o gam-drin plant, gall unrhyw blentyn fod yn destun camfanteisio rhywiol. Fodd bynnag, gall rhai amgylchiadau a phrofiadau olygu bod rhai plant yn arbennig o agored i niwed.

- Nid yw hyn yn golygu y bydd pob plentyn sy'n agored i niwed am resymau penodol yn cael ei gam-drin trwy gamfanteisio rhywiol. Nid yw'n golygu ychwaith na fydd plant nad ydynt yn agored i niwed am resymau penodol yn cael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol.

42. Gwyddom y gall rhai plant fod yn arbennig o agored i niwed oherwydd profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod[11] yn amrywio o ddioddef camdriniaeth lafar, feddyliol, rywiol a chorfforol, i blentyn yn cael ei fagu mewn cartref lle mae trais domestig, camddefnyddio alcohol, camddefnyddio cyffuriau neu rieni'n gwahanu. Fodd bynnag, mae modd i blant sydd heb gael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ddioddef camfanteisio rhywiol,

43. Yn ôl tystiolaeth, mae plant sy'n profi straen yn ifanc neu sy'n cael plentyndod o ansawdd gwael yn fwy tebygol o gael llesiant gwael yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys plant sydd wedi cael profiadau ansefydlog yn y cartref neu mewn lleoliad gofal, plant sydd wedi cael profiad o drawma a cham-drin, plant â hunan-barch gwael, a phlant sy'n cael problemau o ran addysg, iechyd meddwl, camddefnyddio alcohol/cyffuriau neu ymddygiad troseddol. Mae'r rhain yn blant y mae eu profiadau a'u hamgylchiadau yn ei gwneud yn fwy tebygol bod ganddynt anghenion heb eu diwallu a hunan-barch gwael. Mae hyn yn ei dro yn golygu eu bod yn agored i gamfanteisio arnynt.

44. Bydd mwyafrif y plant sydd â phrofiad o ofal wedi bod yn destun ymyriad gan y gwasanaethau cymdeithasol yn sgil camdriniaeth, esgeulustod a phrofiadau niweidiol eraill yn ystod plentyndod. Gallai hyn helpu i esbonio pam mae cyfran anghymesur o blant sydd â phrofiad o ofal yn ddioddefwyr camfanteisio rhywiol a pham y gallant fod yn arbennig o agored i niwed.[12]

45. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae mwyafrif y plant sydd wedi bod yn destun camfanteisio rhywiol yn byw gartref.[13] Mae hyn yn golygu bod gwaith teulu yn elfen hanfodol o ddiwallu anghenion gofal a chymorth plant sydd wedi bod yn destun camfanteisio rhywiol.

46. Yn achos rhai plant, mae camfanteisio rhywiol yn arbennig o gudd, wedi'i gamddeall a heb ei nodi'n ddigonol.

47. Mae tystiolaeth o waith ymchwil ac ymarfer yn awgrymu bod mwy o ferched yn cael eu cam-drin trwy gamfanteisio rhywiol na bechgyn.[14] Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu nad oes neb yn camfanteisio'n rhywiol ar fechgyn. Mae sylw diweddar y cyfryngau ar achosion uchel eu proffil o gamfanteisio'n rhywiol ar blant wedi atgyfnerthu'r camsyniad mai dim ond merched sy'n destun camfanteisio rhywiol. Gall bechgyn fod yn destun camfanteisio rhywiol ac mae hynny'n digwydd.[15]

48. Mae ymchwil yn awgrymu nad oes dealltwriaeth dda o gam-drin bechgyn neu ei fod yn cael ei gamddehongli. Mae'r ymchwil yn awgrymu hefyd bod y ffordd y mae'r camfanteisio rhywiol yn dechrau yn gallu bod yn arbennig o gymhleth ac y gall stereoteipiau effeithio ar allu ymarferwyr i ddirnad bod bechgyn yn agored i niwed, a bod hynny'n arwain at ddiffyg adnabod camdriniaeth.[16]

49. Canfu ymchwil[17] fod phobl ifanc sydd ag anableddau dysgu yn agored i gamfanteisio rhywiol yn sgil ffactorau sy'n cynnwys gorwarchodaeth, unigedd cymdeithasol a'r gymdeithas yn gwrthod eu cydnabod fel bodau rhywiol. Gall diffyg ymwybyddiaeth ymysg ymarferwyr o gamfanteisio'n rhywiol ar bobl ifanc ag anableddau dysgu gyfrannu hefyd at eu gwneud yn agored i niwed.

50. Mae tystiolaeth o faes ymarfer yn awgrymu bod plant nad ydynt yn cyrraedd trothwy ar gyfer diagnosis ffurfiol o anabledd dysgu neu nad ydynt erioed wedi cael eu hasesu yn cael eu gorgynrychioli ymysg plant sy'n destun camfanteisio rhywiol.

51. Mae plant ag anabledd deirgwaith yn fwy tebygol o gael eu cam-drin mewn rhyw ffordd na phlant heb anabledd. O fewn y grŵp hwn, mae plant sydd ag anhwylderau ymddygiad yn arbennig o agored i niwed.[18]

52. Daw dioddefwyr camfanteisio rhywiol o bob cefndir ethnig. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu y gallai safbwyntiau ac arferion diwylliannol a chrefyddol, yn enwedig y rhai hynny sy'n gweld gwerth ar forwyndod menyw neu heterorywioldeb dyn, atal dioddefwyr rhag datgelu'r camfanteisio am eu bod yn ofni cael eu cosbi neu eu gwrthod gan eu teuluoedd.[19] Gall hyn olygu nad yw plant o rai cymunedau yn cael eu hadnabod fel rhai sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, na'u hamddiffyn rhag cael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol.[20]

53. O ran plant sy'n LHDT+, mae ymchwil yn awgrymu y gall diffyg gwybodaeth a chymorth priodol a theimladau o unigedd olygu bod bechgyn yn chwilio am gymunedau oedolion hoyw ar-lein ac all-lein ac y

gallai hyn beri risg iddynt. Mae'r un ymchwil yn awgrymu y gallai plant LHDT+ wynebu rhwystrau ychwanegol rhag ceisio cymorth os ydynt yn destun camfanteisio ac nad yw gweithwyr proffesiynol yn rhoi ystyriaeth ddigonol i'r posibilrwydd o gamdriniaeth trwy gamfanteisio'n rhywiol ar gyfer plant LHDT+, yn enwedig o fewn perthnasoedd lesbiaidd a thraws.[21]

Beth ydyn ni'n ei wybod am y rhai sy'n camfanteisio'n rhywiol ar blant?

54. Mae'r achosion amlycaf o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a ddatgelwyd mewn lleoedd fel Rochdale a Rotherham wedi creu sefyllfa lle mae llawer o bobl yn cysylltu troseddau camfanteisio'n rhywiol ar blant â gangiau neu grwpiau wedi'u trefnu. Fodd bynnag, mae troseddwyr camfanteisio'n rhywiol ar blant yn gweithredu mewn llawer o wahanol ffyrdd. Mae ymchwil yn awgrymu mai'r ddau brif gymhelliant i gamfanteisio'n rhywiol ar blant yw rhyw ac arian.[22]

55. Gall camfanteisio'n rhywiol ar blant gael ei gyflawni gan unigolion, grwpiau neu gangiau. Mae'r achosion yng Nghymru yn cynnwys troseddwyr unigol sydd wedi camfanteisio ar blant er mwyn eu boddhad rhywiol ei hunain ac er mwyn elw ariannol. Hefyd, mae'r heddlu wedi cynnal gweithrediadau sy'n ymwneud ag arestio troseddwyr cydgysylltiedig sy'n gweithredu mewn grwpiau. Mae tystiolaeth o gamfanteisio'n rhywiol ar blant sy'n ymwneud â gangiau mewn rhai ardaloedd o Gymru. Hefyd, mae tystiolaeth o faes ymarfer fod plant o Loegr sydd wedi bod yn destun camfanteisio gan gangiau yn cael eu lleoli yng Nghymru. Mae tystiolaeth hefyd fod unigolion sy'n gysylltiedig â gangiau yn Lloegr drwy rwydweithiau llinellau cyffuriau yn camfanteisio ar blant yng Nghymru.

- Grwpiau – pobl sy'n dod at ei gilydd yn bersonol neu ar-lein at ddibenion trefnu, cydlynu a/neu gymryd rhan mewn gweithgareddau camfanteisio'n rhywiol ar blant naill ai mewn ffordd a drefnir neu mewn ffordd fanteisgar.
- Gangiau – dynion a bechgyn yn bennaf sy'n cymryd rhan mewn llawer o ffurfiau o weithgareddau troseddol (e.e. troseddau cyllyll neu ladrata) a all gyflawni trais yn erbyn gangiau eraill ac sydd â marciau y gellir eu hadnabod trwyddynt – er enghraifft, tiriogaeth, enw neu weithiau ddillad.[23]

56. Mae cam-drin a chamfanteisio gan gyfoedion yn digwydd pan fydd plant yn camddefnyddio ac yn manteisio ar blant eraill. Gall hyn gynnwys ymddygiad rhywiol niweidiol. Gall plant sy'n ymwneud â cham-drin drwy gamfanteisio rhywiol fod wedi dioddef camdriniaeth eu hunain.

57. Wrth i bobl ifanc dyfu a threulio mwy a mwy o amser gyda'u ffrindiau, yn yr ysgol ac yn eu cymdogaeth leol, bydd yr hyn sy'n digwydd yn yr amgylcheddau hyn yn cael ei adlewyrchu yn natur y gamdriniaeth y maent yn ei hwynebu.[24] Mae ymchwil wedi cyfrannu at y cysyniad o ddiogelu cyd-destunol, sy'n cydnabod y gall y perthnasoedd gwahanol y

mae pobl ifanc yn eu ffurfio yn eu cymdogaethau, eu hysgolion a mannau ar-lein gynnwys trais a cham-drin. Ychydig iawn o ddylanwad sydd gan rieni a gofalwyr dros y cyd-destunau hyn, a gall profiadau pobl ifanc o gam-drin y tu allan i'r teulu danseilio perthnasoedd rhwng rhieni a phlant.[25]

58. Dylai plant plant sy'n camfanteisio'n rhywiol ar blant eraill gael eu hystyried yn blant yn gyntaf - yn blant sydd ag anghenion gofal a chymorth - a dylent dderbyn cymorth ar gyfer ymddygiad rhywiol niweidiol fel y'i nodir yn Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan - diogelu plant lle mae pryderon am ymddygiad rhywiol niweidiol.[26]

59. Gall camfanteisio'n rhywiol ar blant ddigwydd mewn teuluoedd ac mae hynny'n digwydd. Nid yw'r ffaith fod mwyafrif yr achosion o gamfanteisio rhywiol yn digwydd y tu hwnt i'r teulu yn golygu na all hynny ddigwydd o fewn y teulu neu na all gael ei hwyluso gan aelod o'r teulu. Mae achosion yng Nghymru o rieni'n elwa'n ariannol ar gamfanteisio ar eu plant, y maent wedi'u cynnig i eraill am ryw yn gyfnewid am arian. Yr elfen sy'n gwneud hyn yn wahanol i ffurfiau eraill o gam-drin plant yn rhywiol o fewn teuluoedd (a allai fod yn digwydd ar yr un pryd) yw bod hyn yn cynnwys cyfnewid arian neu nwyddau, a bod aelod o'r teulu'n elwa o'r gamdriniaeth yn erbyn y plentyn.

60. Mae achosion uchel eu proffil o gamfanteisio'n rhywiol ar blant sy'n cynnwys grwpiau wedi'u trefnu o ddynion o dras Asiaidd wedi arwain at ganfyddiad fod camfanteisio'n rhywiol ar blant yn golygu troseddwyr Asiaidd a dioddefwyr gwyn. Fodd bynnag, mae tystiolaeth glir y gall troseddwyr camfanteisio'n rhywiol ar blant ddod o amrywiaeth eang o gefndiroedd ethnig.[27]

61. Dengys ymchwil mai dynion[28] yw mwyafrif y troseddwyr camfanteisio'n rhywiol ar blant; fodd bynnag nid hwy sy'n cyflawni'r holl achosion – gall menywod gamfanteisio'n rhywiol ar blant ac mae hynny'n digwydd. Nododd papur gan y Swyddfa Gartref a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020[29], yn edrych ar nodweddion troseddu yn ôl grwpiau, fod amrywiaeth cefndiroedd ethnig a chymdeithasol mewn troseddu a'i bod felly'n bwysig casglu data cywir ar nodweddion troseddwyr i lywio proffiliau problemau lleol.

Sut mae adnabod camfanteisio'n rhywiol ar blant?

62. Mae nifer o resymau pam mae'n arbennig o annhebygol na fydd plant sy'n wynebu camfanteisio rhywiol yn datgelu eu bod yn cael eu cam-drin.[30] Yn achos rhai plant, mae camfanteisio rhywiol yn rhywbeth y maent yn disgwyl iddo ddigwydd iddynt neu'n rhywbeth y maent yn meddwl eu bod yn ei haeddu. Hefyd, gallai plant ystyried y cyfnewid sy'n digwydd wrth gamfanteisio rhywiol yn ffordd o adennill rheolaeth dros eu cyrff a'u bywydau eu hunain, a'r opsiwn gorau iddynt yng nghyd-destun prinder dewisiadau a/neu gallant ei weld fel dull o ymdopi. Os na eir i'r afael â'r anghenion a'r problemau sylfaenol ac os na chânt eu diwallu

mewn ffyrdd eraill, mae'n annhebygol y bydd plant yn datgelu'r camfanteisio neu mae'n debygol y byddant yn tynnu eu datgeliad yn ôl.

63. Mae'n bosibl hefyd y bydd ar berson ifanc ofn datgelu'r camfanteisio neu geisio cymorth oherwydd gorfodaeth a rheolaeth a/neu'r goblygiadau posibl gan y rhai sy'n camfanteisio arno. Mae'n bosibl fod teulu a rhwydweithiau cyfeillgarwch pobl ifanc yn gysylltiedig â'r gweithgarwch camfanteisio, a gall y rhain gyfrannu at deimlad fod camfanteisio rhywiol yn rhywbeth 'normal' neu'n rhywbeth i'w ddisgwyl, yn ogystal â gweithio yn erbyn datgelu yn sgil ofn amharu ymhellach ar eu bywydau.

64. Dim ond ar ôl iddynt gael cymorth am gyfnod hir a magu ymddiriedaeth mewn gweithiwr y bydd llawer o blant yn datgelu'r camfanteisio. Os bydd plentyn yn datgelu, mae'n bwysig gwrando ar brofiad y plentyn ar ei delerau ei hun yn hytrach na chanolbwyntio ar gasglu gwybodaeth ffeithiol.[31] Canfu ymchwil yng Nghymru gyda phlant sydd wedi profi camfanteisio rhywiol eu bod yn aml yn teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu neu eu bod yn 'anweledig' fel unigolyn, ac os nad yw plentyn yn teimlo bod rhywun yn gwrando arno neu'n ei ddeall pan fydd yn datgelu, gallai hyn ei wneud yn fwy agored i niwed yn y dyfodol.[32]

65. Fodd bynnag, canfu ymchwil yng Nghymru[33] fod traean o'r plant yn sampl yr ymchwil wedi datgelu camdriniaeth trwy gamfanteisio rhywiol. Mae'n bwysig bod ymarferwyr yn gallu ymateb mewn ffordd briodol a chefnogol pan fydd plentyn yn datgelu camdriniaeth.[34]

66. Mae adnabod camfanteisio'n rhywiol ar blant yn dibynnu ar wybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr. Cyfeiriwyd at y Fframwaith Asesu'r Risg o Gamfanteisio Rhywiol (SERAF) yng nganllawiau Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2011 ac ym Mhrotocol Cymru Gyfan a gyhoeddwyd gyda Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan fel cyfrwng i helpu i adnabod y risg o gamfanteisio rhywiol.

67. Canfu tystiolaeth a gasglwyd drwy'r adolygiad o drefniadau o dan y polisi hwnnw[35] fod dibyniaeth ar y SERAF ac ddulliau asesu risg eraill wedi arwain at ddull rheoli risg a yrrir gan brosesau, nad yw'n sicrhau diogelwch tymor hwy a chanlyniadau llesiant i blant.

68. Mae'r Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol hefyd wedi cyhoeddi tystiolaeth nad yw gorddibyniaeth ar ddulliau asesu risg arbenigol bob amser yn cefnogi ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn, ac y gall amharu ar farn broffesiynol.[36]

69. Mae'r canllawiau hyn yn disodli canllawiau Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2011. Disodlwyd Protocol Cymru Gyfan gan Ganllaw Ymarfer Cymru Gyfan – diogelu plant rhag camfanteisio rhywiol[37],a gyhoeddwyd ar ran y Byrddau Diogelu gyda Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn 2019.

70. Nid yw'r canllawiau hyn yn gwahardd defnyddio adnoddau asesu risg mewn perthynas â chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Fodd bynnag, os caiff

y rhain eu defnyddio, dylai hynny fod yn unig er mwyn llywio asesiad ehangach o anghenion gofal a chymorth. Ni ddylai'r broses arwain at gyfarfodydd lle mae'r ffocws ar yr asesiad risg ac ar leihau'r sgôr risg heb ystyried cynllunio gofal a chymorth ehangach i gynnal newid a chefnogi llesiant mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

71. Cyfeirir at Holiadur Asesu Risg Camfanteisio ar Blant (CSERQ) iechyd y GIG yn y canllawiau hyn ar y sail bod amser cyswllt cyfyngedig mewn apwyntiadau iechyd yn golygu bod angen cymorth i wneud penderfyniad ynghylch hysbysu bod plentyn mewn perygl, yn hytrach nag offeryn trothwy wrth wneud penderfyniadau diogelu amlasiantaethol am blant unigol.

72. Mae nodiadau cymorth i ymarferwyr wedi'u cynnwys isod ac maent wedi'u cynnwys hefyd yng Nghanllaw Ymarfer Cymru Gyfan - diogelu plant rhag camfanteisio rhywiol.[38] Mae'r nodiadau'n cynnwys gwybodaeth am arwyddion corfforol, emosiynol, materol ac ymddygiadol camfanteisio'n rhywiol ar blant.

1. Rhaid i bartneriaid diogelu perthnasol (o dan adran 139(3) o Ddeddf 2014) sicrhau bod ymarferwyr yn ymwybodol o arwyddion corfforol, emosiynol, materol ac ymddygiadol camfanteisio'n rhywiol ar blant.

2. Rhaid i bartneriaid diogelu perthnasol (o dan adran 139(3) o Ddeddf 2014) sicrhau bod ymarferwyr yn gallu cael gafael ar wybodaeth am ymateb i ddatgeliadau gan blant ynglŷn a chamdriniaeth mewn ffordd ddiogel a phriodol.

3. Dylai'r holl wasanaethau sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd sicrhau bod ymarferwyr yn ymwybodol o arwyddion corfforol, emosiynol, materol ac ymddygiadol camfanteisio'n rhywiol ar blant a dylent allu cael gwybodaeth am ymateb i ddatgeliadau gan blant ynglŷn a chamdriniaeth mewn ffordd ddiogel a phriodol.

Adnabod camfanteisio'n rhywiol ar blant a rhoi gwybod amdano

Cymorth i ymarferwyr

Mae'r anogwr hwn yn darparu gwybodaeth i helpu i nodi camfanteisio'n rhywiol ar blant yn gyson. Wrth ystyried risg camfanteisio'n rhywiol ar blant, mae'n hollbwysig gweithredu dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n ystyried anghenion cyfannol y plentyn. Dylai rheoli risg fod yn un elfen yn unig i'r ymateb i anghenion gofal a chymorth plant pan fydd camfanteisio'n rhywiol ar blant yn bryder.

Dylai pawb sy'n gweithio gyda phlant fod yn wyliadwrus am yr arwyddion fod rhywun yn camfanteisio'n rhywiol ar blentyn a deall eu dyletswydd i adrodd am blentyn sy'n wynebu risg. Siaradwch â'ch rheolwr neu arweinydd diogelu am unrhyw bryderon sydd gennych a gwnewch atgyfeiriad amddiffyn plant i wasanaethau cymdeithasol eich awdurdod lleol. Os ydych yn amau bod plentyn yn wynebu risg neu niwed enbyd, dylech ffonio'r heddlu ar 999.

Arwyddion corfforol: Cleisiau, anafiadau diesboniad, clefydau wedi'u trosglwyddo'n rhywiol.

Arwyddion emosiynol: tawedog, newidiadau eithafol i hwyliau, dicter, hunan-niweidio, hunanladdol, wedi ymddieithrio.

Arwyddion materol: ffôn symudol/offer technolegol, dillad/esgidiau, o dan ddylanwad alcohol a chyffuriau'n aml, ag arian, **pan** nad oes esboniad rhesymol dros sut maent wedi cael neu dalu am y pethau hyn.

Arwyddion ymddygiadol: cyfrinachgar, mynd ar goll am gyfnodau, mynd i mewn i neu adael ceir a yrrir gan oedolion anhysbys, wedi'i ddisgrifio'n allan o reolaeth neu fod ganddynt ymddygiad mentrus gan eu teulu, eu gofalwyr neu'u hymarferwyr, pryderon am y ffordd y mae'r plentyn yn defnyddio ei ffôn symudol neu'r rhyngrwyd.

Mae dyletswydd statudol ar bartneriaid perthnasol i roi gwybod am blant sy'n wynebu risg o dan adran 130 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae hyn yn golygu gwneud atgyfeiriad at y gwasanaethau cymdeithasol pan fydd gennych bryderon fod plentyn yn wynebu risg. Dylech sicrhau eich bod yn deall y broses ar gyfer gwneud atgyfeiriad i'r gwasanaethau cymdeithasol a pha wybodaeth y bydd ei hangen arnynt – siaradwch â'ch rheolwr.

Os ydych yn gweithio ym maes iechyd a bod eich cysylltiad â'r plentyn yn gyfyngedig neu mai gwybodaeth gyfyngedig sydd gennych amdano, cewch ddefnyddio'r holiadur risg camfanteisio'n rhywiol ar blant i lywio eich penderfyniad ynglŷn â gwneud atgyfeiriad amddiffyn plant. http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/93471

Ffurf o gam-drin plant yn rhywiol yw camfanteisio'n rhywiol ar blant ac mae'n cynnwys elfen o gyfnewid rhwng y plentyn sy'n cael ei gam-drin â'r unigolyn sy'n cam-drin.

Mae'n annhebygol y bydd plant (hynny yw, unrhyw un hyd at 18 mlwydd oed) sy'n cael eu cam-drin yn y modd hwn yn dweud wrth neb am yr hyn sy'n digwydd iddynt. Mae'r rhesymau am hyn yn gymhleth ac mae'n bosibl eu bod yn ofni'r hyn fydd yn digwydd os byddant yn ei ddatgelu; nad ydynt yn cydnabod eu bod yn cael eu cam-drin; eu bod yn ofni na fydd neb yn eu credu neu y byddant yn cael eu beirniadu; neu eu bod yn teimlo eu bod rywsut yn rheoli'r hyn sy'n digwydd iddynt.

Yn yr un modd â phob math o gam-drin plant, gall camfanteisio rhywiol ddigwydd i unrhyw blentyn. Fodd bynnag, gwyddom y gall rhai plant fod yn arbennig o agored i niwed. Mae hyn yn cynnwys plant sydd wedi cael profiad o ansefydlogrwydd yn y cartref neu mewn gofal, plant sydd wedi cael profiad o gam-drin yn gynharach yn ystod eu plentyndod, plant â hunan-barch isel, a phlant sy'n cael problemau o ran addysg, iechyd meddwl, camddefnyddio alcohol/cyffuriau neu ymddygiad troseddol. Mae tystiolaeth y gallai plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu anawsterau gweithredu fod yn arbennig o agored i niwed. Mae bechgyn a dynion ifanc yn ogystal â merched a menywod ifanc yn destun camfanteisio rhywiol. Mae tystiolaeth fod rhwystrau ychwanegol yn atal datgelu ac adnabod ymysg rhai grwpiau o blant, gan gynnwys plant Du ac Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig, plant anabl a phlant LHDT+.

Bydd y ffordd y bydd plant yn deall camfanteisio yn amrywio o blentyn i blentyn. Gall plant fethu â chydnabod bod eu profiadau yn rhai camfanteisiol. Fodd bynnag, mae llawer o blant yn deall eu bod yn dioddef camfanteisio ond gallant ddal i gael anhawster datgelu neu geisio cymorth oherwydd stigma neu am fod y peth maent yn ei dderbyn yn gyfnewid am y cam-drin yn bwysig iddynt. Gall rhai plant ddeall eu bod yn dioddef camfanteisio ond parhau i feddwl mai'r camfanteisio yw'r opsiwn gorau sydd ar gael iddynt yng nghyd-destun dewisiadau cyfyngedig. Mae'n bosibl y bydd rhai plant yn derbyn camdriniaeth fel rhan arferol o fywyd neu'n teimlo eu bod yn ei haeddu oherwydd eu profiadau blaenorol o gamdriniaeth neu eu teimladau o fod yn ddiwerth.

Yn yr un modd ag unrhyw ffurf ar gam-drin plant, mae'n hanfodol fod ymarferwyr yn gweithredu ar eu pryderon. Gwyddom y gallai pobl wahanol sy'n rhan o fywyd plentyn fod â gwybodaeth neu bryderon gwahanol a allai ymddangos yn destun pryder ar eu pen eu hunain ond nad ydynt yn arwain at ymchwiliad pellach. Ond, wrth roi'r rhain at ei gilydd, gall y dystiolaeth hon ddangos fod gan y plentyn anghenion gofal a chymorth.

Dylid diwallu unrhyw anghenion gofal a chymorth sydd gan blant y nodir eu bod yn wynebu risg o gamfanteisio rhywiol, er mwyn atal camdriniaeth. Gan amlaf (er nad bob tro), mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn digwydd y tu hwnt i'r teulu. Mae hyn yn darparu cyfle i weithio gyda rhieni/gofalwyr a theuluoedd i gadw'r plentyn yn ddiogel ac i ddiwallu ei anghenion gofal a chymorth mewn modd a fydd yn lleihau'r risg o gamfanteisio rhywiol. Fodd bynnag, dylai ymarferwyr hefyd fod yn effro i unrhyw broblemau diogelu neu ofal a chymorth yn y teulu.

Pennod 2

Atal Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

73. Mae gan ymwybyddiaeth a hyfforddiant cyhoeddus a phroffesiynol, addysg, a gwasanaethau ataliol sy'n hybu llesiant oll ran i'w chwarae i leihau nifer y plant sy'n dioddef camfanteisio rhywiol.

74. Mae atal yn golygu mwy nag ymyrryd yn gynnar. Mae codi ymwybyddiaeth gyffredinol ac ymyrraeth gynnar yn bwysig i atal camfanteisio'n rhywiol ar blant. Fodd bynnag, mae angen gwaith atal wedi'i dargedu hefyd ar gyfer plant sydd â bregusrwydd a nodwyd yn gysylltiedig â chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae gwaith atal hefyd yn elfen bwysig o waith i gynorthwyo plant sydd wedi bod yn destun camfanteisio, i atal y gamdriniaeth rhag digwydd eto yn y dyfodol.

75. Fodd bynnag, gwyddom mai atal cam-drin rhag digwydd yw'r ffordd orau o warchod plant rhag niwed.

76. Adlewyrchir pwysigrwydd ymyrraeth gynnar ac atal i gefnogi llesiant, meithrin gwydnwch ac atal niwed yn neddfwriaeth allweddol Llywodraeth Cymru, megis Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

77. Nod Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yw gwella ymateb y sector cyhoeddus i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, er mwyn atal trais a chamdriniaeth ac er mwyn diogelu a chynorthwyo dioddefwyr a goroeswyr.

78. Mae cynllun gweithredu cenedlaethol Llywodraeth Cymru *Cynllun Gweithredu Cenedlaethol - Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol 2019-2021*[39] yn nodi camau ar gyfer partneriaid byrddau diogelu ledled Cymru o ran hyrwyddo'r gwaith o atal pob ffurf ar gam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant ac ymddygiad rhywiol niweidiol. Bydd Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Diogelu Plant yn adrodd bob blwyddyn ar gynnydd y gwaith o weithredu'r cynllun gweithredu cenedlaethol.

79. Cyhoeddwyd y *Cynllun Gweithredu Diogelwch Ar-lein ar gyfer Pobl Ifanc yng Nghymru*[40] ym mis Gorffennaf 2018 ac mae'n nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag athrawon, rhieni a gofalwyr, dysgwyr a phartneriaid priodol ledled Cymru i gadw ein plant a'n pobl ifanc yn ddiogel ar-lein. Mae'r cynllun yn darparu canolbwynt i waith Llywodraeth Cymru ar ddiogelwch ar-lein ac fe'i hadolygir bob blwyddyn i ddiweddaru'r camau gweithredu.

80. Mae ymchwil i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod[41] yn dangos bod y profiadau a gawn yn ystod plentyndod, boed yn dda neu'n wael, yn cyfrannu at bennu canlyniadau ein bywyd. Darparu amgylchedd diogel a

gofalgar yw'r ffordd orau o sicrhau y gall plentyn fynd ati i gyflawni ei botensial. Mae'r rhai sy'n cael plentyndod niweidiol o ansawdd gwael yn fwy tebygol o gael canlyniadau gwael yn eu bywyd. Mae ymchwil yn awgrymu bod lefelau uwch o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ymysg pobl ifanc y camfanteisiwyd arnynt yn rhywiol.[42]

81. Mae tystiolaeth fod plant y camfanteisir yn rhywiol arnynt yn cael profiadau anghymesur o uchel o drawma yn gynharach yn ystod plentyndod.[43] Hefyd, caiff problemau amddiffyn plant, megis cam-drin rhywiol, cam-drin corfforol, cam-drin emosiynol ac esgeuluso eu cofnodi ar lefelau uwch ymysg plant y camfanteisir arnynt yn rhywiol.[44]

82. Sefydlwyd ers tro bod trawma yn risg ar gyfer achosi camfanteisio'n rhywiol ar blant.[45] Gallai gwasanaethau ataliol sy'n helpu plant i ddatblygu gwydnwch a hunan-hyder ac i adfer ar ôl trawma leihau'r risg o gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

83. Mae gwaith ymchwil diweddar[46] yn awgrymu bod hanes blaenorol o gam-drin a hanes teuluol o drais domestig yn gyffredin iawn ymysg plant a oedd yn derbyn cymorth yn sgil camfanteisio rhywiol neu ymddygiad rhywiol niweidiol. Mae'r ymchwil yn tynnu sylw at bwysigrwydd cymorth cynnar ar gyfer anghenion plant sydd wedi cael profiad o drawma ar ffurf cam-drin corfforol, rhywiol neu emosiynol ac sydd wedi gweld cam-drin domestig yn digwydd. Mae'r ymchwil yn awgrymu bod cysylltiad rhwng anghenion llesiant sydd heb gael sylw a cham-drin diweddarach drwy gamfanteisio rhywiol.

84. Fodd bynnag, nid yw pob plentyn sy'n profi trawma a chamdriniaeth yn ystod plentyndod yn wynebu camfanteisio rhywiol. Mae tystiolaeth am y berthynas rhwng profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a chanlyniadau iechyd meddwl isel a llesiant gwael yn awgrymu y gellir lliniaru risgiau'n sylweddol drwy sicrhau bod cymorth dibynadwy gan oedolion ar gael bob amser yn ystod plentyndod a bod agosrwydd at ofalwr addas ac ymatebol yn cyfrannu'n hollbwysig at ymdeimlad plentyn o ddiogelwch pan fydd yn yn wynebu sefyllfa drawmatig.[47]

85. Mae perthnasoedd o ansawdd uchel yn nodwedd bwysig o lwybr gwydn ar ôl camdriniaeth yn ystod plentyndod a gall profiad o berthynas gariadus, gyson a chadarnhaol gyfrannu at y broses o ddatblygu nodweddion amddiffynnol fel hunan-hyder, ymdeimlad o ddiogelwch, dyhead cadarnhaol, a sgiliau cymdeithasol ac emosiynol.[48]

Teuluoedd gwydn

86. Bydd gwydnwch plant mewn sefyllfa anodd yn well pan allant fanteisio ar o leiaf un rhiant gofalgar neu oedolyn cynorthwyol arall yn eu teulu estynedig, a gall cymorth ar gyfer gwydnwch teuluol, yn ei dro, hybu mecanweithiau amddiffynnol mewn plant.[49]

87. Er y gallai rhai teuluoedd fod yn fwy agored i niwed neu wynebu amgylchiadau mwy niweidiol nag eraill, mae'r ymagwedd gwydnwch teuluol yn awgrymu ei bod yn bosibl i deuluoedd gryfhau eu gwydnwch o ran goresgyn yr heriau hyn, hyd yn oed ar ôl trawma difrifol.[50]

88. Mae ymchwil a gynhaliwyd yng Nghymru[51] wedi ystyried plant sydd wedi bod yn destun ymwneud gan y gwasanaethau cymdeithasol, gan ganolbwyntio'n benodol ar blant yr ystyriwyd eu bod mewn perygl o brofi camfanteisio rhywiol. Canfu'r gwaith ymchwil fod perthnasoedd teuluol, yn gyffredinol, ar eu gwaethaf ymysg y grŵp o blant y nodwyd eu bod mewn perygl sylweddol o gamfanteisio rhywiol, bod y grŵp hwn yn fwy tebygol o gael perthynas ddiffygiol â'u rhieni, a bod cael eu gwrthod gan eu rhieni ar ei fwyaf cyffredin ymysg y plant hyn.

89. Felly, gallai gwasanaethau cymorth ataliol i deuluoedd ac ymyrraeth gynnar sy'n datblygu gwydnwch teuluol gyfrannu at ffactorau amddiffynnol rhag risg ddiweddarach o gamdriniaeth trwy broblemau megis camfanteisio'n rhywiol ar blant.

90. Bydd cymorth i deuluoedd a rhieni i feithrin gallu rhieni ac aelodau o'r teulu mewn amgylchiadau anffafriol yn cyfrannu at ganlyniadau cadarnhaol i blant, a allai, yn ei dro, helpu i'w gwarchod rhag y risg o gael eu cam-drin trwy gamfanteisio rhywiol yn ddiweddarach yn ystod eu plentyndod.

91. Wrth ystyried dulliau o hybu ffyrdd cadarnhaol o ryngweithio rhwng rhieni a phlant yn ystod y blynyddoedd cynnar, awgryma ymchwil[52] fod y dystiolaeth ar ei chryfaf ar gyfer rhaglenni sy'n targedu yn seiliedig ar arwyddion cynnar o risg, megis problemau ymddygiad plant, ymlyniad anniogel, oedi o ran datblygu lleferydd a diffyg sensitifrwydd mamol, er y canfuwyd bod mathau eraill o raglenni'n effeithiol hefyd.

92. Mae Dechrau'n Deg, rhaglen y bynyddoedd cynnar i deuluoedd â phlant yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru yn cynnwys gweithio gyda rhieni mewn ffyrdd sy'n eu helpu i ymwneud yn gadarnhaol â'u plentyn.[53]

93. Bwriad Teuluoedd yn Gyntaf yw gwella canlyniadau i blant a theuluoedd. Mae'n rhoi pwyslais ar ymyrryd yn gynnar, atal, a darparu cymorth i deuluoedd cyfan, yn hytrach nag i unigolion. Mae'r rhaglen yn hyrwyddo mwy o weithio amlasiantaethol i sicrhau bod teuluoedd yn cael cymorth cydgysylltiedig pan fydd ei angen arnynt. Bwriad y rhaglen yw darparu cymorth cynnar i deuluoedd gyda'r nod o atal problemau rhag gwaethygu.

94. Mae rhaglenni fel Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf yn hybu gwydnwch teuluoedd a llesiant plant. Mae gwasanaethau cymorth i deuluoedd a chymorth rhianta yn bwysig o ran amddiffyn plant rhag bod yn agored i risg a niwed.

95. Gall gwasanaethau, sy'n cefnogi teuluoedd lle ceir materion fel trawma, cam-drin plant yn rhywiol, ymddygiad rhywioledig ac amlygiad i gam-drin domestig helpu i amddiffyn plant rhag risg ddiweddarach o gael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol.

Lleoliadau sefydlog a diogel

96. Mae cysylltiad wedi'i sefydlu rhwng profiadau gwael o ofal a'r risg o gamfanteisio'n rhywiol ar blant.[54] I rai plant sy'n cael eu magu mewn gofal, gall ansefydlogrwydd a diffyg perthnasoedd o ansawdd arwain at ddirywiad pellach yn eu lleoliad, sydd, yn ei dro, yn atgyfnerthu teimladau o ddiymadferthedd ac unigrwydd i bobl ifanc.[55]

97. Canfu ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru[56] fod dros dri chwarter o'r holl garfan o blant a oedd yn rhan o astudiaeth ar raddfa fawr wedi profi lefel uchel o sefydlogrwydd yn eu lleoliad. Hefyd, canfu dadansoddiad manwl o is-sampl lai y cafodd 71% o'r plant hynny ganlyniadau cadarnhaol mewn perthynas ag amgylchedd eu cartref, cyfathrebu ac ymlyniadau, eu hiechyd corfforol ac absenoldeb troseddu.

98. Mae Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant yn canolbwyntio ar:

- nodi camau cynnar ac ataliol i helpu i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal
- gwella canlyniadau plant sydd eisoes yn derbyn gofal
- gwella canlyniadau unigolion sy'n gadael gofal

99. Mae'r rhaglen waith sy'n cael ei datblygu i gyflawni'r uchelgeisiau hyn yn cynnwys gwaith i gefnogi sefydlogrwydd a llesiant plant ar draws yr ystod o leoliadau sy'n darparu cartref i blant sy'n derbyn gofal. Bydd y gwaith hwn, yn ei dro, yn cyfrannu'n gadarnhaol at atal camfanteisio'n rhywiol ar blant, trwy roi cymorth i blant a'u teuluoedd i atal yr angen am ofal a thrwy fesurau i helpu i greu lleoliadau sefydlog a diogel i'r plant hynny sy'n dechrau derbyn gofal.

Addysg

100. Mae cam-drin plant yn rhywiol wedi cael ei gysylltu â lleihad cyffredin mewn ymwneud ag addysg a chyrhaeddiad yn yr ysgol ac mewn addysg uwch/bellach. Mewn rhai achosion unigol, fodd bynnag, fe'i cysylltwyd hefyd â gwell cyrhaeddiad. Yn yr achosion hyn, mae'n ymddangos bod

ymwneud ag addysg yn gweithredu fel strategaeth ymdopi â'r gamdriniaeth.[57]

101. Yn aml, mae profiadau addysgol plant y camfanteisir arnynt yn rhywiol yn adlewyrchu patrwm o driwantiaeth, adroddiadau amdanynt yn mynd ar goll o'r ysgol, yn cael eu gwahardd dros dro neu'n barhaol o'r ysgol, a chanlyniadau addysgol gwael.[58]

102. Mae'r Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol[59] yn awgrymu y gall plant sydd allan o'r ysgol/addysg ddod i deimlo'n gyflym eu bod y tu hwnt i'r brif ffrwd gymdeithasol ac felly maent yn fwy tebygol o gael eu targedu gan oedolion a chyfoedion sy'n camfanteisio arnynt. Ar y llaw arall, mae bod yn gysylltiedig â chymuned addysg sefydlog yn ataliol, gan ei fod yn galluogi ymdeimlad o berthyn a sefydlogrwydd ac yn cryfhau hunanhyder.

103. Mae darparu amgylchedd addysgol lle mae ymagwedd 'ysgol gyfan' i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhywedd, cydsyniad rhywiol, a pherthnasoedd wedi'u seilio ar barch yn hanfodol i atal trais a cham-drin, gan gynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae'r cwricwlwm, polisïau ysgol, cymorth bugeiliol ac ethos yr ysgol i gyd yn cyfrannu at amgylcheddau sy'n galluogi neu sy'n herio arferion camfanteisiol a'r agweddau sy'n eu caniatáu.[60]

104. Gall rhoi cymorth i blant sydd mewn perygl o gamfanteisio rhywiol neu sy'n dioddef ohono ailymwneud ag addysg hefyd weithredu fel ffactor amddiffynnol i helpu i atal y tebygolrwydd o wynebu camdriniaeth eto.

105. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar Sefydlu dull ysgol-gyfan o ymdrin ag iechyd a lles meddyliol[61]. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Medi 2020 a chyhoeddir y canlyniad maes o law. Mae gan ysgolion rôl bwysig i helpu plant i fod yn emosiynol wydn ac yn feddyliol iach. Mae hyn yn golygu y bydd ethos yr ysgol yn cynorthwyo iechyd meddwl a llesiant ehangach dysgwyr, a fydd, yn ei dro, yn helpu i atal problemau eraill rhag datblygu neu waethygu, gan gynnwys problemau iechyd meddwl.

106. Mae ymchwil[62] yn awgrymu y gallai ysgolion wella presenoldeb trwy fabwysiadu dulliau sy'n mynd i'r afael â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a'u canlyniadau. Mae rhai ysgolion sy'n gweithio gydag asiantaethau iechyd y cyhoedd wedi mabwysiadu dulliau sy'n seiliedig ar brofiadau niweidiol mewn plentyndod. Mae hyn wedi gwella presenoldeb, wedi lleihau nifer yr achosion o wahardd plant, ac wedi gwella cyrhaeddiad addysgol. Bydd ysgolion sy'n mabwysiadau arferion sy'n wybodus o ran trawma yn galluogi staff ysgolion i newid sut y maent yn ymateb i blant sydd wedi cael eu heffeithio yn sgil cysylltiad â digwyddiadau trawmatig.

107. Atal yw un o'r prif ddibenion a amlinellir yn Neddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Mae hyn

yn cynnwys amcan allweddol i hybu gwell ymwybyddiaeth ymysg plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach a bod ymddygiad camdriniol yn anghywir bob amser.[63]

108. Bydd plant sy'n cymdeithasu mewn ysgolion (a lleoliadau cymunedol) diogel ac amddiffynnol, yn cael cymorth i ffurfio perthnasoedd diogel ac amddiffynnol gyda chyfoedion. Fodd bynnag, os byddant yn gwneud ffrindiau mewn cyd-destunau a nodweddir gan drais a/neu agweddau niweidiol, gallai'r perthnasoedd hyn hefyd fod yn wrthgymdeithasol ac yn anniogel, neu gallent hyrwyddo ffyrdd problemus o ymddwyn yn y sefyllfaoedd hynny.[64]

109. Argymhellodd y Panel Arbenigwyr Addysg Rhyw a Pherthnasoedd[65] mai dull gweithredu ysgol gyfan yw'r un elfen bwysicaf ar gyfer Addysg Rhyw a Pherthnasoedd effeithiol o ansawdd uchel. Dywedwyd bod dull gweithredu ysgol gyfan ar gyfer Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn atgyfnerthu negeseuon allweddol ym mhob rhan o'r cwricwlwm ac mewn rhannau gwahanol o'r ysgol a'r gymuned. Caiff dull gweithredu ysgol gyfan ei gefnogi gan asiantaethau allanol a bydd yn fwy tebygol o arwain at newid agweddau ac ymddygiad.

110. Gallai dealltwriaeth gynnar o berthnasoedd iach helpu plant i adnabod perthnasoedd nad ydynt yn iach, a gallai hynny yn ei dro helpu i'w hatal rhag cael eu paratoi a'u cam-drin yn ddiweddarach. Pan fydd cwricwlwm newydd Cymru ar waith yn 2022, bydd Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb yn statudol rhwng 5 ac 16 oed, ond ni fydd dysgwyr yn cael eu haddysgu am destunau nad ydynt yn ddatblygiadol barod amdanynt. Mae'r penderfyniad i newid canolbwynt y maes astudio hwn i berthnasoedd a rhywioldeb, yn ogystal â'r penderfyniad i'w wneud yn statudol, yn adlewyrchu ei bwysigrwydd sylweddol mewn perthynas â sut mae dysgwyr yn deall eu hunain, ei gilydd, eu cymuned a'u cymdeithas. Rhaid cydnabod y newidiadau hyn gyda'r hyfforddiant a'r cymorth cywir i athrawon, a bydd newidiadau i'r hyfforddiant mewn addysg gychwynnol i athrawon ac o fewn y gweithlu presennol.[66]

111. Mae ysgolion a lleoliadau addysgol eraill yn chwarae rôl hanfodol o ran amddiffyn plant rhag camdriniaeth. Cânt gysylltiad rheolaidd â phlant a phobl ifanc, felly maent mewn sefyllfa dda i nodi arwyddion o gam-drin ac esgeulustod. Mae hyn yn golygu y gall lleoliadau addysg gyfrannu at atal camfanteisio'n rhywiol ar blant mewn dwy ffordd. Y ffordd gyntaf yw'r rôl y gall ysgolion ei chwarae o ran nodi plant y gallai fod angen rhywfaint o ymyrraeth gynnar arnynt i leihau'r risgiau o gamdriniaeth, neu blant sy'n wynebu risg, fel y gellir cymryd camau i leihau esgeulustod neu gamdriniaeth. Yr ail ffordd yw nodi'n gynnar y plant a allai fod yn agored i gamfanteisio rhywiol neu sydd eisoes yn dioddef camfanteisio rhywiol.

112. Mae canllawiau 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel'[67] Llywodraeth Cymru yn nodi rôl ddiogelu awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchenogion ysgolion annibynnol. Mae pawb yn y system addysg yn rhannu amcan o helpu i gadw plant yn ddiogel trwy gyfrannu at y canlynol:

- creu a chynnal amgylchedd dysgu diogel i blant a phobl ifanc;

- nodi lle mae pryderon o ran lles plant a chymryd camau i fynd i'r afael â hwy, pan fo hynny'n briodol, mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill;
- drwy ddatblygu dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a gwydnwch plant drwy'r cwricwlwm.

113. Mae'r Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol[68] yn awgrymu bod ysgolion mewn sefyllfa ddelfrydol i ddarparu gwybodaeth i fyfyrwyr am gamfanteisio'n rhywiol ar blant ac mae nifer o adnoddau yn bodoli iddynt eu defnyddio i wneud hynny. Dylai cyfleoedd i ddysgu am gamfanteisio rhywiol fod ar gael ar ffurfiau sy'n addas i'r oedran mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Gall trafodaethau y tu mewn i'r dosbarth a'r tu hwnt iddo helpu plant i gydnabod ymddygiadau a allai fod yn gamdriniol, nodi oedolion y gellir ymddiried ynddynt y gallant siarad â nhw, a chynnig gwybodaeth am wasanaethau cymorth.

114. Mae gan blatfform Hwb[69] Llywodraeth Cymru gasgliad cenedlaethol o declynnau ac adnoddau digidol i gynorthwyo ymarferwyr addysg yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys adnoddau i gynorthwyo arferion diogelu ac adnoddau dosbarth i ddarparu gwybodaeth i blant am broblemau diogelu, gan gynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant.

115. Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Fframwaith Gweithredu ar gyfer Darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol, sy'n cyflwyno rhaglen welliant ar draws y math hon o ddarpariaeth.[70]

116. Dylai pob lleoliad addysg, gan gynnwys lleoliadau addysg amgen, megis unedau cyfeirio disgyblion, ei chymryd yn ganiataol fod camfanteisio'n rhywiol ar blant yn broblem y mae angen mynd i'r afael â hi.[71]

117. Mae'r cyfrifoldebau statudol ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant yn berthnasol i bob plentyn o dan 18 oed, gan gynnwys y rhai 16 a 17 oed sy'n mynychu sefydliadau addysg bellach. Cyrff awtonomaidd yw sefydliadau addysg bellach, ond mae Byrddau Diogelu Plant yn ceisio ymgysylltu â phob asiantaeth a sefydliad sy'n gweithio gyda phlant hyd at 18 oed i gynnal arferion diogelu da a dylai sefydliadau addysg bellach geisio cael gafael ar wybodaeth a hyfforddiant i'w cynorthwyo i nodi plant sydd mewn perygl o gamfanteisio rhywiol ac ymateb iddynt.

Gwasanaethau Iechyd

118. Mae gwasanaethau iechyd cyffredinol, megis y rhaglen Plant Iach Cymru a'r gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion, yn hybu datblygiad a llesiant plant. Mae ymarferwyr iechyd sy'n darparu cymorth iechyd rheolaidd i blant yn ogystal ag ymarferwyr cyffredinol mewn sefyllfa dda i nodi arwyddion cynnar o drawma, llesiant emosiynol gwael a phroblemau diogelu, megis camdriniaeth ac esgeulustod.

119. Mae angen i blant sydd wedi profi camdriniaeth allu manteisio ar ddulliau therapiwtig sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn eu helpu i ymdopi ag

effeithiau camdriniaeth.[72] Mae gwerthusiad o raglen 'Letting the Future in'[73] yr NSPCC yn awgrymu bod cymorth therapiwtig i blant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn cael effaith gadarnhaol ac y gall gweithwyr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol sy'n cael hyfforddiant ychwanegol ddarparu gwaith therapiwtig yn llwyddiannus.

120. Mae angen cymorth therapiwtig mewn modd amserol ar blant sy'n cael eu hamlygu i esgeulustod, camdriniaeth a/neu gam-drin domestig, er mwyn i'r profiadau hyn beidio ag effeithio'n negyddol ar y ffordd y byddant yn negodi perthnasoedd wrth iddynt dyfu'n hyn, a pheidio ag effeithio ar eu llesiant mewn modd a allai eu rhoi mewn mwy o berygl o gamfanteisio rhywiol wrth iddynt fynd yn hŷn.

121. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i weithredu Menter Gwella Ansawdd Straen Trawmatig Cymru Gyfan (Straen Trawmatig Cymru) sy'n defnyddio dull gweithredu cyson, ac sy'n cael ei llywio gan y sylfaen dystiolaeth bresennol. Nid 'gwasanaeth' yw hwn yn bennaf i atgyfeirio achosion ato, ond rhaglen wella a fydd yn cynnig adnoddau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ymarferwyr sy'n delio ag unigolion sydd wedi profi trawma. Mae ffrydiau gwaith arbenigol ar waith ar gyfer grwpiau allweddol:

- plant a phobl ifanc,
- amenedigol,
- carcharorion,
- ffoaduriaid, ceiswyr lloches a phobl eraill sy'n chwilio am noddfa,
- goroeswyr ymosodiadau rhywiol a thrais sy'n seiliedig ar rywedd.

122. Datblygwyd a chyhoeddwyd pecyn hyfforddi sefydlogrwydd emosiynol ar draws sectorau, sydd wedi'i anelu at staff sy'n gweithio ym maes gofal sylfaenol, gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector ac mae tîm gweithredu Straen Trawmatig Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu rhaglen hyfforddi ategol.

123. Mae'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol[74] yn cynnwys camau sy'n gysylltiedig â gwasanaeth Menter Gwella Ansawdd y Gwasanaeth Straen Trawma (Straen Trawmatig Cymru) a darparu cymorth therapiwtig i blant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol.

Gwasanaethau iechyd rhywiol

124. Mae gwasanaethau iechyd rhywiol mewn sefyllfa dda i gynnig cymorth, cwnsela a gwybodaeth i alluogi plant i ddeall perthnasoedd iach a risgiau, ac i ddatblygu strategaethau i gadw'n ddiogel.

125. Mae gwasanaethau iechyd rhywiol yng Nghymru hefyd yn defnyddio'r holiadur risg ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant (CSERQ)[75], a ddatblygwyd yng Nghyfarwyddiaeth Iechyd Atgenhedlol a Rhywiol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae hwn yn darparu ar gyfer nodi'n gynnar a yw rhywun yn agored i niwed neu'n wynebu risg o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yng nghyd-destun cyswllt cyfyngedig yn

ystod apwyntiadau iechyd. Mae'r CSERQ yn llywio penderfyniadau ynghylch rhoi gwybod i'r Gwasanaethau Cymdeithasol fod plentyn yn un sy'n wynebu risg o gamfanteiso rhywiol.

Camddefnyddio sylweddau

126. Mae cysylltiad rhwng camddefnyddio alcohol a sylweddau, hanes o gam-drin rhywiol a risg o gamfanteisio'n rhywiol ar blant.[76] Canfu tystiolaeth a ystyriwyd fel rhan o ymchwiliad Coffey i gamfanteisio'n rhywiol ar blant ym Manceinion Fwyaf fod un o bob deg o bobl ifanc o dan 18 oed oedd yn cael eu trin am broblemau cyffuriau ac alcohol mewn tair bwrdeistref allweddol – Rochdale, Oldham a Stockport – wedi datgelu eu bod wedi bod yn destun camfanteisio rhywiol.[77]

127. Gallai camddefnyddio sylweddau ac alcohol roi plant mewn sefyllfaoedd o risg lle maent yn anniogel; gallai troseddwyr eu defnyddio fel cyfrwng i baratoi plant a'u cam-drin a gallent fod yn rhan o'r berthynas o gyfnewid a rheolaeth sy'n bresennol mewn achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae darparu'r amrywiaeth o wasanaethau addysg, atal a thrin i blant a phobl ifanc sy'n camddefnyddio alcohol a sylweddau yn rhan allweddol o'r gwaith o ddiogelu plant a hyrwyddo eu hiechyd a'u llesiant.

128. Ni ddylid ystyried diogelu plant yn weithgaredd ar wahân i hyrwyddo eu llesiant a dylid ei roi yn yr un cyd-destun o wasanaethau ehangach i blant sydd ag anghenion gofal a chymorth, felly mae'n hollbwysig fod gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn parhau i gydweithio'n dda â Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd addysgu plant am alcohol a chyffuriau a darparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau hygyrch o ansawdd da i blant sy'n defnyddio alcohol a chyffuriau'n cyfrannu at y gwaith o atal camfanteisio'n rhywiol ar blant ac o nodi plant sy'n wynebu risg o gamfanteisio rhywiol neu sydd eisoes yn destun camfanteisio o'r fath.

Diogelu Cyd-destunol a Diogelu Corfforaethol

129. Er mwyn deall o dan ba amgylchiadau y gallai plant ddod yn agored i gael eu cam-drin drwy gamfanteisio mae'n ddefnyddiol ystyried eu sefyllfa yng nghyd-destun ffactorau unigol y plentyn - cartref, cyfoedion, ysgolion a chymdogaeth.

130. Mae ymchwil wedi cyfrannu at y cysyniad o ddiogelu cyd-destunol, sy'n cydnabod y gall y y perthnasoedd gwahanol y mae pobl ifanc yn eu ffurfio yn eu cymdogaethau, yn eu hysgolion ac ar-lein gynnwys trais a cham-drin. Ychydig iawn o ddylanwad sydd gan rieni a gofalwyr dros y cyd-destunau hyn, a gall profiadau pobl ifanc o gam-drin y tu allan i'r teulu danseilio'r berthynas rhwng rhieni a phlant.[78]

131. Mae ymchwil ar ddull gweithredu peilot ar gyfer diogelu mewn mannau cyhoeddus yn awgrymu bod angen inni gynnwys mannau cyhoeddus yn y

fframwaith diogelu er mwyn cymryd camau priodol i amddiffyn plant. Mae angen ymyriadau, ynghyd â chymorth, yn y lleoedd lle mae plant yn cymdeithasu ac yn treulio amser, megis canolfannau siopa a hybiau trafnidiaeth.[79]

132. Gwyddom fod y rhai sy'n camfanteisio'n rhywiol ar blant[80] yn defnyddio mannau sy'n gwerthu prydau cyflym, cwmnïau tacsi ac ystafelloedd mewn gwestai i hwyluso a chynnal cam-drin. Mae ymchwil[81] yn awgrymu bod angen darparu gwybodaeth a chanllawiau sy'n codi ymwybyddiaeth ac sy'n benodol i'r diwydiant ar gyfer gweithwyr yr economi gyda'r nos ar yr arwyddion rhybuddio o gamfanteisio'n rhywiol ar blant ac ar yr hyn i'w wneud 'os na fydd rhywbeth yn taro deuddeg'. Mae'r ymchwil yn argymell y dylai ymdrechion codi ymwybyddiaeth gael eu targedu at weithwyr yr economi gyda'r nos, a allai fod â chysylltiad agos neu reolaidd â phlant sydd mewn perygl o gamfanteisio rhywiol ond nad ydynt, o bosibl, yn ystyried bod mynd i'r afael â hyn yn rhan o'u rôl ar hyn o bryd.

133. Mae gan fusnesau fel busnesau manwerthu, siopau bwyd, cyfleusterau hamdden, darparwyr trafnidiaeth a'r rhai sy'n gweithredu yn economi'r nos rôl bwysig i'w chwarae o ran nodi a rhannu gwybodaeth am bryderon diogelu.[82] Dylai Byrddau Diogelu weithio gyda Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol i sicrhau bod gwybodaeth briodol am adrodd yn benodol (am unigolion) neu bryderon diogelu mwy cyffredinol ar gael ac yn cael ei hyrwyddo.

134. Dylid cyfleu yn fwy cyffredinol i weithwyr ac i'r cyhoedd fod 'cadw golwg' ar les plant yn yr economi gyda'r nos yn gyfrifoldeb cyffredinol, a defnyddio ymgyrchoedd i bwysleisio'r neges y gall unrhyw un godi pryderon gyda'r cyrff priodol. Mae gan gamau fel hyn gan awdurdodau lleol a'u partneriaid y potensial i atal camdriniaeth drwy gamfanteisio rhywiol rhag digwydd yn y lle cyntaf, i adnabod plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a'r rhai sydd eisoes yn destun camfanteisio rhywiol fel y gellir cymryd camau i atal hyn.

135. Mae'r adroddiad annibynnol ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant ym Manceinion Fwyaf gan Ann Coffey AS (2014)[83] yn awgrymu bod ymgysylltu cymunedol yn elfen allweddol o atal a nodi camfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae'r adroddiad yn nodi bod gweithio gyda'r holl wahanol gymunedau a magu ymddiriedaeth ynddynt yn hanfodol i'r heddlu allu diogelu plant mewn cymunedau cymdeithasol ddifreintiedig a datgysylltiedig a chymunedau lliafrifoedd ethnig. Mae Coffey'n awgrymu bod angen gwell dealltwriaeth ar y cyhoedd o'r hyn i edrych amdano mewn achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn eu cymdogaethau, a dyna pam ei bod yn bwysig darparu gwybodaeth i gymunedau am natur camfanteisio'n rhywiol ar blant yn eu hardaloedd lleol fel y gallant nodi arwyddion yn gynnar. Yn y modd hwn, gall gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd fod yn effeithiol o ran cynorthwyo'r heddlu a diogelu plant.

136. Nododd papur gan y Swyddfa Gartref a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020[84], yn edrych ar nodweddion troseddu yn ôl grwpiau, fod amrywiaeth cefndiroedd ethnig a chymdeithasol mewn troseddu a'i bod felly'n bwysig

casglu data cywir ar nodweddion troseddwyr i lywio proffiliau problemau lleol.

137. Dylai Byrddau Diogelu weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod gwybodaeth briodol i godi ymwybyddiaeth o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, gan gynnwys sut i nodi pryderon a rhoi gwybod amdanynt, ar gael i'w hyrwyddo mewn lleoliadau cymunedo, a'i fod yn cael ei hyrwyddo hefyd i fusnesau perthnasol gan gynnwys y rhai sy'n gweithredu yn economi'r nos.

138. Mae'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar atal ac ymateb i gam-drin plant yn[85] rhywiol yn cynnwys camau i Fyrddau Diogelu ystyried dysgu gan y Rhwydwaith Diogelu Cyd-destunol ar gymdogaethau ac ystyried safle peilot rhanbarthol ar gyfer y pecyn cymorth Asesu Cymdogaethau.[86]

139. Mae trefniadau trwyddedu a chaffael yn cynnig cyfleoedd i hyrwyddo diogelu. Gall darparu polisi diogelu a hyfforddiant sy'n briodol i rolau, lle y'u cynhwysir fel disgwyliad ar gyfer safleoedd neu wasanaethau trwyddedig ac fel rhan o ymarferion tendro ar gyfer gwasanaethau a ariennir yn gyhoeddus, gyfrannu at greu cymunedau mwy diogel i blant.

140. Fel rhan o'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol[87] bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i lunio canllaw arferion da ar bolisi diogelu corfforaethol.

Y Gwasanaeth Ieuenctid

141. Mae tystiolaeth adolygu wedi dod i'r casgliad bod gwaith ieuenctid (yn ei holl ffurfiau amrywiol) yn gweithredu o safbwynt 'sy'n canolbwyntio ar gyfle' gan ystyried bod gan bobl ifanc botensial mawr mewn modd cyfannol.[88] Mae gwaith ieuenctid yng Nghymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddatblygiad cymdeithasol, addysgol, emosiynol a gwleidyddol pobl ifanc.[89]

142. Mae'r egwyddorion sydd wrth wraidd gwaith ieuenctid ac a nodwyd yn y Srategaeth Gwaith Ieuenctid 2019[90] yn golygu bod y Gwasanaeth Ieuenctid mewn sefyllfa dda i ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon â phlant a allai fod yn agored i gamfanteisio rhywiol neu sy'n wynebu risg o gamfanteisio o'r fath. Mae tystiolaeth o ymarfer wedi awgrymu y gall hyn fod yn ffactor amddiffynnol pwysig wrth leihau risg plant o fod yn destun camfanteisio rhywiol fel rhan o becyn cymorth amlasiantaeth.

143. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid mewn sefyllfa dda i weithio gyda phlant lle gall ymyrraeth gynnar oherwydd bregusrwydd gael effaith gadarnhaol ar hunan-barch, darparu cyfleoedd cadarnhaol gan gyfoedion a meithrin gwydnwch i atal y risg o gamdriniaeth drwy gamfanteisio rhywiol.

Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid

144. Nodwyd profiadau niweidiol yn ystod plentyndod fel ffactor risg allweddol ar gyfer troseddu ac ar gyfer bod yn ddioddefwyr.[91] Hefyd, mae cysylltiad sefydledig rhwng y risg o gamfanteisio'n rhywiol ar blant ac ymwneud â'r system troseddau ieuenctid.

145. Mae ymchwil wedi awgrymu gwahaniaethau sylweddol rhwng bechgyn a merched a gefnogir gan wasanaethau camfanteisio'n rhywiol ar blant, o ran troseddau ieuenctid. Roedd ban bron hanner y bechgyn hanes o droseddau ieuenctid, o gymharu â llai na thraean o'r merched[92].

146. Mae'n bwysig nad yw plant yn cael eu troseddoli o ganlyniad i ddigwyddiadau a sefyllfaoedd y maent yn ymwneud â hwy sy'n gysylltiedig â'u profiad fel dioddefwyr camfanteisio. Rhaid eu trin fel plant yn gyntaf a dylid ystyried eu hanghenion gofal, cymorth ac amddiffyn p'un a ydynt wedi cyflawni trosedd ai peidio.

147. Mae Llywodraeth Cymru[93] a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cyhoeddi Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid, sy'n nodi prif ddyheadau ac egwyddorion arweiniol Cymru ar gyfer pobl ifanc sydd yn y system cyfiawnder troseddol neu sy'n wynebu risg o fod ynddi. Gan ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar a gwaith atal, mae'r glasbrint yn argymell dull cyfannol ac adsefydlu i gyfeirio pobl oddi wrth droseddu ac i gynorthwyo'r rheini sydd yn y system cyfiawnder troseddol.

148. Gweithiodd Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Llywodraeth Cymru gyda phedwar tîm troseddwyr ifanc (a gwtogwyd i dri) a Gwasanaeth Triniaeth ac Ymgynghori Fforensig y Glasoed Cymru Gyfan i dreialu dull Rheoli Achosion Uwch newydd o weithio gyda phobl ifanc a oedd mewn cyswllt â'r system cyfiawnder ieuenctid. Roedd y dull hwn yn seiliedig ar y Model Adfer ar ôl Trawma ac mae wedi cael gwerthusiad cadarnhaol.[94] Bydd dulliau a lywir gan drawma yn helpu i atal y risg y bydd plentyn yn dechrau bod yn destun camfanteisio rhywiol neu y bydd hynny'n cael ei ailadrodd.

Gwasanaethau plant coll

149. Mae'r cysylltiad rhwng camfanteisio'n rhywiol ar blant a phlant yn mynd ar goll yn annatod gan fod mynd ar goll yn gallu achosi camfanteisio rhywiol a bod yn ganlyniad iddo hefyd. Mae tystiolaeth sefydledig o ymarfer ac ymchwil yn dangos bod cydberthyniad cryf rhwng plant yn mynd ar goll a'r risg o gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

150. Canfu ymchwil a wnaed yng Nghymru fod plant yn mynd ar goll am nifer o resymau sy'n perthyn i'w gilydd: i osgoi gwrthdaro; am eu bod yn teimlo'n emosiynol ynysig, oherwydd ei fod yn gyffrous; i dreulio amser gyda phobl ifanc eraill neu oherwydd perthynas ag oedolyn sy'n eu paratoi neu'n eu

cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol[95]. Pan fydd plant yn mynd ar goll, byddant yn ei chael yn anodd cael arian, bwyd a rhywle diogel i aros, maent yn gwrthdaro â phlant eraill, ac maent yn wynebu risg o fod yn destun paratoi, camfanteisio ac ymosodiad rhywiol. Pan fydd plant yn dychwelyd ar ôl bod ar goll, byddant yn pryderu ynglŷn ag ymateb rhieni, gofalwyr a staff preswyl.

151. Mewn rhai amgylchiadau, bydd plant yn fwy tebygol o fynd ar goll na'u cyfoedion. Mae plant sy'n derbyn gofal deirgwaith yn fwy tebygol o fynd ar goll na phlant eraill.[96] Mae plant a leolir y tu hwnt i'w hardal leol mewn perygl arbennig o fynd ar goll.[97] Ar 31 Ionawr 2016, cyhoeddodd Europol nad oedd cofnod o 10,000 o blant digwmni ar ôl cyrraedd Ewrop, ac ofnid bod llawer ohonynt yn destun camfanteisio neu gam-drin at ddibenion rhywiol neu lafur.[98] Amcangyfrifir bod 60% o blant mewn gofal awdurdodau lleol, yr amheuir eu bod ddioddefwyr masnachu plant, yn mynd ar goll.[99]

152. Mewn rhai ardaloedd o Gymru, mae gweithwyr ym maes plant coll yn y trydydd sector yn gweithio mewn partneriaeth â'r heddlu. Maent yn darparu gwasanaethau penodol i ddarparu cyfweliadau dychwelyd adref ac ôl-ofal i blant mewn amgylchiadau penodol. Hefyd, mae'n bosibl y byddant yn gweithio gyda phlentyn i'w gwneud yn llai tebygol y bydd yn mynd ar goll yn y dyfodol. Mae ymyrryd pan fydd plentyn yn dechrau mynd ar goll yn gyntaf yn gyfle i ddeall yr hyn sy'n digwydd ym mywyd y plentyn, darparu cymorth cynnar, a'i wneud yn llai tebygol o fynd ar goll yn y dyfodol. Yn ei dro, gall hyn atal y risg y bydd plentyn yn dechrau cael ei gam-drin drwy gamfanteisio rhywiol neu y bydd hynny'n cael ei ailadrodd.

Gwasanaethau cymdeithasol

153. Nodir yr angen am ymyrraeth gynnar ac atal rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae cyngor sydd wedi'i gynnwys yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru yn nodi pwysigrwydd cynnig cymorth cynnar i blant y nodir eu bod yn agored i gamdriniaeth ac esgeulustod posibl, ac i'w teuluoedd.

154. Os na chaiff pryderon ynghylch camdriniaeth, esgeulustod neu niwed eu cadarnhau, efallai y penderfynir o hyd bod gan blentyn neu deulu anghenion gofal a chymorth. O dan yr amgylchiadau hyn dylai'r awdurdod gynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth, a all gynnwys asesiad o anghenion y plentyn neu'r teulu am ofal a chymorth o dan Ran 3[100] o'r Ddeddf. Ni ddylai awdurdodau lleol aros nes i'r asesiad gael ei gwblhau cyn darparu gwasanaethau i gefnogi'r plentyn a'i deulu. Nodir y trefniadau hyn mewn canllawiau statudol, Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 5 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg.

155. Er mai gwirfoddol yw ymgysylltiad plant a theuluoedd â gwasanaethau ataliol, dylid gwneud pob ymdrech i drafod y rhesymau pam y mae cymorth gwasanaeth ataliol yn cael ei gynnig. Dylid rhoi gwybodaeth i'r plentyn a'i riant/gofalwyr am amrywiaeth o wasanaethau sy'n berthnasol i anghenion y plentyn a dylid eu cynnwys mewn penderfyniadau ynghylch pa gymorth sydd fwyaf priodol.

156. Mae hefyd yn bwysig gwneud trefniadau tebyg mewn perthynas â chymorth dilynol i blant pan ddaw ymyriadau diogelu statudol i ben fel y gellir cefnogi canlyniadau llesiant, atal ailadrodd y cam-drin a chynnal y diogelu yn y tymor hwy.

Rhannu gwybodaeth

157. Mae rhannu gwybodaeth yn rhan annatod o swydd unrhyw ymarferwr rheng flaen wrth weithio gyda phlant. Gall y penderfyniadau ynghylch faint o wybodaeth i'w rhannu, gyda phwy a phryd, gael effaith ddofn ar fywydau unigolion. Mae rhannu gwybodaeth yn helpu i sicrhau bod unigolyn yn cael y gwasanaethau cywir ar yr adeg iawn ac yn atal yr angen rhag mynd yn fwy difrifol ac anodd ei fodloni. Mae trefn wael o rannu gwybodaeth neu ddiffyg rhannu gwybodaeth yn thema gyson wrth ddysgu o Adolygiadau Ymarfer Plant yng Nghymru. Mae cyngor i ymarferwyr ar rannu gwybodaeth er mwyn diogelu plant ar gael.

Datblygu'r gweithlu

158. Mae pobl ifanc wedi mynegi pryderon[101] na wnaethant roi gwybod am ymddygiad neu ddigwyddiadau am nad oeddent yn ymddiried mewn gweithwyr na'r heddlu, neu nad oedd ganddynt berthynas dda â hwy.

159. Nododd y plant y siaradodd Ann Coffey AS â nhw fel rhan o'i hadroddiad ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant ym Manceinion Fwyaf (2014)[102] broblemau tebyg, gan sôn am eu diffyg ymddiriedaeth mewn sawl asiantaeth wahanol a'u profiadau o gael eu siomi.

160. Dylai pawb sy'n dod i gysylltiad â phlant mewn swydd broffesiynol neu wirfoddoli fabwysiadu Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant wrth ymdrin â phlant a dylent ddilyn y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol. Rhaid i blant allu bod yn ffyddiog y bydd yr oedolion sy'n gweithio gyda hwy yn barod i wrando arnynt, i gymryd eu barn o ddifrif ac i weithredu ar unrhyw bryderon y mae plant yn eu rhannu â hwy. Hefyd, dylai plant fod yn rhan o'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

161. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynorthwyo'r gwaith o sefydlu Hyb Cymorth i Gymru ar gyfer Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant helpu i fynd i'r afael â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Nod yr hyb yw bod yn ganolfan o ragoriaeth, gwybodaeth ac arbenigedd ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod i sefydliadau, cymunedau ac unigolion ledled Cymru. Mae'r hyb yn cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth cyffredinol a hyfforddiant

penodol i sectorau ledled Cymru i sicrhau y gall ymarferwyr fod yn ymwybodol o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a deall ymarfer a lywir gan drawma. Bwriad hyn yw newid y ffordd y mae'r rhai sy'n gweithio gyda phlant (ac oedolion) yn deall ymddygiadau y gellir eu hystyried yn anodd ac yn heriol. Gall dull gweithredu a lywir gan drawma wella'r ffordd y mae ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol ar draws asiantaethau'n ymgysylltu ac yn rhyngweithio â phlant, gan arwain at ymatebion mwy cadarnhaol a deallus i leihau bregusrwydd a hybu gwydnwch.

162. Hefyd, mae angen i bawb sy'n dod i gysylltiad â phlant yn broffesiynol neu'n wirfoddol allu manteisio ar hyfforddiant sy'n briodol i'w rôl, fel eu bod yn gymwys i gydnabod y bregusrwydd sy'n gysylltiedig â'r risg o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, nodi ei arwyddion, ac ymateb yn mewn ffordd briodol sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant i sicrhau bod ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol yn gyfarwydd â chynnwys y strategaeth hon, cynnwys Gweithdrefnau Diogelu Cymru a chynnwys Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan.

4. Dylai'r holl wasanaethau sy'n darparu gwybodaeth a/neu gymorth i blant a theuluoedd sicrhau bod ymarferwyr a gwirfoddolwyr:

- **Yn ymwybodol o gamfanteisio'n rhywiol ar blant;**
- **Yn deall beth a olygir wrth ymarfer a lywir gan drawma;**
- **Yn ymwybodol o arwyddion corfforol, emosiynol, materol ac ymddygiadol camfanteisio'n rhywiol ar blant;**
- **Yn gwybod pryd a sut i roi gwybod am blentyn sy'n wynebu risg.**

5. <u>Rhaid</u> i Fyrddau Diogelu Plant sicrhau bod hyfforddiant ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant, sy'n berthnasol ac yn briodol i rôl ymarferydd, ar gael ac yn cael ei hyrwyddo ar draws eu rhanbarth.

6. Dylai awdurdodau lleol adolygu eu polisi a'u trefniadau diogelu corfforaethol yn rheolaidd, gan weithio gydag asiantaethau partner i nodi ffyrdd y gallant hyrwyddo cymunedau sy'n ddiogel i blant ac sy'n elyniaethus i gyflawnwyr.

7. <u>Rhaid</u> i awdurdodau lleol sicrhau bod plant sy'n agored i niwed a'u teuluoedd yn cael cynnig cymorth a chymorth cynnar i atal y risg o gamdriniaeth. Os na chadarnheir y pryderon ynghylch camdriniaeth, esgeulustod neu niwed o ran y plentyn y rhoddwyd gwybod ei fod yn wynebu risg, dylai'r awdurdod gynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth, a all gynnwys asesiad o anghenion y plentyn neu'r teulu

am ofal a chymorth o dan Ran 3 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

8. Dylai pob lleoliad addysg, gan gynnwys lleoliadau addysg amgen, megis unedau cyfeirio disgyblion, gymryd yn ganiataol fod camfanteisio'n rhywiol ar blant yn broblem y mae angen mynd i'r afael â hi.

Pennod 3

Ymateb i Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant – Gweithdrefnau Diogelu

163. Mae Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn darparu fframwaith ar gyfer diogelu plant ac oedolion yng Nghymru. Dylai ymarferwyr fod yn gyfarwydd â chynnwys Rhan 7 o'r Ddeddf a deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o dan y ddeddfwriaeth. Mae dyletswydd statudol i roi gwybod am blant sy'n wynebu risg o dan adran 130 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

164. Nid yw'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 yn atal, nac yn cyfyngu ar, rannu gwybodaeth at ddibenion cadw plant yn ddiogel. Ni ddylai ofnau ynghylch rhannu gwybodaeth fod yn rhwystr rhag diogelu a hyrwyddo llesiant plant sy'n wynebu risg o gael eu niweidio neu eu hesgeuluso. Rhaid i bob ymarferydd gymryd cyfrifoldeb am rannu unrhyw wybodaeth sydd ganddo. Ni all gymryd yn ganiataol y bydd rhywun arall yn rhannu gwybodaeth a allai fod yn hanfodol i gadw plentyn yn ddiogel. Rhaid i ymarferwyr ddeall sut i gydweithio ag asiantaethau eraill i rannu gwybodaeth mewn ffordd gymesur ac amserol i atal niwed. Mae cyngor i ymarferwyr ar rannu gwybodaeth er mwyn diogelu plant ar gael.

165. Rhaid diogelu plant sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin y tu allan i'r teulu drwy'r un gweithdrefnau â phlant sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin o fewn y teulu. Bydd rhai plant yn wynebu risg o gael eu cam-drin o fewn y teulu a'r tu allan iddo. Mae angen ystyried pob agwedd ar risg mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Lle y bo'n bosibl, dylid gweithio gyda rhiant/gofalwyr y plentyn.

166. Nodir y trefniadau ar gyfer ymateb i blant sy'n wynebu risg yn Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 5 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg ac yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru a dylid eu dilyn ar gyfer plant sy'n wynebu risg o gamfanteisio rhywiol.

167. Mae dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn golygu y dylai ymarferwyr, wrth ystyried achosion sydd wedi'i hatgyfeirio sgil pryderon ynghylch camfanteisio'n rhywiol ar blant, fod yn ymwybodol fod cydberthynas rhwng camfanteisio'n rhywiol ar blant a mathau eraill o risg a cham-drin.

168. Gwyddom y gallai plant y camfanteisir arnynt yn rhywiol fynd ar goll, cael eu masnachu, cael eu cam-drin, neu fod yn destun camfanteisio a/neu gael eu paratoi ar-lein, a bod camfanteisio'n droseddol ar blant a chamfanteisio'n rhywiol ar blant yn gorgyffwrdd â'i gilydd ac y gallai rhai plant ddangos ymddygiad rhywiol niweidiol a dioddef camfanteisio rhywiol. Dylid ystyried gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn unrhyw Ganllawiau Ymarfer i Gymru Gyfan ar faterion diogelu sy'n berthnasol i'r

plentyn wrth ymateb i anghenion diogelu unigol mewn ffordd gyfannol sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan - diogelu plant rhag camfanteisio rhywiol

Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan – diogelu plant sy'n mynd ar goll o'r cartref neu o ofal

Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan – diogelu plant a all fod wedi'u masnachu

Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan – diogelu plant rhag camfanteisio troseddol ar blant

Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan – diogelu plant lle mae pryderon ynghylch ymddygiad rhywiol niweidiol

Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan – diogelu plant rhag cam-drin ar-lein

169. Mae eiriolaeth yn grymuso plant sydd â'r hawl iddo ac yn sicrhau bod eu hawliau'n cael eu parchu a bod eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau yn cael eu hadlewyrchu'n llawn wrth wneud penderfyniadau am yr hyn sy'n digwydd yn eu bywydau. Mae eiriolaeth hefyd yn amddiffyniad ychwanegol i ddiogelu rhag y risg o gamdriniaeth. Gall eiriolaeth sicrhau bod help a chymorth yn cael eu darparu sy'n golygu y gellir gwrando ar bryderon a delio â hwy'n effeithiol. Mae eiriolaeth yn cefnogi cyfranogiad gweithredol yn y prosesau gwneud penderfyniadau ac yn sicrhau bod safbwyntiau a dymuniadau'n cael eu clywed bob amser.

170. Mae'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol yn ddull safonol o ddarparu gwasanaethau eiriolaeth statudol gan y chwe Cydweithredfa Gwasanaethau Cymdeithasol Rhanbarthol. Nodir y trefniadau hyn yn y Cod Ymarfer ar Eiriolaeth (Rhan 10) o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

171. Mae hawl gan blant a phobl ifanc i gynnig gweithredol o eiriolaeth gan eiriolwr proffesiynol annibynnol statudol pan fyddant yn derbyn gofal neu pan fyddant yn destun ymholiadau amddiffyn plant sy'n arwain at Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol. Gwneir y 'cynnig gweithredol' yn uniongyrchol i'r plant gan y gwasanaeth eirioli. 'Cynnig gweithredol' yw'r broses o rannu gwybodaeth ynglŷn â hawl statudol plentyn mewn amgylchiadau penodol i gael cymorth gan wasanaeth eirioli proffesiynol annibynnol. Rhaid rhannu gwybodaeth â hwy sy'n cynnwys esboniad am rôl Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol.

172. Mae gan staff rheng flaen penodol sy'n dod ar draws dioddefwr posibl caethwasiaeth fodern neu fasnachu pobl a ddyletswydd i hysbysu'r Swyddfa Gartref o dan adran 52 o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 . Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol i'r heddlu, awdurdodau lleol, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, a'r Awdurdod Meistri Gangiau a Chamddefnyddio Llafur.

173. Ni fydd rhai plant yn cael eu nodi fel rhai sydd wedi cael eu cam-drin trwy gamfanteisio rhywiol neu fel dioddefwyr masnachu nes eu bod yn hŷn. Bydd dyletswyddau amddiffyn plant yn parhau i fod yn berthnasol iddynt hyd nes eu bod yn cyrraedd eu pen-blwydd yn 18 oed.

174. Dylid gwneud trefniadau ar gyfer atgyfeirio plant yn briodol at y gwasanaethau oedolion priodol wrth iddynt nesáu at eu pen-blwydd yn 18 oed. Nodir hyn yng Nghanllawiau Ymarfer Cymru Gyfan ac mae'n cynnwys ystyried gwneud atgyfeiriad oedolyn sy'n wynebu risg o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a/neu ei atgyfeirio at wasanaethau a gynigir o ganlyniad i Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Trais Rhywiol a Cham-drin Domestig (Cymru) 2015. Mae gwybodaeth ar gael ar wefan Byw Heb Ofn.

175. O dan adran 70 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, mae gan y rhai sy'n gadael gofal a phersonau sydd mewn perygl penodol o gamfanteisio rhywiol neu ariannol, sy'n 18 oed neu drosodd ond o dan 21 oed, angen blaenoriaethol am lety. Mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol i sicrhau llety addas o dan adran 75 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ar gyfer y rhai sydd mewn angen blaenoriaethol, yn amodol ar fodloni mesurau eraill.

9. Pan fydd awdurdod lleol yn derbyn adroddiad bod plentyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin drwy gamfanteisio rhywiol, rhaid i hyn gael ei ystyried yn unol â chanllawiau statudol a'r gweithdrefnau a nodir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru, 'Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan: diogelu plant rhag camfanteisio rhywiol'. Dylid ystyried unrhyw Ganllawiau Ymarfer Cymru Gyfan eraill sy'n berthnasol i amgylchiadau'r plentyn wrth gynllunio ar gyfer anghenion gofal, cymorth ac amddiffyn unigol y plentyn.

10. Pan fo plentyn yn cael gofal a chymorth am ei fod yn wynebu risg o gamfanteisio rhywiol a'i fod yn nesáu at ei ben-blwydd yn 18 oed, rhaid i'r awdurdod lleol ystyried a yw'n bryd ei atgyfeirio at wasanaethau oedolion fel oedolyn sy'n wynebu risg o dan adran 128 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, fel y gellir (lle bo hynny'n briodol) asesu ei angen am ofal a chymorth o dan adran 19 o'r Ddeddf. Yn ogystal â hynny neu yn hytrach na hynny, rhaid ystyried a ddylid ei atgyfeirio at wasanaethau sydd ar gael i bobl yr effeithir arnynt gan faterion a ystyriwyd yn Neddf Trais yn Erbyn Menywod, Trais Rhywiol a Cham-drin Domestig (Cymru) 2015.

11. Dylai unrhyw wasanaeth arall sy'n ymwneud â'r plentyn, os oes pryderon am risg o gamfanteisio rhywiol a'i fod yn nesáu at ei ben-blwydd yn 18 oed, ystyried a ddylid rhoi gwybod bod yr unigolyn yn oedolyn sy'n wynebu risg

a/neu ei atgyfeirio at wasanaethau lleol i'r rhai a effeithiwyd gan drais rhywiol.

Pennod 4

Ymateb i Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant – rhoi'r plentyn yn y canol er mwyn Diwallu anghenion gofal a chymorth

176. Mae ymchwil[103] a gynhaliwyd yng Nghymru yn awgrymu bod cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol yn parhau i gael effaith negyddol ar fywydau plant wrth iddynt dyfu'n oedolion. Canfu'r ymchwil fod pobl y nodwyd eu bod yn wynebu risg o gamfanteisio rhywiol ystod eu plentyndod yn fwy tebygol o gael rhagor o ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar ôl i'r achos cychwynnol gael ei gau, a chael canlyniadau gwaeth o gymharu ag eraill a gefnogir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod eu plentyndod. Roedd hyn yn cynnwys cam-drin corfforol/rhywiol yn parhau i ddigwydd mewn perthynas agos a phroblemau camddefnyddio alcohol/sylweddau, neu broblemau iechyd meddwl. Roeddent hefyd yn llai tebygol o fod mewn cyflogaeth neu hyfforddiant a chael cartref sefydlog.

177. Mae tystiolaeth arall yn ategu'r cysylltiad rhwng cam-drin plant yn rhywiol a dod yn ddioddefwyr yn ddiweddarach a chanlyniadau llesiant gwael pan fyddant yn oedolion.[104]

178. Mae tystiolaeth glir fod cael ein hymateb yn gywir i blant sy'n cael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol yn hanfodol er mwyn atal niwed gydol oes a llesiant gwael i'r unigolion, ac i'w plant os byddant yn dod yn rhieni. Nid yw dull rheoli risg, nad yw'n ceisio rheoli risg yng nghyd-destun Cynllun Gofal a Chymorth sy'n canolbwyntio ar y plentyn, yn debygol o hybu diogelu cynaliadwy na chanlyniadau llesiant mwy hirdymor.

179. Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn cynnwys cam-drin emosiynol a rhywiol a cham-drin corfforol yn aml. Mae llawer o'r plant sy'n cael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol hefyd wedi cael profiad o drawma a/neu gam-drin ynghynt yn ystod eu plentyndod. Ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod y plant hyn yn fwy tebygol o gael profiad o berthnasoedd teuluol sydd wedi torri[105] a phrofiadau gwael o fod mewn gofal[106]. Yna maent yn agored i gam-drin a thrawma pellach drwy gamfanteisio rhywiol.

180. Gall y profiadau hyn i gyd effeithio ar y ffyrdd y bydd plant y camfanteisiwyd yn rhywiol arnynt yn ymddwyn ac yn ymgysylltu ag eraill. Mae'r ffaith y gallai plant ymddangos fel rhai nad ydynt yn fodlon cydweithredu, sy'n ymosodol ac yn amharod i ymgysylltu[107] ac yn rhai sy'n 'cymryd risg' yn gallu golygu bod ymarferwyr yn cael argraff negyddol ohonynt.

Mae plant wedi esbonio:

"Mae fel petai person tu mewn a pherson tu fas Ac mae sut rwyt ti'n teimlo tu mewn, rwyt ti'n gwneud pethau, ac efallai na fydd pobl yn gwybod. Achos rwyt ti'n edrych yn galed ac ati. Er enghraifft, roedd gen i enw am ymladd, felly dw i'n cael parch, ond yna dydy pobl ddim yn gwybod sut un wyt ti go iawn, tu mewn."

"Dw i wedi trio llawer o wasanaethau gwahanol; o'n i'n arfer bod yn berson eitha crac, wedi fy nal yn y foment. Doeddwn i ddim yn barod i dderbyn y ffaith 'mod i angen help."

(Gweler [108] [109])

181. Bydd plant y camfanteisiwyd yn rhywiol arnynt wedi cael llawer iawn o brofiadau o gamdriniaeth a thorri ymddiriedaeth. Mae'n bosibl y byddant wedi cael profiadau negyddol o weithwyr proffesiynol yn y gorffennol; efallai y byddant yn gofidio y bydd datgelu cam-drin yn arwain at ddial gan eu camdrinwyr, a gallent deimlo cywilydd, gorbryder a phryder ynglŷn â chael eu credu. Mae'r holl ffactorau hyn yn effeithio ar y cyfleoedd i blant gydnabod mai cam-drin yw'r hyn sydd wedi digwydd iddynt a theimlo'n ddigon diogel i ddatgelu eu bod yn dioddef camfanteisio rhywiol neu bod hynny wedi digwydd iddynt yn y gorffennol.[110]

182. Mae angen i'r ffyrdd rydym yn ymateb i blant sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin trwy gamfanteisio rhywiol gael eu llywio gan ddealltwriaeth o gyd-destun llawn bywyd y plentyn. Mae cyrraedd sefyllfa o ymddiriedaeth gyda phlentyn sydd wedi cael ei siapio gan hanes o gael ei siomi neu ei niweidio gan oedolion yn golygu bod angen treulio amser yn magu perthynas â'r plentyn.

Mae plant a phobl ifanc wedi esbonio:

"Dw i'n gwrthod unrhyw fath o ryngweithio gyda gwasanaethau o'r fath, oherwydd dw i'n gwybod y byddan nhw'n gorfod gadael ryw ddydd. Pam y buaswn i eisiau dweud wrth y person yma am fy holl broblemau, a hwnnw'n mynd i adael eto ryw ddydd? Dw i'n credu, wrth i chi adnabod person ifanc, mae'n seiliedig ar gysondeb. Felly, os ydych chi'n gweld y plentyn unwaith bob pedwar mis, yna beth yw'r pwynt o fod yn gysylltiedig â'r plentyn hwnnw os ydych chi ond yn ei weld unwaith bob pedwar mis? Mi fuaswn yn deall petai e unwaith neu ddwy y mis, achos mae'r plentyn wedyn yn gallu creu cwlwm a datblygu perthynas a dod i ymddiried yn y person, ond os yw e unwaith bob tri neu bedwar mis beth yw'r pwynt cael yr unigolyn hwnnw ym mywyd y plentyn? Oherwydd mae jyst yn unigolyn ychwanegol y mae'n rhaid i'r person ifanc hwnnw ymddiried ynddo eto, a gallai'r person ifanc fod â thua phedwar neu pum person gwahanol, chi'n gwybod … ac mae'n anodd iawn."

(Gweler [111])

183. Mae ymddwyn mewn ffyrdd y mae oedolion yn eu hystyried yn 'beryglus' yn aml yn cael ei weld gan blant fel ffordd o ymdopi a mynnu rhywfaint o reolaeth. Os oes diffyg cydnabyddiaeth parhaus o feddyliau a theimladau'r plentyn gan y rhai a ddylai falio amdano a bod eisiau ei helpu, gallai hynny ei adael yn agored i gamdrinwyr.[112]

184. Gall yr 'ymddygiadau peryglus' hyn ddod yn ffocws i ymatebion ymarferwyr, gyda phwyslais ar geisio rheoli paramedrau ymddygiad plant, yn gorfforol ac yn emosiynol, er mwyn lleihau risg. Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn achosi niwed sylweddol a rhaid cychwyn a dilyn gweithdrefnau diogelu. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth yn ymarferol nad yw gosod pwyslais ar ddilyn prosesau a rheoli risg o reidrwydd yn darparu ar gyfer anghenion gofal a chymorth y plentyn fel y gall ei ddiogelwch a'i lesiant yn y tymor hirach gael ei sicrhau.

185. Awgrymwyd bod ein hymateb i gam-drin drwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn wahanol i'n hymateb i fathau eraill o gam-drin plant yn rhywiol.[113] Mae cam-drin plant yn rhywiol wedi cael ei weld fel mater sy'n effeithio ar blant iau, a'i fod yn cael ei gyflawni'n bennaf yn y teulu (neu gan unigolion sydd â mynediad at y teulu). Mae hynny'n ysgogi ymateb amddiffyn plant lle nad oes unrhyw fai yn cael ei roi ar y plentyn rydym yn ceisio ei amddiffyn rhag niwed. Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn golygu cam-drin plant yn rhywiol. Fodd bynnag, mae'r ffaith fod plant sy'n cael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol yn aml yn bobl ifanc ac mae'r syniad bod ganddynt fwy o reolaeth dros yr hyn sy'n digwydd iddynt yn gallu arwain, yn anfwriadol, at roi'r bai ar y plentyn. Gall canolbwyntio ar leihau risgiau mewn perthynas â chamfanteisio'n rhywiol ar blant ein harwain at ganolbwyntio ar y ffyrdd y gallwn gael y plentyn i leihau ei 'ymddygiad peryglus' a'r cyswllt â'r camdrinwyr, yn hytrach na chanolbwyntio ar ba anghenion gofal a chymorth sy'n gorwedd y tu ôl i'r ymddygiad a ddangosir.

> Mae plant a phobl ifanc wedi esbonio:
>
> "Maen nhw'n dweud wrthyn ni am beidio ymwneud â'r bobl hyn (y cyflawnwyr) ddim mwy, ond dydyn nhw ddim yn gofyn beth allai fod wedi achosi i ni ymwneud â nhw i gychwyn"

(Gweler [114])

186. Soniodd plant a phobl ifanc a gymerodd ran mewn ymgynghoriad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru[115] gael eu beirniadu, eu beio neu eu 'brandio' gan ymarferwyr weithiau. Fe wnaeth tystiolaeth o adolygiad yn Lloegr[116] hefyd ganfod fod yr iaith a ddefnyddir gan rai ymarferwyr yn cynnwys disgrifio plant fel rhai anfoesol yn rhywiol (*promiscuous*) ac fel rhai sy'n gwneud dewisiadau peryglus.

187. Mae blaenlencyndod yn gyfnod yn natblygiad plentyn pan fyddant yn profi peryglon newydd wrth iddynt archwilio eu hannibyniaeth gynyddol. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod y gallai plant amrywio o ran eu

gwydnwch a'u gallu i reoli'r risgiau newydd hyn. Mae angen i ymarferwyr feddu ar ddealltwriaeth o flaenlencyndod fel cyfnod yn natblygiad plant, ac o'r heriau penodol sy'n wynebu rhai plant wrth fynd drwy'r cam datblygu hwn.[117]

Mae meithrin perthynas yn bwysig

188. Mae ymchwil[118] wedi dangos bod canfyddiadau plant o'r hyn sy'n creu ymarferydd da neu wael yn ymwneud yn bennaf â meithrin perthynas a bod plant yn ymateb yn fwy cadarnhaol i ymarferwyr sy'n mabwysiadu dull perthynol, tra bo plant yn llai tebygol o ymgysylltu'n llawn ag ymarferwyr nad ydynt yn canolbwyntio ar ddatblygu perthynas.

189. Mae'r Adolygiad o'r Argyfwng Gofal (2018)[119] hefyd yn awgrymu mai'r berthynas sydd wrth wraidd datblygiadau llwyddiannus o ran ymarfer. Mae'r adolygiad yn nodi pwysigrwydd 'cyfarfodydd llawn parch' gyda phlant a'u teuluoedd, gan ganolbwyntio ar gydweithio gyda nhw yn hytrach nag ar wneud rhywbeth iddynt.

> Mae plant a phobl ifanc wedi esbonio:
>
> "Mae diffyg cyfathrebu nid yn unig rhwng darparwyr gwasanaeth unigol ond rhwng y darparwyr gwasanaeth hynny a phobl ifanc. Gofynnwch i ni beth rydyn ni wir ei eisiau, yn hytrach na dweud wrthyn ni beth rydyn ni ei eisiau a dweud mai er ein lles ni y mae e."
>
> "Dwi'n credu bod angen dealltwriaeth glir o anghenion y plentyn hefyd."
>
> "Felly dylech gael eich arwain gan y person ifanc, yn hytrach na ffitio un plentyn i'r mowld, dylem ffitio mowld i'r plentyn – ydych chi'n deall beth dw i'n ei olygu?"

(Gweler,[120])

190. Bydd ymarfer perthynol yn cefnogi dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Mae Adolygiad Munro[121] o'r system amddiffyn plant yn nodi bod system amddiffyn plant sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn golygu y dylai pawb sydd ynghlwm ag amddiffyn plant ddilyn dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn a chydnabod plant a phobl ifanc fel unigolion sydd â hawliau, gan gynnwys eu hawl i gymryd rhan mewn penderfyniadau amdanynt eu hunain, yn unol â'u hoedran a'u haeddfedrwydd.

191. Mae cydgynhyrchu yn egwyddor allweddol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac mae'n cyfeirio at ffordd o weithio lle mae ymarferwyr a phobl yn cydweithio fel partneriaid cyfartal i gynllunio a chyflenwi gofal a chymorth. Pan fo angen ymyriad, dylai bob amser fod yn gymesur ac yn amserol a dylai helpu pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth, i wireddu eu canlyniadau

personol. Mae cydgynhyrchu yn galw am ymarfer perthynol ac am ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

Mae plant a phobl ifanc wedi esbonio:

"Roedd yn rhaid i mi ddweud yr hanes wrth un unigolyn ac yna gorfod dweud wrth un arall, drosodd a throsodd. Dyw e ddim yn helpu."

"Fe ddois i ar draws un person a roddodd gyfle i fi siarad, yn lle dim ond bod yn broffesiynol … Dw i'n gwybod, beth bynnag ddigwyddith, mae gen i'r person hwnnw am byth … Mae'r person hwnnw yn gwneud i chi deimlo'n wahanol, waeth pa mor anodd yw'r sefyllfa, rydych chi'n gwybod bod rhywun yn eich cefnogi chi"

"Mae hi (yr ymarferydd) yn hoffi sgwrsio ond mae'n cadw mewn cysylltiad, mae'n dda am wrando a wir eisiau i bobl wneud yn dda, ac mae'n hawdd troi ati."

(Gweler [122] [123] [124])

192. Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi llunio fframwaith ar gyfer gweithio gyda phlant, sydd wedi'i wreiddio yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn: 'Dull Hawliau Plant'.[125]

Cynnwys plant yn y broses o gynllunio eu hanghenion gofal a chymorth

193. Mae arferion diogelu yn golygu bod ymarferwyr ac oedolion eraill ym mywyd plentyn yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â sut sydd orau i amddiffyn y plentyn rhag niwed. Mae'n glir fod rhai amgylchiadau pan fydd rhannu gwybodaeth ynglŷn â'r penderfyniadau hyn gyda phlentyn neu oedolyn yn ei fywyd yn gallu ei roi mewn perygl pellach o niwed. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na ddylai plant gael unrhyw wybodaeth, neu fawr ddim gwybodaeth, ynglŷn â'r cynlluniau sy'n cael eu gwneud ar gyfer eu gofal a'u cymorth.

194. Fe ddywedodd plant a phobl ifanc a gymerodd ran mewn ymgyngoriadau a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru nad yw gwybodaeth am y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud amdanynt yn cael ei rhannu gyda nhw weithiau; nad oeddent yn gwybod pryd yr oedd cyfarfodydd amdanynt yn cael eu cynnal na beth oedd canlyniadau'r cyfarfodydd hyn. Fe ddywedon nhw hefyd nad oeddent yn gwybod pa wybodaeth ysgrifenedig oedd yn cael ei chofnodi amdanynt.

195. Siaradodd rhai plant a phobl ifanc hefyd siarad am yr ansicrwydd roeddent yn ei deimlo oherwydd nad oedd penderfyniadau amdanynt yn cael eu hesbonio iddynt neu ddim yn cael eu hesbonio'n dda. Nid oedd llawer yn cael cyfle i holi unrhyw un ynglŷn â'r penderfyniadau a oedd yn

cael eu gwneud neu ofyn cwestiynau i'w helpu i ddeall pam fod y penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud.

196. Roedd profiadau pobl ifanc a gymerodd ran yn y cyfarfodydd yn gymysg, ond ar y cyfan roeddent yn negyddol. Roedd rhai yn teimlo bod pethau'n cael eu hegluro iddynt a bod pobl yn gwrando arnynt, ond nid dyna oedd barn y rhan fwyaf. Ar y cyfan, nid oedd pobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda mewn cyfarfodydd, ac nid oeddent yn teimlo bod pobl yn gofyn iddynt hwy beth hoffent ei weld yn digwydd.

> Mae plant a phobl ifanc wedi esbonio:
>
> "Wnaeth neb ofyn fy marn am 12 mlynedd. Fe ddwedwyd wrtha i sut roedd pethau'n mynd i fod. Byddai wedi bod yn llawer gwell pe bawn i wedi cael dweud fy nweud. Wnaeth neb erioed fy holi am gyfarfodydd, er iddyn nhw weithiau sôn am ganlyniad cyfarfod."
>
> "Wnaethon nhw ddim gwrando ar fy marn mewn gwirionedd. Roedden nhw'n siarad o 'nghwmpas i. Roeddwn i fel pry ar y wal."

(Gweler [126] [127])

197. Dylid dod i gytundeb ynghylch pwy sydd yn y sefyllfa orau i esbonio i blentyn y penderfyniadau a wneir yn ei gylch. Lle bynnag y bo modd, dylai hyn fod yn rhywun a nodwyd gan y plentyn. Os nad yw hyn yn bosibl am resymau ymarferol neu resymau diogelu, dylid egluro hyn yn ofalus i'r plentyn. Efallai mai'r person a ddewisir i rannu gwybodaeth â'r plentyn fydd yr un fydd hefyd yn ceisio ac yn rhannu barn y plentyn am y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn ei gylch.

198. Dylai gwybodaeth gael ei rhannu gyda'r plentyn mewn modd sy'n addas ar gyfer ei oedran a dylid ystyried dewisiadau iaith y plentyn neu ei anghenion o ran prosesu gwybodaeth neu gyfathrebu neu unrhyw anghenion dysgu ychwanegol sydd ganddo. Mewn geiriau eraill, wrth esbonio wrth y plentyn y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud amdano, dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei rhannu mewn ffordd y mae'n debygol o'i deall. Dylid rhoi'r cyfle i blant ofyn cwestiynau hefyd.

199. Mae pawb yn teimlo'n fwy cyfforddus yn trafod materion personol ac emosiynol yn eu hiaith gyntaf. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol – 'Mwy na Geiriau'.[128] Mae'r 'cynnig rhagweithiol' yn golygu darparu gwasanaeth yn y Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Cyfrifoldeb pawb sy'n darparu gwasanaethau gofal i bobl a'u teuluoedd ledled Cymru yw darparu'r 'cynnig rhagweithiol' ac mae pecyn gwybodaeth ar gael i'r rhai sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol.[129]

200. Mae canllawiau[130] ar gael i weithwyr cymdeithasol sydd wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru ar gael ac mae'r rhain yn disgrifio'r cynnig rhagweithiol mewn perthynas â'r Gymraeg, gan nodi y dylai gweithwyr cymdeithasol sicrhau, lle y bo'n ymarferol, bod trefniadau'n cael eu gwneud i ddiwallu anghenion iaith ac anghenion cyfathrebu unigryw'r person. Dylai gweithwyr cymdeithasol wybod sut i gael mynediad at eiriolwyr neu gyfieithwyr annibynnol, lle bo angen.

> Mae plant a phobl ifanc wedi esbonio:
>
> "Dylid rhoi esboniad syml fel bod plentyn yn gallu deall. Mae hawl gan y plentyn i wybod."

(Gweler [131])

201. Bydd gan rai plant yr hawl i Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol a dylent gael eu hatgoffa o hyn. Pan fo plentyn yn destun gweithdrefnau amddiffyn plant neu'n dod yn blentyn sy'n derbyn gofal, dylai dderbyn cynnig gweithredol o eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Dylid rhannu gwybodaeth ag ef sy'n cynnwys esboniad am:

- rôl gwasanaeth Eiriolaeth Proffesiynol Annibynnol,
- yr hyn y gall ac na all ei wneud, a sut mae'n gweithredu ar sail eu dymuniadau a'u teimladau,
- ei annibyniaeth a sut mae'n gweithio ar gyfer y plentyn/person ifanc yn unig,
- ei bolisi ar gyfrinachedd a niwed sylweddol.

Dylai'r wybodaeth esbonio hawl statudol plant a phobl ifanc i gael cymorth i fynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau yn ogystal â'u hawl i wneud sylw neu gŵyn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y Cod Ymarfer ar Eiriolaeth (Rhan 10) a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Ymarfer a lywir gan anghenion unigol y plentyn

202. Nid oes un model nac ymyrraeth unigol y gellir dangos tystiolaeth mai dyna'r un ateb ymarferol i helpu plant sydd wedi cael eu cam-drin trwy gamfanteisio rhywiol at adferiad. Cydnabyddir yn ogystal y gall hwn fod yn faes ymarfer heriol a chymhleth ac y gallai fod diffyg hyder ymysg ymarferwyr o ran eu gallu i ymateb.

203. Fodd bynnag, mae dulliau ymarfer sy'n cael eu hamlygu fel rhai effeithiol wrth weithio gyda phlant sydd wedi profi trawma neu sy'n mynd drwy drawma yn gysylltiedig â cham-drin trwy gamfanteisio rhywiol. Mae angen i'r rhain danategu'r arferion a gynllunnir o amgylch anghenion unigol pob plentyn. Er bod llawer o brofiadau o gam-drin drwy gamfanteisio'n rhywiol

ar blant yn dilyn patrymau tebyg, mae angen ystyried rhyw y plentyn, profiadau yn y gorffennol, amgylchiadau cyfredol a galluedd personol ar gyfer pob plentyn unigol wrth gynllunio'u gofal a'u cymorth.

204. Mae'r cyfleoedd i feithrin gwydnwch ar gyfer plentyn sydd wedi'i gam-drin yn gysylltiedig ag argaeledd a hygyrchedd gwasanaethau sy'n berthnasol yn gyd-destunol ac yn ddiwylliannol ac sy'n gallu hwyluso datblygiad cadarnhaol yng nghyd-destun trallod sylweddol.[132]

Dull a lywir gan drawma

205. Pan fo ymarferwyr yn cydnabod bod plant wedi cael profiad o drawma a phan fo ganddynt ddealltwriaeth o effaith trawma ar y ffordd y mae plant yn ymgyflwyno, yn ymddwyn ac yn cyfathrebu, gall hyn helpu i lunio ymatebion effeithiol i'r plentyn.

206. Nid yw ymarfer a lywir gan drawma[133] wedi'i gynllunio'n benodol i drin anawsterau sy'n gysylltiedig â thrawma. Yn hytrach, mae'n ceisio mynd i'r afael â'r rhwystrau y gall y rhai sy'n cael eu heffeithio gan drawma eu profi wrth gael mynediad at y gofal, y cymorth a'r driniaeth y mae eu hangen arnynt ar gyfer llesiant da. Mae ymarfer a lywir gan drawma yn ceisio sicrhau bod ymarferwyr:

- yn cydnabod bod trawma yn gyffredin;
- yn sylweddoli y gallai'r profiadau hyn gael amrediad o effeithiau sy'n berthnasol i'r gwasanaethau maent yn eu darparu i'r unigolyn hwn;
- yn ymateb yn ddiogel ac yn effeithiol, gan sicrhau bod y rhai sydd ei angen yn cael eu cyfeirio at ac yn derbyn yr ymyriadau angenrheidiol sy'n benodol i drawma ar gyfer adferiad.

207. Mae'n bwysig lleihau'r risg o aildrawmateiddio[134] drwy sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu yn unol ag egwyddorion allweddol:

- Dewis
- Cydweithio
- Ymddiriedaeth
- Grymuso
- Diogelwch

208. Mae angen i ymarferwyr gasglu gwybodaeth am y canlynol a'u deall:

- hanes bywyd plentyn (beth yw'r stori y tu ôl i'r ffordd mae'r plentyn yn ymddwyn);
- y ffordd y mae plentyn yn cyflwyno ei anghenion (ynglŷn â sut mae'n arddangos/ceisio diwallu ei anghenion, a allai fod ar ffurf negyddol);

- y ffyrdd mwyaf effeithiol o ymateb i'r plentyn hwnnw (wedi'u llywio gan waith asesu, safbwyntiau'r plentyn a'r rhai sydd â dealltwriaeth dda o'r plentyn).

Bydd hyn yn rhoi dealltwriaeth i ymarferwyr a bydd hynny'n cefnogi ymateb a lywir gan drawma i'r plentyn. Bydd y dull hwn yn osgoi dwysáu teimladau o fai a chywilyddio a bod allan o reolaeth i'r plentyn.

Ymateb sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn seiliedig ar anghenion a hunaniaeth unigol

209. Gall ymatebion unigol i brofiadau trawmatig amrywio'n fawr, ond mae ymchwil wedi canfod perthynas gref rhwng graddau'r risg o brofi canlyniadau negyddol lluosog a chymhleth yn dilyn profiadau a ffactorau trawmatig. Mae'r rhain yn cynnwys yr oedran y digwyddodd y profiad/profiadau; natur y profiad/profiadau (gydag effeithiau negyddol yn arbennig o gysylltiedig â thrawma o natur ryngbersonol fel cam-drin plant ac esgeulustod), a difrifoldeb a chronigedd y profiadau.[135]

210. Gallai plant sydd wedi profi effaith trawma weithredu ar lefel ddatblygu gynharach yn emosiynol ac yn gymdeithasol nag y byddai eu hoedran cronolegol yn ei awgrymu. Mae'n bosibl y bydd plant sydd wedi profi trawma yn cael trafferth datblygu'r sgiliau rheoleiddio sydd eu hangen ar gyfer dysgu cadarnhaol a pherthnasoedd cymdeithasol. Gall deall hyn helpu i lywio ein hymateb i blant.[136]

211. Canfu ymchwil fod plant sydd ag **anableddau dysgu**[137] yn agored i gamfanteisio rhywiol yn sgil ffactorau sy'n cynnwys gorwarchod, unigedd cymdeithasol a'r gymdeithas yn gwrthod eu cydnabod fel bodau rhywiol. Gwnaeth yr un ymchwil ganfod nad oedd llawer o'r plant ag anableddau dysgu sy'n cael eu cefnogi ar hyn o bryd gan y gwasanaethau camfanteisio'n rhywiol ar blant a gynhwysir yn yr astudiaeth hon yn cyrraedd y trothwyon uchel ar gyfer gwasanaethau anableddau dysgu, ond bod ganddynt anghenion heb eu diwallu yn gysylltiedig â'u hamhariad.

212. Mae'n bosibl y bydd plant eraill yn gweithredu'n wybyddol, yn gymdeithasol ac yn emosiynol mewn modd sy'n unol â'n disgwyliadau o blant o'u hoedran cronolegol.

213. Gallai asesiadau â thystiolaeth i lywio safbwynt ynglŷn â gweithrediad gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol plentyn fod yn berthnasol i rai plant i'w helpu i lywio'r dull ar gyfer diwallu eu hanghenion gofal a chymorth. Gallai fod angen gwaith i feithrin perthynas â phlentyn cyn bod asesiadau manwl yn cael eu cynnal[138].

214. Mae ymateb i anghenion unigol plentyn hefyd yn cynnwys ystyriaeth o **rywedd**. Canfu ymchwil a gynhaliwyd yng Nghymru a Lloegr[139], a ystyriodd fechgyn a chamfaneisio rhywiol, y gallai'r safbwyntiau a'r credoau y mae ymarferwyr yn eu harddel ynghylch camfanteisio rhywiol ar blant fod yn seileidg ar rywedd. Mae'r ymchwil yn awgrymu y gallai hyn

effeithio ar allu ymarferwyr i nodi'r risg y gallai bechgyn fod yn destun camfanteisio rhywiol. Canfu'r ymchwil hefyd y gallai ymarferwyr gamddeall cam-drin bechgyn, yn enwedig y rhai nad ydynt yn heterorywiol ac nad oes ganddynt hyder i gefnogi bechgyn a dynion ifanc.

215. Mae'r rhagdybiaethau hyn yn cymhlethu'r sefyllfa ar gyfer bechgyn sy'n cael eu cam-drin, a allai fod yn brin o hyder y bydd pobl yn gwrando arnynt neu'n eu credu. Mae'n hanfodol fod gan yr ymarferwyr feddwl agored i'r realiti fod bechgyn hefyd yn cael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol a'u bod yn datblygu eu hyder i weithio gyda bechgyn.

216. Mae'r sefyllfaoedd a gyflwynir yn yr ymchwil hefyd yn adlewyrchu stereoteipiau ynglŷn â bechgyn a merched sy'n cael eu heffeithio gan gamfanteisio rhywiol – stereoteipiau niweidiol nad ydynt yn ddefnyddiol. Mae termau megis 'pryfoclyd' ac ‘anfoesoldeb rhywiol’ (*promiscuous*) fel petaent yn beio’r dioddefwr yng nghyd-destun ymosodiad rhywiol ac ni ddylid byth eu defnyddio.

217. Mae **rhywioldeb** plentyn a’i **hunaniaeth o ran rhywedd** yn ystyriaeth bwysig wrth gynllunio cymorth i ddiwallu ei anghenion gofal a chymorth. Mae hyn yn wir beth bynnag fo’i hunaniaeth o ran rhywedd.

218. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod ymarferwyr yn aml yn brin o hyder wrth gefnogi plant LGBT+ ac mae rhagdybiaethau ynglŷn â pherthnasoedd rhywiol mewn cymunedau LGBT+ a diffyg dealltwriaeth o faterion diwylliannol LGBT+ yn gallu bod yn rhwystr rhag rhoi cymorth effeithiol i blant[140]. Gallai plant syrthio drwy'r bwlch rhwng gwasanaethau LGBT+ sy'n brin o hyder o ran camfanteisio'n rhywiol ar blant a gwasanaethau amddiffyn plant sy'n brin o hyder o ran materion LGBT+[141]. Wrth ddiwallu anghenion gofal a chymorth plentyn, efallai y bydd angen ceisio cyngor gwasanaethau LGBT+ a, lle bo hynny’n bosibl ac yn briodol, gofyn am eu cymorth.

219. Gallai **ethnigrwydd** effeithio ar y graddau y gellir ystyried bod gwasanaethau yn barod i ddiwallu anghenion plant cymunedau lleiafrifoedd ethnig. Er mwyn gweithio'n effeithiol gyda phlant o gymunedau lleiafrifoedd ethnig, mae'n hanfodol fod gan ymarferwyr ddealltwriaeth o unrhyw fregusrwydd ychwanegol a rhwystrau penodol rhag rhoi gwybod am gamfanteisio'n rhywiol ar blant. At hynny, adroddir bod dulliau sy'n ceisio diogelu plant yn fwyaf llwyddiannus pan fyddant yn ceisio mynd i'r afael â realiti plant sydd yn aml â sawl math o fregusrwydd ac yn gweithio mewn cymunedau drwy'r rhai sydd wedi magu ymddiriedaeth. Mae'n bwysig deall wedyn yr anawsterau penodol, sy’n aml yn cael eu creu gan y croestoriad o anfantais gymdeithasol ac economaidd, ethnigrwydd, rhywedd a statws mewnfudo[142].

220. Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o amrywiaeth ddiwylliannol a gofyn cwestiynau i osgoi rhagdybiaethau neu ddefnyddio iaith feirniadol. Mae'n

bwysig hefyd holi plentyn am ei hunaniaeth a dod i wybod am ei gredoau a'i werthoedd unigol.

221. Gallai plant o rai cymunedau hefyd gael eu cam-drin gan gyflawnwyr a fydd yn camfanteisio ar gysyniadau o gywilydd ac anrhydedd. Mae'n bosibl y bydd ofn ynghylch priodas dan orfod neu'r hyn a elwir yn drais 'ar sail anrhydedd' gael eu defnyddio i baratoi, tawelu a bygwth plant[143].

222. Wrth ddiwallu anghenion gofal a chymorth plentyn cymunedau lleiafrifoedd ethnig, gallai fod yn angenrheidiol ceisio cyngor gwasanaethau cymunedau lleiafrifoedd ethnig perthnasol[144] a, lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol, gofyn am eu cymorth.

223. Gall plant sy'n cael eu masnachu o dramor ddod i'r DU drwy ffyrdd amrywiol a gallant gael eu masnachu i'r DU er mwyn eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol. Mae rhai'n dod i'r DU yn ddirgel fel ceiswyr lloches ar eu pen eu hunain, neu fel myfyrwyr neu ymwelwyr. Daw plant hefyd i'r wlad gydag oedolion sy'n nodi'n anwir fod y plentyn yn ddibynnydd iddynt, neu maent yn cwrdd ag oedolyn yn y maes awyr sy'n honni ei fod yn berthynas. Amcangyfrifir bod 60% o'r dioddefwyr masnachu plant a amheuir sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol yn mynd ar goll[145]. Bydd y gwasanaeth Gwarcheidwaid Masnachu Plant Annibynnol yn helpu i sicrhau bod gan y plentyn lais yn y cynlluniau a wneir ar ei gyfer, yn darparu cymorth er mwyn cadw plant yn ddiogel, ac yn gweithio tuag at atal ailfasnachu.

224. Mae'r rhain yn bryderon canolog ac amlwg y mae angen mynd i'r afael â nhw wrth gynllunio ar gyfer anghenion gofal a chymorth plant sy'n cael eu masnachu i'r DU o dramor, gan gynnwys ar gyfer llawer brosesau sy'n gysylltiedig â statws Plant ar eu Pen eu Hunain yn Ceisio Lloches. Mae canllawiau ar gael gan Lywodraeth Cymru, Plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches: canllawiau i weithwyr proffesiynol. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod rhaid i ymarferwyr ddal i ystyried y mesurau a fydd yn cael eu defnyddio i ymateb i anghenion sy'n gysylltiedig â cham-drin drwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant, fel rhan o'u gwaith cynllunio gyda'r plentyn ac ar gyfer y plentyn.

Gweithio gyda theuluoedd

225. Yn draddodiadol, mae'r system amddiffyn plant wedi canolbwyntio ar y cam-drin a'r esgeulustod sy'n digwydd yn y teulu yn hytrach na'r cam-drin y tu allan i'r teulu sy'n gyffredin mewn achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant (er hynny, fel y trafodwyd ym Mhennod 1, gall aelodau o'r teulu fod yn gyflawnwyr camfanteisio'n rhywiol ar blant). Mae tystiolaeth y gall ffocws gwaith ar achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn aml fod ar reoli risgiau yn gysylltiedig â'r plentyn ac nad yw'n ymgysylltu'n ddigonol â theuluoedd fel ffynhonnell gymorth bosibl er mwyn diogelu'r plentyn a diwallu ei anghenion. Mae hyn yn cynnwys yr angen i weithio gyda theuluoedd maeth fel bod ganddynt yr wybodaeth a'r cymorth y mae arnynt eu hangen arnynt i gynorthwyo'r plant yn eu gofal.

226. Mae rhieni a gofalwyr plant sydd wedi cael eu heffeithio gan gamfanteisio rhywiol wedi sôn am 'feio teulu'r dioddefwr', teimlo nad ydynt yn cael eu cefnogi o ran rheoli'r effaith emosiynol o fod yn rhiant i blentyn a gafodd ei gam-drin drwy gamfanteisio rhywiol, ac o deimlo na wrandewir arnynt neu nad ydynt yn cael eu cymryd o ddifrif.[146]

227. Mae mabwysiadu dull cymorth teulu ehangach wrth ymateb i blant sy'n wynebu risg o gamfanteisio rhywiol neu sydd wedi cael eu cam-drin yn y modd hwn fod yn fuddiol gan fod y teuluoedd eu hunain yn gallu gweithredu fel 'asiantau newid' a chynorthwyo diogelu[147].

228. Fodd bynnag, canfu astudiaeth ymchwil yng[148] Nghymru bryderon am y risg o niwed gan rieni i ddwy ran o dair o'r plant y nodwyd eu bod yn wynebu risg o gamfanteisio rhywiol. Mae hyn yn ailddatgan yr angen i ystyried amgylchiadau unigol plant wrth gynllunio i ddiwallu anghenion gofal a chymorth. Mae angen gweithio gyda rhieni ar y risg o niwed yn y cartref, a gweithio'r un pryd gyda'r plentyn a'r rhieni ar leihau'r risg o gam-drin drwy gamfanteisio rhywiol.

Dull sy'n seiliedig ar gryfderau

229. Bydd plant sydd wedi cael profiad o gam-drin drwy gamfanteisio rhywiol wedi bod mewn sefyllfaoedd pan fyddant wedi teimlo'n ddi-rym. Mae'n bosibl y byddant wedi addasu ffyrdd o gadw rheolaeth, a bod hynny'n ymddangos yn negyddol i'r oedolion yn eu bywydau. Adroddir yn gyson bod hunan-barch isel yn nodwedd i blant sy'n cael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol.

230. Mae datblygu a gweithredu Cynllun Gofal a Chymorth ar gyfer y plentyn yn rhoi cyfle i'r plentyn deimlo y gwrandewir arno, ei fod yn bwysig, a bod ei safbwyntiau o bwys. Gall hyn wella'r tebygolrwydd y bydd yn ymgysylltu â'r cymorth a'r help i fagu hunanhyder; mae'n rhoi anghenion y plentyn yng nghanol y camau gweithredu a gymerir gan ymarferwyr. Mae defnyddio dull sy'n seiliedig ar gryfderau yn gallu gwella rhwydweithiau cymdeithasol a gwella llesiant[149].

231. Mae chwe safon wedi'u nodi ar gyfer dull sy'n seiliedig ar gryfderau.[150] Gall defnyddio'r safonau hyn helpu ymarferwyr i fynd ati i weithio gyda phlant sydd wedi cael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol:

- Mae'r plentyn yn gosod ei nodau ei hunan;
- Mae asesu yn cynnwys y cryfderau/adnoddau sydd gan y plentyn;
- Mae'r ymarferydd yn galluogi cysylltiadau cynorthwyol ag adnoddau yn yr amgylchedd (pobl, cymuned a gwasanaethau);
- Nodi mewn modd pwrpasol gryfderau'r plentyn a chryfderau amgylcheddol a sut y gallant helpu plant i gyrraedd nodau;
- Mae ffocws ar obaith a phosibilrwydd;

- Cydnabyddir bod y plentyn yn arbenigwr ar ei fywyd ei hun a bod yr ymarferydd yn gweithio gyda'r plentyn i alluogi dewis.

> Mae plant a phobl ifanc wedi esbonio:
>
> "Roedd gen i hunanhyder isel iawn a byddai ef bob amser yn dweud wrtha i am ddefnyddio fy noniau a'm talentau, ac fe wna i. Dywedodd e [ymarferydd yn y gwasanaeth cyffuriau ac alcohol] wrtha i ei fod yn falch ohono i am bwy ydw i, a dyna oeddwn i eisiau ei glywed. Bydda i bob amser yn ddiolchgar iddo am hynny."
>
> "Os ydych yn gaeth mewn sefyllfa, maen nhw [ymarferwyr mewn gwasanaeth trydydd sector arbenigol] yn gwneud i chi sylweddoli y gallwch ddod drwyddi. Maen nhw dweud 'dw i'n falch ohonot ti', maen nhw'n sôn am bethau dw i'n gallu eu gwneud."
>
> "Roedd [y berthynas â'r ymarferydd, a'i ddull gweithredu] yn rhoi gobaith i mi y byddai rhywbeth yn newid, i gario ymlaen a chadw i fynd.

(Gweler [151])

Perthynas ddibynadwy ag ymarferydd arweiniol/allweddol

232. Wrth gefnogi plant sy'n wynebu risg o gamfanteisio rhywiol neu sy'n cael eu cam-drin drwy'r dull hwn, mae angen cynnwys cyfle i'r plentyn ddatblygu perthynas o ymddiriedaeth gydag un ymarferydd cyson fel rhan o ddull cyfannol[152].

233. Mae tystiolaeth gan blant sydd wedi cael profiad o gamfanteisio rhywiol yng Nghymru[153] yn awgrymu bod perthynas gyson, gadarnhaol gydag un ymarferydd, pan fo'r plentyn yn teimlo y gwrandewir arno a'i fod o bwys, yn gallu rhoi'r cyfle i blentyn deimlo'n ddigon diogel i dderbyn cymorth.

234. Gall plant sydd wedi dioddef trawma ddangos ymddygiad sy'n emnyn ymatebion negyddol gan yr oedolion yn eu bywyd. Mae creu ymdeimlad o gynhesrwydd ac argaeledd cyson i alluogi plant i deimlo'n ddiogel yn gam hanfodol cyn iddynt deimlo y gallant dderbyn cymorth ar gyfer adferiad[154].

235. Dylai unigolyn sy'n gallu chwarae rôl ymarferydd allweddol/arweiniol gael ei nodi fel rhan o'r cynllunio gofal a chymorth i blentyn. Nid oes rhaid i'r person hwn fod yn weithiwr cymdeithasol. Fodd bynnag, y gweithiwr cymdeithasol fydd yn cadw'r cyfrifoldeb cyffredinol dros yr achos a thros ddatblygu ac adolygu'r Cynllun Gofal a Chymorth gyda'r plentyn.

236. Gallai'r Gwasanaeth Ieuenctid fod mewn sefyllfa dda i chwarae rôl ymarferydd allweddol/arweiniol wrth gyflenwi Cynllun Gofal a Chymorth amlasiantaeth. Fe wnaeth plant a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru nodi hefyd ymarferwyr trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau arbenigol ac ymarferwyr mewn gwasanaethau cyffuriau ac alcohol fel rhai nad ydynt yn barnu ac sy'n gwneud i blant deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

237. Gofynnwyd i'r plant a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad[155] beth roeddent yn ei ddisgwyl oddi wrth ymarferydd da:

- Maen nhw'n gyfeillgar ac yn barod i helpu – "Maen nhw'n fy helpu drwy fywyd fel dw i ei angen."
- Maen nhw'n eich trin â pharch – "Dylech fy nhrin fel bod dynol; nid label ydw i."
- Maen nhw'n deall – "Mae cael un unigolyn cefnogol a da yn golygu llawer – pan fydd ganddo'r amser a'r ymdrech i'w rhoi i chi."
- Maen nhw'n gwrando – "Gwrandewch arna i ac ymateb."
- Yn gadarnhaol a ddim yn barnu – "Cydnabod gwelliannau a pheidio canolbwyntio ar y negyddol."

238. Roedd cysondeb gofal yn thema gref i blant a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad; fe wnaethant sôn am newidiadau mynych i weithwyr cymdeithasol a theimlad nad oedd gan weithwyr cymdeithasol amser i'w fuddsoddi mewn perthynas â hwy. Canfu tystiolaeth o werthusiad o wasanaeth yn ymdrin ag achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, a oedd yn gweithio gyda phlant a'u teuluoedd, fod empathi, sgiliau gwrando, a pheidio â chael eich caethiwo'n ormodol gan weithdrefnau yn sgiliau allweddol a nodwyd gan deuluoedd.[156]

239. Mae ymchwil ansoddol[157] gydag ymarferwyr wedi nodi nifer o ffactorau fel rhai pwysig ar gyfer meithrin perthynas y gellir ymddiried ynddi gyda phlant sy'n agored i gamfanteisio rhywiol a cham-drin rhywiol:

- Mae amser yn hanfodol – bydd yn cymryd mwy o amser i fagu perthynas ac ennyn ymddiriedaeth plentyn sydd ag anghenion mwy cymhleth. Mae'n bosibl y bydd angen mwy o gyswllt dwys ar ddechrau'r berthynas er mwyn dangos ymrwymiad i'r plentyn. Pan fydd perthynas y gellir ymddiried ynddi wedi cael ei sefydlu, gallai fod yn bosibl lleihau lefel y cyswllt, os nad oes modd newid hyd y berthynas.

- Byddwch ar gael – mae'n bwysig fod ymarferydd yn gallu bod ar gael pan fo plentyn angen siarad ag ef, heb greu dibyniaeth. Mae hyn yn dangos ymrwymiad yr ymarferydd a'i ddiddordeb yn y plentyn. O dro i dro, efallai gallai hyn olygu trefnu ffonio nôl ond dylid gwneud pob ymdrech i gysylltu â'r plentyn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ac yn bosibl.

- Cysondeb a pharhad gofal – dyma a nodwyd fel un o'r agweddau pwysicaf ar feithrin perthynas y gellir ymddiried ynddi, yn arbennig i blant sydd wedi cael eu siomi yn eu perthynas ag oedolion yn y gorffennol.
- Dibynadwy – mae'n bwysig fod yr ymarferydd yn cyflawni'r hyn y mae'n dweud y bydd yn ei wneud a pheidio â siomi'r plentyn. Mae hyn yn golygu bod yn agored ac yn onest am gyfyngiadau proffesiynol y berthynas a pheidio â gwneud addewidion.

- Ymddygiadau ymarferydd – nid yw'n feirniadol, mae'n meddu ar empathi a sgiliau cyfathrebu da, mae'n gwrando'n astud ac yn dangos diddordeb gwirioneddol yn y plentyn.

Ymateb amlasiantaeth

240. Mae cysylltu plant yn rhagweithiol â gwasanaethau fel rhan o Gynllun Gofal a Chymorth sy'n ystyried eu hanghenion cyfannol yn bwysig o ran cynnal y diogelu[158]. Mae camau gweithredu tymor byr sy'n canolbwyntio ar beryglon cyfredol a dybryd yn bwysig ond, os ydynt yn cael eu cyflawni mewn ffordd ynysig, ni fyddant yn sicrhau diogelwch a llesiant hirdymor y plant sy'n wynebu risg ac yn cael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol.

241. Mae Smeaton (2013)*[159]* yn awgrymu bod gwaith amlasiantaeth effeithiol nid yn unig yn fuddiol ond yn rhan gynhenid o ddarparu ymatebion effeithiol. Mae'r Cod Ymarfer ar Ran 4[160] o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i Gynllun Gofal a Chymorth sicrhau bod holl rolau a chyfrifoldebau asiantaethau gwahanol sy'n cyfrannu at lesiant unigolyn yn cael eu cynnwys er mwyn hybu cydweithio a dull integredig ar gyfer cynllunio a chyflenwi gofal a chymorth.

242. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn cadw cyfrifoldeb dros ddatblygu, monitro ac adolygu'r gwaith o weithredu'r Cynllun Gofal a Chymorth. Dylai hyn gynnwys sicrhau bod y plentyn yn cael ei gynnwys yn briodol mewn penderfyniadau ynglŷn â'r Cynllun Gofal a Chymorth ac yn cael unrhyw benderfyniadau a wneir i'w gadw'n ddiogel ond efallai na fydd yn cytuno â hwy wedi'u hesbonio iddo.

243. Dylai fod gan asiantaethau a gwasanaethau sy'n gweithio gyda'r plentyn drefniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer mynegi pryderon a nodi a oes angen adolygiad o'r Cynllun Gofal a Chymorth ac i alluogi'r plentyn a'i deulu neu ddarparwr y lleoliad i fynegi pryderon newydd neu awgrymu newidiadau i'r Cynllun Gofal a Chymorth.

244. Hefyd, dylid penderfynu ai'r gweithiwr cymdeithasol sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni rôl yr ymarferydd allweddol/arweiniol. Dylai cynllunio gofal a chymorth hefyd wneud trefniadau ar gyfer gofal llai dwys pan

fo'r plentyn wedi cyrraedd sefydlogrwydd o ran ei adferiaf. Hefyd, lle y bo'n berthnasol dylid cynllunio mewn modd amserol ar gyfer pan fydd plentyn yn cyrraedd 18 oed.

245. Gall bod yn gysylltiedig ag addysg roi amddiffyniad gan ei fod yn galluogi ymdeimlad o berthyn a sefydlogrwydd ac mae'n cryfhau hunanhyder.[161] Efallai y bydd angen i ysgolion, colegau a lleoliadau addysg gael cymorth a chyngor o ran sut sydd orau i gynnwys a chynnal ymgysylltiad neu ailymgysylltiad plentyn ag addysg. Canfu ymgynghoriad ar raddfa fach a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru fod plant y camfanteisiwyd arnynt yn rhywiol yn gweld yr ysgol yn lle cadarnhaol a chefnogol.[162]

246. Yn gyffredinol, dylid ystyried a allai plentyn fod yn agored i niwed drwy gam-drin gan gyfoedion yn y lleoliad addysg. Mae adnoddau[163] ar gael ar Hwb a dylai lleoliadau gyfeirio at ganllawiau Llywodraeth *Cymru Cadw Dysgwyr yn Ddiogel* (2020).

247. Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn gysylltiedig ag effeithiau negyddol ar iechyd a llesiant corfforol a meddygol. Gall iechyd a llesiant gwael hefyd fod yn ffactor o ran gwneud plant yn agored i gam-drin neu ail achosion o gam-drin drwy gamfanteisio rhywiol. Gall plant sy'n cael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol, neu sy'n wynebu risg o hynny, ddod i gysylltiad ag amryw o wasanaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd, gan gynnwys meddygon teulu, y gwasanaeth nyrsio ysgol, gwasanaethau nyrsio plant sy'n derbyn gofal, gwasanaethau iechyd rhywiol, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, gwasanaethau ymosodiadau rhywiol, gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, a gwasanaethau brys. Mae'n bwysig fod gan y gwasanaethau hyn brosesau i gofnodi ac adrodd am bryderon diogelu yn ymwneud â phlant. Dylai ymarferwyr iechyd hefyd fod yn gyfarwydd â chanllawiau ac adnoddau sydd ar gael drwy'r Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru): Diogelu Plant

248. Dylai cynllunio gofal a chymorth gynnwys cytundeb ar rôl y gwasanaethau iechyd o ran diwallu anghenion y plentyn. Bydd gwaith i fynd i'r afael ag iechyd a llesiant corfforol a meddyliol plant, gan gynnwys unrhyw anghenion o ran camddefnyddio sylweddau, yn elfen bwysig o feithrin llesiant y plentyn a lleihau'r cam-drin sy'n parhau neu'n ailddigwydd drwy gamfanteisio rhywiol.

249. Mae'r heddlu yn debygol o gael cyswllt â llawer o blant sy'n cael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol, o ganlyniad i episodau o fynd ar goll a/neu fasnachu plant ac, mewn rhai achosion, oherwydd ymddygiad troseddol. Gall rhannu gwybodaeth gyda'r heddlu eu helpu i ymateb i ddigwyddiadau sy'n ymwneud â'r plentyn er mwyn ei gadw'n ddiogel.

250. Os yw'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn ymwneud â phlentyn, dylai gael ei gynnwys yn y trafodaethau a'r cyfarfodydd ynglŷn â chynllunio gofal a chymorth ar gyfer y plentyn lle y bo'n bosibl. Ar gyfer

plant, ac ar gyfer bechgyn yn arbennig, gallai fod hanes o ymwneud â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid cyn i'r camfanteisio rhywiol gael ei adnabod. Mae'n bosibl y bydd ymarferydd yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi datblygu perthynas gadarnhaol â'r plentyn y gellid ei harchwilio fel rôl ymarferydd allweddol/arweiniol posibl fel rhan o'r ymateb amlasiantaeth. Nid yw hyn yn golygu bod y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn cymryd cyfrifoldeb dros reoli'r achos.

251. Gallai'r Gwasanaeth Ieuenctid hefyd fod mewn sefyllfa dda i ddarparu pwynt cyswllt cyson a hyblyg â'r plentyn a dylid rhoi ystyriaeth i ymarferydd o'r Gwasanaeth Ieuenctid, o bosibl, ar gyfer y rôl ymarferydd allweddol/arweiniol fel rhan o'r ymateb amlasiantaeth i anghenion gofal a chymorth y plentyn. Bydd y Gwasanaeth Ieuenctid hefyd yn gallu cefnogi'r plentyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol cadarnhaol a magu perthynas â chymheiriaid i feithrin hunanhyder a gwella llesiant a gwydnwch.

252. Mae nifer o wasanaethau trydydd sector arbenigol ar gyfer plant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol, yn ogystal â gwasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer plant sydd wedi profi camdriniaeth a chamfanteisio rhywiol. Yn fwy cyffredinol, mae gwasanaethau trydydd sector sy'n darparu gweithgareddau ac ymgysylltiad ar gyfer plant a phobl ifanc. Dylai Cynllun Gofal a Chymorth y plentyn ystyried y cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â gwasanaethau trydydd sector, ac atgyfeiriadau iddynt, lle y bo'n briodol.

253. Mae plant wedi nodi bod y trydydd sector yn cynnig yr amser, yr hyblygrwydd a'r cysondeb y maent yn eu gwerthfawrogi mewn gwasanaethau ac maent wedi sôn am berthynas y gellir ymddiried ynddi gydag ymarferwyr sy'n gweithio mewn gwasanaethau yn y trydydd sector. Gallai ymarferwyr trydydd sector fod mewn sefyllfa dda i ddarparu'r rôl ymarferydd arweiniol/allweddol fel rhan o'r ymateb amlasiantaeth.

254. Bydd rhai plant yn byw gartref gyda'u rhieni neu aelodau eraill o'r teulu. Bydd rhai plant yn byw gyda rhieni maeth neu mewn cartref plant neu leoliad preswyl arall a bydd lleiafrif bach yn byw mewn cartref plant diogel.

255. Cyn belled ag na fydd rhannu gwybodaeth yn rhoi plentyn mewn perygl o niwed pellach, dylai rhieni ac aelodau o'r teulu gael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio ar gyfer anghenion gofal a chymorth y plentyn. Dylai'r disgwyliadau sydd ar rieni ac aelodau o'r teulu o ganlyniad i'r cynllun gael eu hesbonio'n glir iddynt. Er enghraifft, dylid cytuno ar y camau y dylai rhiant, aelod o'r teulu, gofalwr maeth neu ofalwr preswyl eu cymryd pe bai'r plentyn yn mynd ar goll a dylid ymdrechu i sicrhau bod y trefniadau hyn yn cael eu deall. Efallai y bydd gan yr oedolion hynny sydd â chyfrifoldeb dros ofal y plentyn o

ddydd i ddydd ddealltwriaeth o'r plentyn sy'n gallu llywio'r Cynllun Gofal a Chymorth mewn modd cadarnhaol.

256. Dylai'r Cynllun Gofal a Chymorth hefyd gynnwys cytundeb ynglŷn ag unrhyw gymorth ychwanegol y dylid ei ddarparu i rieni, aelodau o'r teulu, gofalwyr maeth neu ofalwyr preswyl i'w cynorthwyo i ymateb i anghenion gofal a chymorth y plentyn. Gallai hyn gynnwys hyfforddiant.

Ymateb i anghenion gofal a chymorth plant y camfanteisiwyd yn rhywiol arnynt

Er nad oes un model gwasanaeth unigol y gellir darparu tystiolaeth ar ei gyfer i gefnogi plant sydd wedi cael eu cam-drin trwy gamfanteisio rhywiol, ceir tystiolaeth fod nifer o ffactorau yn bwysig o ran llywio'r ffordd y mae ymarferwyr a gwasanaethau yn ymateb i anghenion gofal a chymorth plant yr effeithiwyd arnynt.

Wedi'i lywio gan drawma	**Yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn seiliedig ar anghenion a hunaniaeth unigol**	**Yn seiliedig ar gryfderau**	**Perthynas ddibynadwy ag ymarferydd arweiniol/allweddol**	**Ymateb amlasiantaeth**
Dewis Cydweithio Ymddiriedaeth Grymuso Diogelwch	Rhywedd Ethnigrwydd Rhywioldeb Datblygiad plant Anabledd Amgylchiadau'r teulu	Mae'r plentyn yn gosod ei nodau ei hun. Mae asesu yn cynnwys y cryfderau/adnoddau sydd gan y plentyn. Mae'r ymarferydd yn galluogi cysylltiadau cynorthwyol ag adnoddau yn yr amgylchedd (pobl, cymuned a gwasanaethau). Nodi mewn modd pwrpasol gryfderau'r plentyn a chryfderau amgylcheddol (gan gynnwys y teulu) a sut y gallant helpu plant i gyrraedd nodau. Ceir ffocws ar obaith a phosibilrwydd. Cydnabyddir bod y plentyn yn arbenigwr ar ei fywyd ei hun a bod yr ymarferydd yn gweithio gyda'r	Ymarferydd: - sydd â'r amser a'r gallu i feithrin perthynas â'r plentyn. - sydd ar gael, sy'n gyson ac yn hygyrch i'r plentyn. - nad yw'n feirniadol, sydd ag empathi a sgiliau cyfathrebu da, ac sy'n dangos diddordeb gwirioneddol yn y plentyn. - sy'n cyfathrebu â'r plentyn ac yn esbonio penderfyniadau ynghylch ei ofal a chymorth iddo. - sy'n cyflawni ar sail yr hyn y mae'n ei ddweud ac sy'n agored ac yn onest ynglŷn â chyfyngiadau proffesiynol y berthynas.	Cysylltu plant â gwasanaethau ac adnoddau teuluol/gofalwyr fel rhan o Gynllun Gofal a Chymorth sy'n ystyried eu hanghenion cyfannol.

		plentyn i alluogi dewis.		

257. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu cynnig hyfforddiant mynediad agored ar-lein i ymarferwyr ar ddiogelu pobl ifanc, a fydd ar gael yn 2021-2022. Caiff y deunyddiau hyfforddi eu llywio gan ganfyddiadau ymchwil astudiaeth (2019)[164] a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, a ystyriodd y canlyniadau i blant sy'n cael eu cam-drin gamfanteisio rhywiol.

258. Mae nifer o adnoddau ymarfer i helpu ymarferwyr i ddeall a myfyrio ar ganfyddiadau'r ymchwil a'u harfer eu hunain eisoes ar gael ar dudal prosiect Cadw'n Ddiogel Prifysgol Caerdydd.

12. Rhaid i bartneriaid diogelu perthnasol y Bwrdd Diogelu (o dan adran 139(3) o Ddeddf 2014) sicrhau bod ymarferwyr yn ymwybodol o / yn gyfarwydd â'r cyngor a ddarperir yn y canllawiau statudol hyn ar ddulliau ymarfer seiliedig ar dystiolaeth i'w defnyddio gyda phlant sy'n cael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol neu sy'n wynebu risg o gamdriniaeth o'r fath.

13. Rhaid i gynllunio gofal a chymorth ar gyfer plant sy'n cael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol neu sy'n wynebu risg o gamdriniaeth o'r fath gynnwys partneriaid diogelu perthnasol yn cydweithio i gytuno ar gynllun gofal, cymorth ac amddiffyn sy'n canolbwyntio ar y plentyn i gefnogi canlyniadau lles plant unigol yn y ffordd orau. Ni ddylai'r cynllun ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar reoli risg ac mae cyngor ar hyn wedi'i nodi yn y bennod hon.

Pennod 5

Ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant – atal troseddwyr a'u herlyn a rhoi cymorth i'r plant sydd wedi dioddef, wrth iddynt fynd drwy'r broses gyfiawnder

Plismona a chamfanteisio'n rhywiol ar blant

259. Mae canfod, atal ac erlyn troseddwyr yn rhan allweddol o'r gwaith o ddiogelu plant rhag camfanteisio rhywiol. Er nad yw yw plismona wedi'i ddatganoli, mae'r pedwar heddlu yng Nghymru a Heddlu Trafnidiaeth Prydain yn bartneriaid diogelu statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac maent yn gweithio mewn partneriaeth i ddiogelu plant yng Nghymru ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

260. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Strategaeth Troseddau Difrifol a Threfnedig yn 2018. Mae'r Swyddfa Gartref yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu i gyflawni uchelgeisiau'r strategaeth. Mae cysylltiad rhwng y strategaeth a strategaethau eraill llywodraeth y DU, gan gynnwys Strategaeth Caethwasiaeth Fodern 2014 a Strategaeth Trais Difrifol 2018, yn enwedig ar gyfer bygythiadau fel camfanteisio ar blant yn droseddol drwy linellau cyffuriau.

261. Nod trosfwaol Strategaeth Troseddau Difrifol a Threfnedig 2018 yw gwarchod dinasyddion drwy beidio â gadael unrhyw le diogel i droseddwyr difrifol a threfnedig. Ond ar gyfer y rhai sydd yn anffodus yn dod yn ddioddefwyr neu'n dystion, mae'r strategaeth yn cefnogi system a fydd yn nodi'n gyflymach y rhai a gafodd eu niweidio ac yn eu cefnogi mewn dull sydd o safon uchel yn gyson. Mae'r strategaeth yn nodi tri maes allweddol o'r niwed mwyaf: cam-drin a chamfanteisio ar blant yn rhywiol, caethwasiaeth fodern a masnachu pobl, a thwyll.

262. Mae'r Swyddfa Gartref wedi blaenoriaethu cam-drin plant yn rhywiol fel bygythiad cenedlaethol yn y Gofyniad Plismona Strategol. Mae'n rhaid i heddluoedd ddefnyddio'u sgiliau arbenigol a'u harbenigedd i'r eithaf i atal a datrys achosion o gam-drin plant yn rhywiol. Mae'r Swyddfa Gartref[165] wedi argymell y dylai heddluoedd gasglu data cadarn ar nodweddion troseddu a rhannu'r data hwn gyda phartneriaid er mwyn galluogi ymatebion lleol wedi'u targedu.

263. Mae swyddogion yr heddlu yn debygol o ddod i gysylltiad â phlant y camfanteisiwyd yn rhywiol arnynt o ganlyniad iddynt yn mynd ar goll ac yn cymryd rhan mewn ymddygiadau troseddol megis camddefnyddio sylweddau, gweithgarwch troseddol, ymwneud â gangiau, ymddygiad gwrthgymdeithasol neu gyflwyno plant eraill i'r rhai sy'n camfanteisio'n rhywiol ar blant.[166] Gall cymryd amser i ofyn cwestiynau mwy treiddiol fwrw goleuni ar y drosedd/sefyllfa

uniongyrchol, gan ddatgelu o bosibl fod y plentyn hefyd yn ddioddefwr.[167]

Gweithio mewn partneriaeth amlasiantaeth

264. Er mai'r heddlu a'r asiantaethau cyfiawnder troseddol sy'n arwain ar yr agwedd hon o'r gwaith, mae cymorth partneriaid eraill – er enghraifft, wrth gofnodi gwybodaeth a chasglu a chadw tystiolaeth – yn hanfodol hefyd. Gallai adnabod cam-drin drwy ddatgelu neu dystiolaeth arall yn aml gael ei wneud gan yr asiantaethau partner sydd eisoes mewn cysylltiad â'r plentyn.

265. Mae dulliau amlasiantaeth yn galluogi sefydliadau i gyfrannu drwy eu rôl benodedig, gan hefyd ddatblygu camau gweithredu cyffredin i amddiffyn pobl ifanc ac ymchwilio'n rhagweithiol i gyflawnwyr posibl. Mae'n bwysig felly bod asiantaethau, gan gynnwys yr heddlu, yn cofnodi gwybodaeth yn gyson ac yn ei rhannu'n rhwydd. [168]

266. Ledled Cymru, mae trefniadau rhanbarthol a lleol ar waith, sydd fel arfer yn cael eu harwain gan yr heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol, sy'n dod ag asiantaethau ynghyd mewn cyfarfodydd partneriaeth rheolaidd i drafod camfanteisio'n rhywiol ar blant a materion diogelu cysylltiedig (megis plant yn mynd ar goll, masnachu plant a chamfanteisio troseddol).

267. Mae'r trefniadau hyn yn bwysig ar gyfer llywio penderfyniadau a wnaed fel rhan o'r broses ddiogelu. Gall gwaith amlasiantaeth hefyd hwyluso rhannu gwybodaeth i lywio'r gwaith o amharu ar y troseddwr a'i erlyn.[169] Gallai'r wybodaeth gynnwys y canlynol: enwau – gan gynnwys ffugenwau, cyfeiriadau, 'mannau problemus', rhifau ffôn symudol, rhifau cofrestru ceir, a gwybodaeth am y rôl a gaiff ei chwarae gan fusnesau lleol a chysylltiadau rhwng troseddwyr o dan amheuaeth a phlant, a chysylltiadau rhwng plant gwahanol sy'n wynebu risg. Gall yr wybodaeth hon helpu i lywio datblygiad 'proffiliau problemau' rhanbarthol a gaiff eu llunio gan ddadansoddwyr yr heddlu.

268. Mae Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) yn offeryn sy'n helpu asiantaethau i rannu gwybodaeth bersonol yn effeithiol ac yn gyfreithlon. Mae'r dull cyson a gaiff ei hyrwyddo gan Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru, a'r arferion da a rennir drwy'r wefan, yn helpu sefydliadau i fodloni eu cyfrifoldebau diogelu data wrth iddynt symud at fodelau gwasanaethau cydweithredol mewn tirlun deddfwriaethol newidiol. Mae gan bob asiantaeth ei safonau sefydliadol, codau proffesiynol a moeseg a diwylliant ei hun yn ymwneud â gwybodaeth. Mae Fframwaith Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru yn darparu dull ymarferol o rannu gwybodaeth, ac mae'n darparu safonau a thempledi cyffredin ar gyfer datblygu protocolau rhannu gwybodaeth a chytundebau datgelu data. Ei nod cyffredinol yw

helpu darparwyr gwasanaethau cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau effeithiol wrth gydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithlon, sef y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018.

Amharu ar ymddygiadau cyflawnwyr

269. Dylai amharu ar droseddwyr gael ei weld yn rhan bwysig o waith lleol i fynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Er y dylai fod ymchwiliad rhagweithiol bob tro, sy'n anelu at erlyn yn llwyddiannus, gall cynllun amharu sy'n targedu troseddwyr o dan amheuaeth fod yn fuddiol iawn. Gallai cynllun amharu gynnwys nifer o weithgareddau, yn amrywio o arsylwi ar weithgareddau unigolyn, i'r defnydd o amryw o orchmynion sifil (gweler yr adran 'Troseddau' isod). Cyhoeddodd y Swyddfa Gartref Adnoddau ar gyfer Amharu ar Gamfanteisio ar Blant yn 2019.

Cefnogi plant sydd wedi dioddef cam-drin rhywiol

270. Mae tystiolaeth o'r Ymchwiliad Annibynnol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol[170] ac o waith ymchwil[171] yn nodi'r rhesymau cymhleth pam fod oedi yn aml cyn i blant ddategelu cam-drin rhywiol a pham eu bod weithiau'n tynnu'r hyn a ddywedwyd yn ôl.

271. Roedd Arolwg Troseddu Cenedlaethol Cymru a Lloegr 2015 i 2016 yn cynnwys model o gwestiynau am y tro cyntaf, a oedd yn gofyn i oedolion a oeddent wedi cael eu cam-drin pan oeddent yn blant.[172] Gofynnwyd i oroeswyr a nododd eu bod wedi dioddef ymosodiadau rhywiol pan oeddent yn blant drwy dreisio neu dreiddiad (gan gynnwys ymgeisiau) a wnaethant ddweud wrth unrhyw un am yr hyn a oedd yn digwydd iddynt adeg y cam-drin. Ni wnaeth ychydig o dan dri chwarter (74%) o'r goroeswyr ddweud wrth neb am y cam-drin pan oedd yn digwydd. Fodd bynnag, adeg y cyfweliad, roedd y rhai hynny a oedd yn 45 oed neu'n iau yn fwy tebygol o lawer na'r rhai hynny rhwng 45 a 59 oed o fod wedi dweud wrth rywun yr adeg y digwyddodd y cam-drin. Mae hyn yn dangos i raddau fod cyfraddau datgelu wedi cynyddu dros amser. Dim ond un o bob deg (10%) o holl oroeswyr ymosodiadau rhywiol pan oeddent yn blant drwy dreisio neu dreiddiad (gan gynnwys ymgeisiau) a ddywedodd wrth rywun swyddogol am y cam-drin ar y pryd, a 7% o'r rhain a roddodd wybod i'r heddlu am y cam-drin.

272. Pan fydd plant yn derbyn cymorth, mae'n bosibl y byddant yn teimlo'n ddigon diogel i ddatgelu digwyddiadau o gam-drin rhywiol i oedolyn y maent yn ymddiried ynddo. Dylai ymarferwyr ymgyfarwyddo â gwybodaeth am ba brosesau y dylid eu dilyn ar ôl datgeliad o'r fath fel y gallant ateb unrhyw gwestiynau a fydd gan y plant ar y pryd.

273. Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn cynnwys Awgrymiadau Ymarfer: 10 Egwyddor Allweddol ar gyfer Rheoli Datgelu Camdriniaeth ac Esgeulustod, sef gwybodaeth i'ch helpu i reoli datgeliadau gan blant. Mae adnoddau'r NSPCC Rhoi gwybod i blant eich bod yn gwrando yn cynnwys animeiddiad gyda chyngor ar ymdrin â datgeliadau.

274. Dylai fod cytundeb yng Nghynllun Gofal a Chymorth y plentyn o ran pwy fydd yn cyfleu'r wybodaeth i'r plentyn ynglŷn â beth fydd yn digwydd ar bob cam o unrhyw ymchwiliad troseddol sy'n gysylltiedig â datgeliad neu dystiolaeth arall. Dylai hyn gynnwys cytundeb ynglŷn â sut bydd y plentyn yn cael ei gefnogi drwy'r broses ymchwilio ac yn ystod unrhyw broses erlyn gysylltiedig. Hefyd, dylid ystyried pa gymorth y gallai'r plentyn fod ei angen pe na bai'r achos yn symud ymlaen at erlyniad troseddol neu pan nad yw'r erlyniad yn dod i ben gyda dedfryd euog ar gyfer y troseddwyr honedig.

275. Fel y nodir ym Mhennod 4, dylai anghenion y plentyn gael eu diwallu drwy Gynllun Gofal a Chymorth sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Dylai hynny ddigwydd boed ymchwiliad troseddol yn cael ei gychwyn ai peidio mewn perthynas â'r cam-drin y mae'r plentyn wedi'i brofi drwy gamfanteisio rhywiol.

Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC)

276. Pan fo plentyn yn datgelu digwyddiad(au) o gam-drin plant yn rhywiol neu lle mae tystiolaeth i awgrymu ei fod wedi cael ei gam-drin yn rhywiol, rhaid ei gyfeirio at Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC). Mae SARC yn gyfleuster pwrpasol i ddarparu gofal i gleientiaid ar unwaith ac wedi hynny, gan gynnwys cymorth meddygol, ymarferol ac emosiynol yng nghyd-destun trefniant partneriaeth rhwng yr heddlu, y maes iechyd a'r trydydd sector.

277. Bydd archwiliad pediatrig fforensig[173] yn ofynnol yn yr amgylchiadau canlynol:

- os yw plentyn wedi gwneud honiad o gam-drin rhywiol
- os oes cam-drin rhywiol wedi cael ei weld
- Os yw asiantaeth atgyfeirio yn amau'n gryf fod cam-drin rhywiol wedi digwydd.

278. Mae'r *Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: Fframwaith Cyflawni Trawslywodraethol 2018–2021*[174] yn nodi gwaith ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol i fodloni'r amcan o roi mynediad cyfartal i ddioddefwyr at adnoddau a gwasanaethau priodol o ansawdd uchel ar draws Cymru sydd wedi'u llywio gan anghenion, yn seiliedig ar gryfder ac yn ymatebol i rywedd. Dyma un o'r chwe

amcan a gynhwysir yn y Strategaeth Genedlaethol a gyhoeddir o dan adran 4 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Mae paratoadau ar y gweill i ddatblygu Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar gyfer y 5 mlynedd nesaf a bydd yn cael ei chyhoeddi erbyn diwedd 2021.

279. Mae dogfen Llywodraeth y DU, *Ending Violence against Women and Girls 2016–2020: Strategy Refresh* (2019),[175] yn amlinellu'r pileri strategol, sef atal, darparu gwasanaethau, gweithio mewn partneriaeth, a mynd ar ôl troseddwyr. Mae'r troseddau y cyfeirir atynt yn y strategaeth yn cynnwys trais rhywiol.

Cefnogi dioddefwyr sy'n blant – achosion troseddol a'r broses erlyn

280. Yn 2018 cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder Strategaeth Dioddefwyr drawslywodraethol sy'n nodi ymateb ar draws y system cyfiawnder troseddol i wella'r cymorth a gynigir i ddioddefwyr troseddau ac sy'n ymgorffori camau gweithredu gan bob asiantaeth cyfiawnder troseddol, gan gynnwys yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r llysoedd.

281. Mae'r Cod Ymarfer Statudol i Ddioddefwyr[176] Troseddau (y Cod Dioddefwyr) yn nodi'r gwasanaethau a'r safon ofynnol ar gyfer y gwasanaethau hynny y mae'n rhaid i sefydliadau (y cyfeirir atynt fel darparwyr gwasanaethau) yng Nghymru a Lloegr eu darparu i ddioddefwyr troseddau. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cynnal ymgynghoriad ar God diwygiedig, a gafodd ei osod gerbron y Senedd ar 18 Tachwedd, ac a fydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2021. Un o brif amcanion adolygu ac adolygu'r Cod yw gwneud y ddogfen yn fwy hygyrch i ddioddefwyr, gan gynnwys plant a phobl ifanc, a'i gwneud yn haws iddynt ddeall eu rôl yn y broses cyfiawnder troseddol.

282. Mae'r Cod Dioddefwyr yn cynnwys pennod yn nodi hawliau gwell i ddioddefwyr sy'n agored i niwed neu'n sy'n ofnus, gan gynnwys plant a phobl ifanc o dan 18 oed. Mae hefyd yn nodi'r 12 hawl allweddol y mae'n rhaid i bob dioddefwr eu cael ar wahanol gamau'r broses cyfiawnder troseddol:

- Gallu deall a chael eu deall
- Cael manylion y drosedd wedi'u cofnodi heb unrhyw oedi na ellir ei gyfiawnhau
- Cael yr wybodaeth sydd ei hangen wrth adrodd am drosedd
- Cael eu cyfeirio at wasnanethau sy'n cefnogi dioddefwyr a chael gwasanaethau a chymorth sy'n addas at eu hanghenion
- Cael gwybodaeth am iawndal
- Cael gwybodaeth am yr ymchwiliad a'r erlyniad
- Gwneud Datganiad Personol y Dioddefwr
- Cael gwybodaeth am y treial, proses y treial a'u rôl fel tystion

- Cael gwybodaeth am ganlyniad yr achos ac unrhyw apeliadau
- Cael eu talu am dreuliau a chael eu heiddo yn ôl
- Cael gwybodaeth am y troseddwr yn dilyn euogfarn
- Gallu gwneud cwyn am beidio â bodloni eu Hawliau

Ategir y Cod gan fersiwn addas i blant.

283. Cyflwynodd Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999[177] amryw o fesurau y gellir eu defnyddio i hwyluso'r broses o gasglu a rhoi tystiolaeth gan dystion sy'n agored i niwed ac sy'n ofnus mewn achosion troseddol. Gelwir y rhain ar y cyd yn "fesurau arbennig". Tystion sy'n agored i niwed yw'r rhai sydd o dan 18 oed neu'r rhai sydd ag anhwylder meddyliol neu anabledd corfforol. Mae mesurau arbennig yn Neddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 yn cynnwys:

- sgriniau, i gysgodi'r tyst rhag y diffynnydd;
- defnyddio cysylltiad byw – y tyst yn rhoi tystiolaeth yn ystod yr achos o'r tu allan i'r llys drwy gyswllt teledu ag ystafell y llys;
- tystiolaeth a roddir yn breifat (ar gael i rai dioddefwyr a thystion sy'n agored i niwed ac yn ofnus);
- barnwyr a bargyfreithwyr yn tynnu eu penwisg a'u gŵn;
- cyfweliad gweledol wedi'i recordio yn cael ei dderbyn fel prif dystiolaeth;
- croesholi wedi'i gofnodi ymlaen llaw (ar gael yn genedlaethol ar gyfer dioddefwyr a thystion sy'n agored i niwed yn unig);
- defnyddio cymorth cyfathrebu (megis drwy gyfathrebwr neu gyfieithydd) (dim ond ar gael i ddioddefwyr a thystion sy'n agored i niwed);
- defnyddio cyfryngwr (arbenigwr cyfathrebu) i helpu'r tyst i ddeall y cwestiynau a ofynnir iddo a rhoi ei atebion (ar gael ar gyfer dioddefwyr a thystion sy'n agored i niwed yn unig).

284. Mae Achieving Best Evidence in Criminal Proceedings: Guidance on interviewing victims and witnesses, and guidance on using special measures [178] yn rhoi canllawiau er mwyn paratoi pobl ifanc a thystion cyn achos llys. Mae'r canllawiau yn rhoi cyngor i'r rhai sy'n gyfrifol am gynnal y cyfweliadau a recordiwyd ar fideo gyda thystion sy'n agored i niwed neu dystion ofnus, yn ogystal â'r rhai sydd â'r gorchwyl o baratoi a chefnogi tystion yn ystod y broses cyfiawnder troseddol.

285. Mae *Guidelines on Prosecuting Cases of Child Sexual Abuse*[179] gan Wasanaeth Erlyn y Goron yn nodi y dylai dioddefwyr a thystion fod yn ymwybodol o'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt ar gychwyn ymchwiliad ac y dylid cynnig cymorth i'w helpu yn ystod y broses. Lle y bo'n briodol, dylai rhieni a gwarcheidwaid nad ydynt yn rhan

o’r cam-drin gael eu hysbysu o'r cychwyn cyntaf beth a ddisgwylir a'r cymorth y gellir ei gynnig. Mae canllawiau Gwasanaeth Erlyn y Goron hefyd yn nodi y dylai'r cymorth sydd ar gael i'r plant cyn, yn ystod ac ar ôl yr achos llys gael ei esbonio iddynt mewn termau sy'n briodol i'w hoedran (neu dermau sy'n briodol i'w datblygiad) fel y gallant ddeall beth sy'n cael ei drafod a, lle y bo'n bosibl ac yn briodol, dylai'r rhieni neu'r gwarcheidwaid gymryd rhan a dylai'r cymorth sydd ar gael iddynt gael ei drafod hefyd.

286. Mae cymorth i blant drwy'r achosion troseddol a'r prosesau erlyn ar gael drwy wasanaethau arbenigol. Gall gwasanaethau fel Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol Plant a Phobl Ifanc (ChISVAs) a gwasanaethau cyfatebol gefnogi dioddefwyr drwy achosion cyfiawnder troseddol a chysylltu rhwng yr heddlu, llysoedd ac asiantaethau eraill, gan weithredu fel eiriolwr dros y dioddefwr. Mae gwasanaethau fel ChISVAs yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn teimlo'n wybodus drwy gydol y broses a bod gwybodaeth ar gael iddynt.

Troseddau

Amharu ar droseddwyr

287. Mae pwerau heddlu newydd yn weithredol, sy'n caniatáu i'r heddlu gau sefydliadau y gellid eu defnyddio ar gyfer gweithgarwch rhywiol gyda phlentyn. Gall yr heddlu hefyd wneud cais am Orchymyn Atal Niwed Rhywiol (SHPOs) neu Orchmynion Risg Rhywiol (SROs) ar gyfer unrhyw unigolyn sy'n peri risg o niwed rhywiol yn y DU neu dramor. Ar gyfer Gorchmynion Risg Rhywiol, mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os nad yw'r person erioed wedi'i gael yn euog yn y DU neu dramor.

288. **Trosedd cyfathrebu'n rhywiol â phlentyn**: Fel rhan o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015, cyflwynwyd trosedd cyfathrebu'n rhywiol â phlentyn. Mae hyn yn gymwys i oedolyn sy'n cyfathrebu â phlentyn a bod y cyfathrebu hwnnw o natur rywiol neu fel pe bai wedi'i fwriadu i ennyn cyfathrebu rhywiol gan y plentyn, a’r oedolyn yn credu'n rhesymol fod y plentyn o dan 16 mlwydd oed. Roedd y Ddeddf hefyd yn diwygio Deddf Troseddau Rhywiol 2003 i’w gwneud yn drosedd i oedolyn drefnu i gwrdd â rhywun o dan 16 oed (gyda’r bwriad o wneud rhywbeth yn ystod y cyfarfod neu ar ei ôl a fyddai, pe bai’n digwydd, yn golygu cyflawni trosedd berthnasol) ar ôl cyfathrebu ag ef unwaith yn unig (o leiaf ddwywaith oedd hyn o’r blaen).

289. **Deddf Cyfathrebu 2003** – Ledled y DU, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn drosedd i gamddefnyddio rhwydwaith cyfathrebu cyhoeddus. Mae adran 127 yn benodol yn ei gwneud yn drosedd

anfon neges electronig sy'n dramgwyddus iawn neu o natur anweddus, anllad neu fygythiol.

290. **Deddf Cyfathrebu Maleisus 1988** – Yng Nghymru a Lloegr, mae Deddf Cyfathrebu Maleisus 1988 yn ei gwneud yn drosedd anfon cyfathrebiad gyda'r bwriad o achosi gofid neu bryder.

291. Ar draws y DU, mae'r ddeddfwriaeth sy'n nodi troseddau rhywiol yn berthnasol i gam-drin plant yn rhywiol ar-lein yn ogystal, gan gynnwys:

- cyfathrebu'n rhywiol â phlentyn;
- achosi neu annog plentyn i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol;
- achosi plentyn i wylio gweithred rywiol;
- talu am wasanaethau rhywiol plentyn;
- achosi neu annog camfanteisio'n rhywiol ar blentyn;
- cymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol ym mhresenoldeb plentyn.

292. Gellir defnyddio Adran 2 o Ddeddf Herwgydio Plant 1984 i amharu ar gyswllt rhwng oedolyn a phlentyn neu berson ifanc pan fo'r plentyn o dan 16 oed neu'n iau, drwy hysbysiadau Adran 2. Mae'n drosedd i unigolyn nad yw'n gysylltiedig â'r plentyn fynd â'r plentyn i ffwrdd 'heb awdurdod cyfreithiol'. Mewn achosion o'r fath, caiff yr heddlu symud y plentyn i fan diogel a rhoi rhybudd ffurfiol i'r troseddwr. Er nad yw cwyn gan y plentyn yn ofynnol ar gyfer yr achosion hyn, mae'n ofynnol i riant neu warcheidwad y plentyn wneud datganiad. Er nad ydynt yn ddatrysiad hirdymor i'r broblem, mae hysbysiadau Adran 2 yn offeryn defnyddiol o ran torri'r cyswllt ar unwaith rhwng y plentyn a'r unigolyn sy'n camfanteisio arno. Maent hefyd yn ddefnyddiol er mwyn sicrhau na all y troseddwr sydd o dan amheuaeth honni nad oedd yn ymwybodol o oedran y plentyn. Bydd manylion y troseddwr hefyd yn cael eu rhoi yn system gyfrifiadurol genedlaethol yr heddlu.

Deddf Troseddau Rhywiol 2003

293. Gallai'r rhai sy'n camfanteisio'n rhywiol ar blant gyflawni un neu fwy o amrywiaeth o droseddau, y mae rhai'n fwy penodol gysylltiedig nag eraill â'r cam-drin. Dylai'r heddlu ac asiantaethau eraill gadw mewn cof yr amrywiaeth lawn o droseddau a allai fod yn berthnasol. Mae Deddf Troseddau Rhywiol 2003 yn cynnwys tri chategori eang o droseddau rhywiol penodol yn erbyn plant:

- troseddau yn erbyn plant o dan 13 oed (adrannau 5–8 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003) – mae gweithgarwch

rhywiol gyda phlentyn o dan 13 oed yn drosedd ni waeth os oes cydsyniad na beth mae'r diffynnydd yn ei dybio yw oedran y plentyn. Y troseddau yw treisio, ymosodiad drwy dreiddiad, ymosodiad rhywiol, ac achosi neu annog plentyn o dan 13 oed i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol. Y ddedfryd fwyaf am y troseddau yw carchar am oes neu 14 mlynedd yn y carchar, gan ddibynnu pa drosedd sy'n gymwys;

- troseddau yn erbyn plant o dan 16 oed (adrannau 9–15 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003) – mae'r troseddau hyn yn gymwys ni waeth a wnaeth y plentyn gydsynio i'r gweithgarwch rhywiol ond, yn wahanol i'r troseddau sy'n ymwneud â phlant o dan 13 oed, nid oes trosedd wedi'i chyflawni os oedd y diffynnydd yn credu'n rhesymol fod y dioddefwr yn 16 oed neu'n hŷn. Mae'r troseddau fel a ganlyn: gweithgarwch rhywiol gyda phlentyn, achosi neu annog plentyn i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol, cymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol ym mhresenoldeb plentyn, achosi plentyn i wylio gweithred rywiol, trefnu neu hwyluso comisiynu trosedd rywiol gyda phlentyn, a chwrdd â phlentyn yn dilyn proses o'i baratoi'n rhywiol (o dan Adran 15, mae trosedd yn cael ei chyflawni os yw oedolyn yn cyfathrebu â phlentyn ar ddau achlysur blaenorol o leiaf ac yna'n cyfarfod â'r plentyn, yn trefnu cyfarfod â'r plentyn, neu'n teithio i gyfarfod o'r fath (yr oedolyn neu'r plentyn) lle bo'r oedolyn yn bwriadu cyflawni trosedd rywiol. Y ddedfryd fwyaf ar gyfer y troseddau hyn yw 10 neu 14 mlynedd o garchar, gan ddibynnu ar ba drosedd sy'n gymwys. Pan fo'r troseddwr yn iau na 18 oed, y ddedfryd fwyaf yw pum mlynedd o garchar;
- troseddau yn erbyn plant o dan 18 oed – mae llawer o droseddau rhywiol o dan Ddeddf 2003 sy'n gymwys i'r holl blant o dan 18 oed. Mae'r rhain yn cynnwys troseddau rhywiol pan fo camddefnyddio safle o ymddiriedaeth (adrannau 16–24) a throseddau rhywiol teuluol yn cynnwys plant (Adrannau 25–29).

294. O ran pob plentyn sy'n 13 oed neu'n hŷn, mae'r troseddau cyffredinol heb gydsyniad yn adrannau 1–4 o Ddeddf 2003 hefyd yn berthnasol, sef treisio, ymosodiad drwy dreiddiad, ymosodiad rhywiol, ac achosi i unigolyn gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol heb gydsyniad. Mae'r troseddau hyn i gyd yn ei gwneud yn ofynnol nad oedd y dioddefwr yn cydsynio i'r gweithgarwch rhywiol ac nad oedd y diffynnydd yn credu'n rhesymol fod y dioddefwr yn cydsynio. Bydd p'un ai bod gan unigolyn sy'n 14–17 oed y gallu i gydsynio a ph'un ai a oedd y diffynnydd yn credu'n rhesymol fod y dioddefwr wedi cydsynio yn ffaith i benderfynu arni gan y llys ymhob achos.

Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015

295. Cyfunodd Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 droseddau caethwasiaeth a masnachu presennol[180] i greu dwy drosedd:

- Masnachu pobl, a ddiffinnir fel "*arranging or facilitating the Travel of another person with a view to exploitation*". Mae teithio yn cynnwys teithio o fewn gwlad, nid dim ond ar draws ffiniau rhyngwladol.

- Caethwasiaeth, caethiwed a gwaith dan orfod – mae'r ddeddf yn nodi bod gan y drosedd hon yr un ystyr ag at ddibenion Erthygl 4 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

14. Rhaid i bartneriaid perthnasol y Bwrdd Diogelu (o dan adran 139(3) o Ddeddf 2014) ledled Cymru gytuno ar drefniadau rhanbarthol i ddwyn ynghyd asiantaethau mewn cyfarfodydd partneriaeth rheolaidd i ystyried camfanteisio'n rhywiol ar blant a materion diogelu cysylltiedig fel plant yn mynd ar goll; masnachu plant a chamfanteisio troseddol ar blant er mwyn:

- **helpu i gydlynu asiantaethau sy'n bartneriaid i gefnogi ymatebion effeithiol i gamfanteisio'n rhywiol ar blant a materion diogelu cysylltiedig;**
- **rhannu a chofnodi gwybodaeth am achosion unigol a chysylltiedig;**
- **cefnogi dysgu amlasiantaeth wrth ymateb i batrymau camfanteisio'n rhywiol ar blant yn lleol ac yn rhanbarthol a materion diogelu cysylltiedig ac ymatebion statudol;**
- **cofnodi, cydlynu ac adolygu ymatebion i gamfanteisio'n rhywiol ar blant a materion diogelu cysylltiedig;**
- **nodi cyflawnwyr, cysylltiadau, lleoliadau a phatrymau troseddu a chefnogi amharu ar gyflawnwyr;**
- **ystyried y ffyrdd y gall diogelu cyd-destunol lywio cynlluniau rhanbarthol i amharu ar gyflawnwyr ac atal camdriniaeth.**

Dylai'r trefniadau hyn fod yn ychwanegol at gynllunio gofal a chymorth ar gyfer plant unigol ac nid ydynt yn cymryd eu lle.

[1] Department of Health, (2000) *Safeguarding Children Involved in Prostitution*, London:DOH

[2] Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008

[3] Llywodraeth Cymru (2011), *Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol Canllawiau ar Ddiogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

[4] https://www.gov.uk/government/publications/group-based-child-sexual-exploitation-characteristics-of-offending

[5] Hallett, S; Crowley, A; Deerfield, K; Staples; E ac A. Rees (2017), *Adolygiad o'r Canllawiau Statudol ar Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol yng Nghymru*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR, rhif 69/2017 https://llyw.cymru/adolygu-canllawiau-statudol-cymru-ar-amddiffyn-plant-phobl-ifanc-rhag-camfanteisio-rhywiol

[6] A Typology of Modern Slavery Offences in the UK (2017)

[7] Hallett, S. (2017),*Making Sense of Child Sexual exploitation: Exchange, Abuse and Young People, Bryste.* Bryste: Policy Press.

[8] Fox, C. a Kalkan, G. (2016) *Barnardo's Survey on Online Grooming* Barkingside: Barnardo's

[9] https://www.nationalcrimeagency.gov.uk/who-we-are/publications/234-county-lines-violen-ce-exploitation-drug-supply-2017/file

[10] Barnardo's (2018), Boys 2: Supporting Boys and Young Men to Develop Healthy Sexual Relationships, Key Findings, Barkingside: Barnardo's)

[11] http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/88545

[12] J. Lerpiniere ac eraill (2013), *Research Report RR-2013-05: The Sexual Exploitation of Looked After Children in Scotland: A scoping study to inform methodology for inspection* (Yr Alban: CELCIS) *https://www.celcis.org/files/9114/3877/4674/Sexual-Exploitation-of-Looked-After-Children.pdf*

[13] https://www.manchestersafeguardingboards.co.uk/wp-content/uploads/2016/06/Licensing-LGA-CSE-myth-v-reality.pdf

[14] https://www.csacentre.org.uk/resources/key-messages/social-workers/

[15] Cockabin, E; Brayley, H. ac Ashby, M. (2014), *Not just a girl thing: A large-scale comparison of male and female users of child sexual exploitation services in the UK* (Barkingside: Barnardo's)

[16] M. Thomas ac E. Speyer (2016), *'Wnes i Erioed Siarad am y Peth' …* Helpu bechgyn a dynion ifanc a ecsbloetiwyd yn rhywiol yng Nghymru (Caerdydd: Barnardo's Cymru)

[17] A. Franklin, P. Raws ac E. Smeaton (2015),**Unprotected, overprotected:** *meeting the needs of young people with learning disabilities who experience, or are at risk of, sexual exploitation.* Cafodd yr adroddiad ei gomisiynu gan Comic Relief a'i greu gan Barnardo's, Cymdeithas y Plant, Sefydliad Anableddau Dysgu Prydain (BILD), Paradigm Research a Phrifysgol Coventry.

[18] *Miller, D; a Brown, J (2014), 'We have the right to be safe': Protecting disabled children from abuse.*

[19] *C.* Fox (2016), *'It's not on the radar': The hidden diversity of children and young people at risk of sexual exploitation in England* (Barkingside: Barnardo's)

[20] S. Gohir (2013), *Unheard Voices: The Sexual Exploitation of Asian Girls and Young Women*, MUSLIM WOMEN'S NETWORK UK, http://www.mwnuk.co.uk//go_files/resources/UnheardVoices.pdf

[21] C. Fox (2016) – gweler 19 uchod

[22] K. Walker, C. Pilinger ac S. Brown (2018), Characteristics and motivations of perpetrators of child sexual exploitation:*A rapid evidence assessment of research*, Canolfan Arbenigedd Cam-drin Plant yn Rhywiol, Prifysgol Coventry https://www.csacentre.org.uk/csa-centre-prod/assets/File/CSE%20perpetrators%202%20-%20Characteristics%20and%20motivations%20of%20perpetrators%20of%20CSE.pdf

[23] S. Berelowitz ac eraill (2013), *"If only someone had listened"*, *Office of the Children's Commissioner's Inquiry into Child Sexual Exploitation in Gangs and Groups Final Report*

[24] C. Firmin a G. Curtis, Misunderstood Partnership (2015), *Practitioner Briefing #1: What is peer-on-peer abuse?* Prifysgol Swydd Bedford

[25] https://contextualsafeguarding.org.uk/about/what-is-contextual-safeguarding

[26] Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan - Diogelu plant lle mae pryderon ynghylch ymddygiad rhywiol niweidiol https://www.diogelu.cymru/chi/c6/c6.p7.html

[27]S. Berelowitz ac eraill (2012) "*I thought I was the only one in the world"*, *The Office of the Children's Commissioner's Inquiryinto Child Sexual Exploitation In Gangs and GroupsInterim report* https://static.lgfl.net/LgflNet/downloads/online-safety/LGfL-OS-Research-Archive-2012-Childrens-Commissioner-CSE.pdf

[28] https://www.csacentre.org.uk/research-publications/perpetrator-research/

[29] https://www.gov.uk/government/publications/group-based-child-sexual-exploitation-characteristics-of-offending

[30] S.Hallett, (2017) *Disclosure or exposure? Why young people may not seek or want your help (at first): A Briefing for the Police*. Cynhyrchwyd y papur briffio fel rhan o'r Ganolfan Wybodaeth Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Phlismona ac fe'i hariannwyd gan y Coleg Plismona, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE) a'r Swyddfa Gartref.
https://www.uobcsepolicinghub.org.uk/assets/documents/Disclosure-or-exposure-briefing-final.pdf

[31] NSPCC (2019), *Let children know you're listening*,
https://learning.nspcc.org.uk/research-resources/2019/let-children-know-you-re-listening/

[32] Hallett, S. (2017) – gweler 4 uchod.

[33] Gweler 1 uchod Hallett, S. (PI), Robinson, A., a Verbruggen, J., (2016-18), *Cadw'n Ddiogel? Dadansoddiad o ganlyniadau gwaith gyda phobl ifanc yng Nghymru sydd wedi dioddef camfanteisio rhywiol*. Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

[34] https://learning.nspcc.org.uk/research-resources/2019/let-children-know-you-re-listening/

[35] Hallett, S; Crowley, A; Deerfield, K; Staples; E ac A. Rees (2017), *Adolygiad o'r Canllawiau Statudol ar Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol yng Nghymru*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR, rhif 69/2017
https://llyw.cymru/adolygu-canllawiau-statudol-cymru-ar-amddiffyn-plant-phobl-ifanc-rhag-camfanteisio-rhywiol

[36] https://www.csacentre.org.uk/resources/blog/risk-tools-risk-talk-and-relationships/
https://www.csacentre.org.uk/our-research/responding-to-csa/risk-tools/

[37] Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan – diogelu plant rhag camfanteisio rhywiol
https://www.diogelu.cymru/chi/c6/c6.p10.html

[38] Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan – diogelu plant rhag camfanteisio rhywiol
https://www.diogelu.cymru/chi/c6/c6.p10.html

[39] https://llyw.cymru/atal-ac-ymateb-i-gam-drin-plant-yn-rhywiol-cynllun-gweithredu-cenedlaethol

[40] https://hwb.gov.wales/parthau/cadwn-ddiogel-ar-lein/cynllun-gweithredu-diogelwch-ar-lein-ar-gyfer-plant-a-phobl-ifanc/

[41] Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyhoeddiadau ACEs
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/88522

[42] Naramore, Rachel & Bright, Melissa & Epps, Nathan & S Hardt, Nancy. (2015). Youth Arrested for Trading Sex Have the Highest Rates of Childhood Adversity: A

Statewide Study of Juvenile Offenders. *Sexual abuse : a journal of research and treatment.* 29. 10.1177/1079063215603064.

[43] Hallett (2017) – gweler 4 uchod.

[44] Research in Practice (2017), *Working Effectively to Address Child Sexual Exploitation: An evidence scope*, Cynhyrchwyd gan Research in Practice fel rhan o'r Greater Manchester CSE Project, a ariannwyd gan Children's Social Care Innovation Programme yr Adran Addysg. Adolygwyd ym mis Medi 2017

[45] Hallett,S. Deerfield, K., a Hudson, K. (2020) *Y Gwella: Adroddiad Gwerthuso* Prifysgol Caerdydd

[46] Hallett,,S; Deerfield,K; and Hudson,K. (2019) 'The same but different? Exploring the links between gender, trauma, sexual exploitation and harmful sexual behaviours'. I'w gyhoeddi. *Child Abuse Review* , Volume 28, Issue 6,

[47] Bellis, M; Hardcastell,K; Ford, K; Ashton, K; Quigg,Z. a Butler,N. Does continuous trusted adult support in childhood impart life-course resilience against adverse childhood experiences – a retrospective study on adult health-harming behaviours and mental well-being , BMC Psychiatry BMC series, 2017:110

[48]Hanson.E, (2016), Golygu gan S. Hanson, E, (2016), Golygwyd gan S. Flood a D. Holmes, *Exploring the relationship between neglect and child sexual exploitation: Evidence Scope 1,* Research in Practice, NSPCC, Action for Children. https://www.nspcc.org.uk/globalassets/documents/research-reports/neglect-child-sexual-exploitation-evidence-scope-1.pdf

[49] Walsh, F. (1996), Family resilience: Walsh, F. (1996), Family Resilience: A Concept and its Application, Family Process 35:261-281, 1996

[50] Walsh, F. (2016). 2016), Family resilience: a developmental systems framework. *European Journal of Developmental Psychology*. 1-12.10.1080/17405629.2016.1154

[51] Hallett, S. (PI), Forrester, D., a Verbruggen, J. (2016-18) *Cadw'n Ddiogel? Dadansoddiad o ganlyniadau gwaith gyda phobl ifanc yng Nghymru sydd wedi dioddef camfanteisio rhywiol*. Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

[52] Early Intervention Foundation (2016), Foundations for Life:*What works to support parent child interaction in the early years*, http://www.eif.org.uk/wp-content/uploads/foundationsforlife/EIF_Foundations-for-Life.pdf

[53] https://llyw.cymru/dechraun-deg-canllawiau

[54] Hallett, S. (2016) 'An Uncomfortable Comfortableness': 'Care', Child Protection and Child Sexual Exploitation"
The British Journal of Social Work, Cyfrol 46, Rhifyn 7, 1 Hydref 2016, tudalennau 2137–2152.

[55] Hallett S. (2015), Child Sexual Exploitation:*Problems and solutions from the perspectives of young people and professionals.* (Briff ymchwil CASCADE) Caerdydd: Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol i Blant: http://sites.cardiff.ac.uk/cascade/files/2014/10/Briefing-3.pdf
Coy M. (2008), 'Young women, local authority care and selling sex: Findings from research', *British Journal of Social Work*, 38 (7) 1408-1424.
Shuker L (2013a), 'Constructs of Safety for Children in Care Affected by Sexual Exploitation', yn Melrose M a Pearce J (goln), *Critical Perspectives on Child Sexual Exploitation and Related Trafficking*. Palgrave Connect, tt.125-138.

[56] Burch, K., Daru, J. a Taylor, V. (2018). *2018),* Analysis of outcomes for children and young people 4 to 5 years after a final Care Order. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 29/2018:

[57] Sharp-Jeffs, N.; Coy, M. a Kelly, L. (2017), *Key messages from research on child sexual exploitation: Professionals in school settings*, Centre of Expertise on Child Sexual Abuse, Prifysgol Fetropolitan Llundain

[58] Casey, L. (2015), Reflections on child sexual exploitation, Llundain: Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol

[59] Sharp-Jeffs, N; Coy, M a Kelly, L. (2017), Key messages from research on child sexual exploitation: Professionals in school settings*, Prifysgol Fetropolitan* Llundain, Centre for Expertise on child sexual abuse

[60] Sharp-Jeffs, N. ac eraill (2017) – gweler 51 uchod

[61] https://llyw.cymru/sefydlu-dull-ysgol-gyfan-o-ymdrin-ag-iechyd-lles-meddyliol

[62] Bellis et al. (Bellis ac eraill (2018), 'Adverse childhood experiences and sources of childhood resilience: a retrospective study of their combined relationships with child health and educational attendance'BMC Public Health*, 2018* 18:792

[63] https://llyw.cymru/trais-yn-erbyn-menywod-cam-drin-domestig-thrais-rhywiol-canllawiau-ar-gyfer-strategaethau-lleol

[64] Firmin, C. (2017), *Contextual Safeguarding: An overview of the operational, strategic and conceptual framework,* Institute of Applied Social Research a'r International Centre: Researching Child Sexual Abuse, Violence and Trafficking

[65] Panel o Arbenigwyr Addysg Rhyw a Pherthnasoedd (2017), *Dyfodol y Cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yng Nghymru: Argymhellion y Panel o Arbenigwyr Addysg Rhyw a Pherthnasoedd,* Caerdydd: Llywodraeth Cymru

[66] https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-02/addysg-cydberthynas-a-rhywioldeb-mewn-ysgolion-canllawiau.pdf

[67] https://llyw.cymru/cadw-dysgwyr-yn-ddiogel

[68] Sharp-Jeffs ac eraill (2017) – gweler 57 uchod

[69] https://hwb.gov.wales/search/?query=diogelu

[70] https://llyw.cymru/addysg-heblaw-yn-yr-ysgol-eotas-fframwaith-gweithredu

[71] https://www.csacentre.org.uk/research-publications/key-messages/professionals-in-school-settings/

[72] https://www.rip.org.uk/news-and-views/blog/blog-helping-children-through-the-trauma/

[73] https://www.nspcc.org.uk/services-and-resources/childrens-services/learning-and-evidence/letting-the-future-in-evidence-impact-and-evaluation/

[74] https://llyw.cymru/atal-ac-ymateb-i-gam-drin-plant-yn-rhywiol-cynllun-gweithredu-cenedlaethol

[75] http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/93471

[76] http://www.safelives.org.uk/sites/default/files/resources/SafeLives%20research%20briefing%20-%20young%20people%20who%20misuse%20substances.pdf

[77] Real Voices: Child sexual exploitation in Greater Manchester:
An independent report by Ann Coffey, MP. October 2014

[78] https://csnetwork.org.uk/

[79] https://saferlondon.org.uk/wp-content/uploads/2020/04/Safeguarding-in-Public-Spaces-Toolkit-Draft-8-low-res-1.pdf

[80] https://www.gov.uk/government/publications/group-based-child-sexual-exploitation-characteristics-of-offending

[81] Kerr. J, Patel. R, Lovbakke. J, Paskell. C a Barnard, M. (2017), *Responding to child sexual abuse and exploitation in the night-time economy* NatCen Social Research
Centre of Expertise on Child Sexual Abuse

[82] https://www.csnetwork.org.uk/en/resources/practice-guides-and-resources/intervention-catalogue

[83] Gweler 74 uchod

[84] https://www.gov.uk/government/publications/group-based-child-sexual-exploitation-characteristics-of-offending

[85] https://llyw.cymru/atal-ac-ymateb-i-gam-drin-plant-yn-rhywiol-cynllun-gweithredu-cenedlaethol

[86] https://www.csnetwork.org.uk/en/toolkit/assessment/neighbourhood-assessment-toolki

[87] https://gov.wales/preventing-and-responding-child-sexual-abuse-national-action-plan

[88] https://llyw.cymru/atal-ac-ymateb-i-gam-drin-plant-yn-rhywiol-cynllun-gweithredu-cenedlaethol

[89] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-04/adolygiad-o-effaith-strategaeth-genedlaethol-gwaith-ieuenctid-ar-gyfer-cymru-2014-2018.pdf

[90] https://llyw.cymru/strategaeth-gwaith-ieuenctid-2019

[91] Baglivio, M; Wolf, K; Piquero, A. ac Epps, N. (2015), 'The Relationship between Adverse Childhood Experiences (ACE) and Juvenile Offending Trajectories in a Juvenile Offender Sample', Journal of Criminal Justice *Cyfrol 43, Rhifyn 3*, Mai–Mehefin 2015, tudalennau 229–241

[92] Cockbain, E; Brayley, H; Ashby, M (2014), Not just a girl thing:*A large-scale comparison of male and female users of child sexual exploitation services in the UK*. Barnardo's, Llundain.

[93] https://llyw.cymru/cefnogi-troseddwyr-ifanc

[94] https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/170328-evaluation-enhanced-case-management-approach-annex1-en.pdf

[95] 2016), You can trust me … Young people going missing and at risk of, or abused through, child sexual exploitation in North Wales, Caerdydd: *Barnardo's Cymru*

[96] The Children's Society (2011), *Make Runaways Safe*, t. 7

[97] https://www.childrenssociety.org.uk/sites/default/files/2020-10/no-place-at-home.pdf

[98] K. Shavev Greene and F. Toscano, 2016, *Summit report: best practices and key challenges on interagency cooperation to safeguard unaccompanied children from going missing*

[99] Pwyllgor Materion Cartref Tŷ'r Cyffredin (2009) *The Trade in Human Beings: Human Trafficking in the UK Sixth Report of Session 2008–09, Volume 1* Llundain: Tŷ'r Cyffredin

[100] https://llyw.cymru/asesu-anghenion-gofal-chymorth-yr-unigolyn-cod-ymarfer

[101] Hallett, S; Crowley, A; Deerfield, K; Staples; E ac A. Rees (2017), *Adolygiad o'r Canllawiau Statudol ar Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol yng*

Nghymru, Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 692017

[102] Gweler 74 uchod

[103] Hallett, S., Verbruggen, J., Buckley, K., a Robinson, A. (2019) *Cadw'n Ddiogel? Dadansoddiad o ganlyniadau gwaith gyda phobl ifanc yng Nghymru sydd wedi dioddef camfanteisio rhywiol,* Prifysgol Caerdydd

[104] Trickett, P. K., Negriff, S., Ji, J., a Peckins, M. (2011). 2011), Child maltreatment and adolescent development. *Journal of Research on Adolescence*, *21*(1), 3-20.

[105] Hallett, S. (PI), Robinson, A., a Verbruggen, J. ,2016-18, *Cadw'n Ddiogel? Dadansoddiad o ganlyniadau gwaith gyda phobl ifanc yng Nghymru sydd wedi dioddef camfanteisio rhywiol*. Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

[106] Hallett, S. (2016) 'An Uncomfortable Comfortableness': 'Care', Child Protection and Child Sexual Exploitation"
The British Journal of Social Work, Cyfrol 46, Rhifyn 7, 1 Hydref 2016, tudalennau 2137–2152.

[107] Sharp-Jeffs, N; Coy, M; a Kelly, L., 2017, *Key messages from research on child sexual exploitation: Social Workers*, Canolfan Arbenigol Cam-drin Plant yn Rhywiol, Prifysgol Fetropolitan Llundain

[108] Mae'r rhan fwyaf o'r dyfyniadau gan bobl ifanc a ddefnyddir yn y bennod hon yn deillio o Hallett, S. (2017), *Making Sense of Child Sexual exploitation*:*Exchange, Abuse and Young People*, Bryste: Policy Press.

[109] Dynamix (2018), *How do we measure children by what they think, and not by what their experiences are?* Ymgynghoriad diogelu gyda phobl ifanc a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.

[110] Gweler Trickett, P. ac eraill (2011) – gweler 95 uchod

[111] Mae'r rhan fwyaf o'r dyfyniadau gan bobl ifanc a ddefnyddir yn y bennod hon yn deillio o Hallett, S. (2017), *Making Sense of Child Sexual exploitation:Exchange, Abuse and Young People*, Bryste: Policy Press.

[112] Hallett, S. (PI), Forrester, D., a Verbruggen, J. 2016–18, *Cadw'n Ddiogel? Dadansoddiad o ganlyniadau gwaith gyda phobl ifanc yng Nghymru sydd wedi dioddef camfanteisio rhywiol*. Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

[113] Research in Practice (adolygwyd yn 2017), Working Effectively to Address Child Sexual Exploitation:*An evidence scope*. Cynhyrchwyd gan Research in Practice fel rhan o'r Greater Manchester CSE Project, a ariannwyd gan Raglen Arloesi Gofal Cymdeithasol yr Adran Addysg

https://www.rip.org.uk/resources/publications/evidence-scopes/working-effectively-to-address-child-sexual-exploitation-evidence-scope-2017--

[114] Dynamix (2018), *How do we measure children by what they think, and not by what their experiences are?* Ymgynghoriad diogelu gyda phobl ifanc a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.

[115] Gweler 106 uchod

[116] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/676421/Time_to_listen__a_joined_up_response_to_child_sexual_exploitation_and_missing_children.pdf

[117] Hanson, E a Holmes, D (2014), *That Difficult Age: Developing a more effective response to risks in adolescence*, Research in Practice, https://www.rip.org.uk/news-and-views/latest-news/evidence-scope-risks-in-adolescence/

[118] Hallett, S. (2017), Making Sense of Child Sexual exploitation:*Exchange, Abuse and Young People*, Bryste: Policy Press

[119] *The Care Crisis Review, Options for Change ,* 2018, Llundain: Family Rights Group

[120] Hallett, S; Crowley, A; Deerfield, K; Staples; E ac A. Rees (2017), *Review of the Wales Safeguarding Children and Young People from Sexual Exploitation (CSE) Statutory Guidance*,, Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 692017

[121] Munro, E. (2011), *The Munro Review of Child Protection: Final Report A child-centred system* , Llundain: Yr Adran Addysg

[122] Mae'r rhan fwyaf o ddyfyniadau gan bobl ifanc a ddefnyddir yn y bennod hon yn deillio o Hallett, S. (2017), *Making Sense of Child Sexual exploitation:Exchange, Abuse and Young People*, Bryste: Policy Press.

[123] Dynamix (2018), *How do we measure children by what they think, and not by what their experiences are?* Ymgynghoriad diogelu gyda phobl ifanc a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.

[124] Beech, A.; Hooper, B.; Lemington, H.; Macarion, R.; Phillips, R. a Matthews, P. (2018), *Boys2: Development of tools and resources to better identify and engage 'young men' at risk of Child Sexual Exploitation and Child Sexual Abuse*, Barkingside: Barnardo's, ariannwyd gan y Swyddfa Gartref.

[125] Comisiynydd Plant Cymru (2017), *Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru, fframwaith egwyddorol ac ymarferol ar gyfer gweithio gyda phlant, wedi'i wreiddio yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*, Comisiynydd Plant Cymru

[126] Mae'r rhan fwyaf o ddyfyniadau gan bobl ifanc a ddefnyddir yn y bennod hon yn deillio o Hallett, S. (2017), *Making Sense of Child Sexual exploitation*:*Exchange, Abuse and Young People*, Bryste: Policy Press.

[127] Gweler 119 uchod.

[128] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/mwy-na-geiriau-cynllun-gweithredu-2019-2020.pdf

[129] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/pecyn-gwybodaeth-gweithredu%E2%80%99r-cynnig-rhagweithiol-gwasanaethau-cymdeithasol-a-gofal-cymdeithasol_1.pdf

[130] https://gofalcymdeithasol.cymru/delio-a-phryderon/codau-ymarfer-a-chanllawiau#section-29491-anchor

[131] Gweler 120 uchod.

[132] Ungar, M. (2018), The differential impact of social services on young people's resilience, *Child Abuse & Neglect,* 78 (2018) tt. 4–12

[133] https://www.gov.scot/publications/adverse-childhood-experiences-aces/pages/trauma-informed-workforce/

[134] Gweler 124 uchod.

[135] Wall, L; Higgins, D a Hunter, C. (2016) *Gofal sy'n seiliedig ar drawma mewn gwasanaethau lles plant/teuluoedd, Papur Rhif*CFCA. 37 https://aifs.gov.au/cfca/publications/trauma-informed-care-child-family-welfare-services

[136] Furnivall, J. a Grant, E. (2014), Trauma sensitive practice with children in care, Insight 27 https://www.iriss.org.uk/resources/insights/trauma-sensitive-practice-children-care

[137] Franklin, A; Raws, P. a Smeaton, E. (2015), *Unprotected, overprotected: meeting the needs of young people with learning disabilities who experience, or are at risk of, sexual exploitation* , Barnardo's.

[138] Scott, S. a Bothercherby, S., gyda Ludvigsen, A. (2017), Wigan and Rochdale Child Sexual Exploitation Innovation project:*Evaluation report*, Yr Adran Addysg

[139] Beech, A.; Hooper, B.; Lemington, H.; Macarion, R.; Phillips, R. a Matthews, P. (2018), *Boys2: Development of tools and resources to better identify and engage 'young men' at risk of Child Sexual Exploitation and Child Sexual Abuse*, Barkingside: Barnardo's, ariannwyd gan y Swyddfa Gartref.

[140]Fox, C. (2016), '*It's not on the radar': The hidden diversity of children and young people at risk of sexual exploitation in England*, Barkingside: Barnardo's

[141] Walker, D. (2013), *Findings of Scoping Exercise into Practitioners['] knowledge of Child Sexual Exploitation of LGBT Young People in the North East* https://www.nr-foundation.org.uk/downloads/Report-on-Sexual-Exploitation-of-LGBT-Young-People-in-the-North-East-Jul-8714.pdf

[142] Cymdeithas y Plant, Cymorth i Ddioddefwyr a Chyngor Penaethiaid Cenedlaethol yr Heddlu (2017), *Supporting Black and Minority Ethnic Children and Young People Experiencing Child Sexual Exploitation: Guidance for Professionals*, https://www.csepoliceandprevention.org.uk/sites/default/files/cse_guidance_bame.pdf

[143] O'Neill Gutierrez, C. a Chawla, S. (2017), *The child sexual exploitation of young South Asian women in Birmingham and Coventry: Exploring professional insight into young women's hidden journeys, silence, and support*. Cymdeithas y Plant, Llundain.

[144] Gweler 132 uchod.

[145] Tŷ'r Cyffredin, Pwyllgor Materion Cartref (2009), *The Trade in Human Beings: Human Trafficking in the UK, Chweched Adroddiad Sesiwn 2008–09, Cyfrol 1* Llundain: Tŷ'r Cyffredin

[146] PACE – Parents against child sexual exploitation (2014), The Relational Safeguarding model:*Best practice in working with families affected by child sexual exploitation*, PACE http://www.paceuk.info/wp-content/uploads/2013/11/Relational-Safeguarding-Model-FINAL-PRINTED-May-2014.pdf

[147] Thomas, R. a D'Arcy, K. (2017), Combatting Child Sexual Exploitation with Young people and Parents: Contributions to a Twenty-First-Century Family Support Agenda*, The British Journal of Social Work, Rhifyn 6, Cyfrol 47, 2017*

[148] Gweler 1 uchod Hallett, S. (PI), Robinson, A., a Verbruggen, J. 2016–18, *Cadw'n Ddiogel? Dadansoddiad o ganlyniadau gwaith gyda phobl ifanc yng Nghymru sydd wedi dioddef camfanteisio rhywiol*. Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

[149] Pattoni, L. (2012), Strengths-based approaches for working with individuals,Insight 16, https://www.iriss.org.uk/resources/insights/strengths-based-approaches-working-individuals

[150] Rapp C, Saleebey D and Sullivan PW (2008) The future of strengths-based social work practice, in Saleebey D (ed) (2006) *The strengths perspective in social work practice*, (4th Ed) Boston: Pearson Education

[151] Dynamix (2018), *How do we measure children by what they think, and not by what their experiences are?* Ymgynghoriad diogelu gyda phobl ifanc a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.

[152] Christie, C. (2018), *A Trauma-informed Health and Care Approach for responding to Child Sexual Abuse and Exploitation: Current knowledge report*, Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol
http://dera.ioe.ac.uk/31703/1/trauma-informed-health-and-care-approach-report.pdf

[153] Gweler Hallett, S. (2017), Making Sense of Child Sexual exploitation:*Exchange, Abuse and Young People*, Bryste: Gwasg Polisi a ; Thomas, R. a D'Arcy, K. (2017), Combatting Child Sexual Exploitation with Young people and Parents: Contributions to a Twenty-First-Century Family Support Agenda*, The British Journal of Social Work, Rhifyn 6, Cyfrol 47, 2017* uchod

[154] Furnivall, J. a Grant, E. (2014), Trauma sensitive practice with children in care, Insight 27
https://www.iriss.org.uk/resources/insights/trauma-sensitive-practice-children-care

[155] Dynamix (2018), *How do we measure children by what they think, and not by what their experiences are?* Ymgynghoriad diogelu gyda phobl ifanc a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.

[156] Thomas, R. a D'Arcy, K. (2017), Combatting Child Sexual Exploitation with Young people and Parents: Contributions to a Twenty-First-Century Family Support Agenda*, The British Journal of Social Work, Rhifyn 6, Cyfrol 47, 2017*

[157] Lewing, B.; Doubell, L; Beevers, T. ac Acquah, D. (2018), *Building Trusted Relationships for Vulnerable Children and Young People with Public Services*, Early Intervention Foundation.

[158] Coy, M., Sharp-Jeffs, N. a Kelly, L. (2017), *Key messages from research on child sexual exploitation: Social Workers*, Canolfan Arbenigol Cam-drin Plant yn Rhywiol

[159] *Smeaton E. (2013), Running from Hate to what you Think is Love: The relationship between running away and child sexual exploitation. Barnardo's.*

[160] https://llyw.cymru/diwallu-anghenion-gofal-chymorth-pobl-cod-ymarfer

[161] Sharps-Jeff, N; Coy, M. a Kelly, L. (2017), *Key messages from research on child sexual exploitation: Professionals in school settings*, Canolfan Arbenigol Cam-drin Plant yn Rhywiol

[162] Dynamix (2018), *How do we measure children by what they think, and not by what their experiences are?* Ymgynghoriad diogelu gyda phobl ifanc a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.

[163] https://www.csnetwork.org.uk/en/toolkit/assessment/school-assessment-toolkit

[164] Hallett, S. Verbruggen, J., Buckley, K., a Robinson, A. (2019-18), *Cadw'n Ddiogel? Dadansoddiad o ganlyniadau gwaith gyda phobl ifanc yng Nghymru sydd wedi dioddef camfanteisio rhywiol, Adroddiad Ymchwill Terfynol,* Prifysgol Caerdydd

[165] https://www.gov.uk/government/publications/group-based-child-sexual-exploitation-characteristics-of-offending

[166] Bartlett, G. (2016), *Triennial analysis of serious case reviews (2011–2014): practice briefing for the police and criminal justice agencies* Totnes: Research in Practice

[167] Sharps-Jeff, N; Coy, M. a Kelly, L. (2017), *Key messages from research on child sexual exploitation: Police*, Canolfan Arbenigedd Cam-drin Plant yn Rhywiol

[168] https://www.gov.uk/government/publications/group-based-child-sexual-exploitation-characteristics-of-offending

[169] Hughes, C. a Thomas, . M. (2016), You can trust me … Young people going missing and at risk of, or abused through, child sexual exploitation in North Wales, Barkingside: Barnardo's, a'r Swyddfa Gartref (2014), Multi Agency Working and Information Sharing Project:*Final Report*, Llundain: Y Swyddfa Gartref

[170] https://www.iicsa.org.uk/key-documents/3304/view/victim-survivor-voices-from-truth-project.pdf

[171] LyonD. Lyon D. ac Ahern, E. C. (2009), 'Disclosure of child sexual abuse', yn J. E. B. Myers (2011), The APSAC Handbook on child maltreatment, tt. 233–252,: Sage

[172] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2016), Abuse during childhood:*Findings from the Crime Survey for England and Wales, year ending March 2016* https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/abuseduringchildhood/findingsfromtheyearendingmarch2016crimesurveyforenglandandwales#things-you-need-to-know

[173] Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant a Chyfadran Meddygaeth Fforensig a Chyfreithiol (2012), *Guidelines on Paediatric Forensic Examinations in Relation to Possible Child Sexual Abuse*

[174] Llywodraeth Cymru (2018), Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: Fframwaith Cyflawni Trawslywodraethol 2018–2021, https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/fframwaith-cyflawni-traws-lywodraeth-2018-2021.pdf

[175] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/783596/VAWG_Strategy_Refresh_Web_Accessible.pdf

[176]https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/476900/code-of-practice-for-victims-of-crime.PDF

[177] http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1999/23/contents

[178] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2011), *Achieving Best Evidence in Criminal Proceedings:*
Guidance on interviewing victims and witnesses, and guidance on using special measures, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/legal_guidance/best_evidence_in_criminal_proceedings.pdf

[179] https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/child-sexual-abuse-guidelines-prosecuting-cases-child-sexual-abuse

[180] A Typology of Modern Slavery Offences in the UK (2017)